

ECO'r Wyddfa

Dyfodol Disglair Sêr Lleol

Ydach chi'n rhyw synhwyro nad ydi popeth mor felys ag y gallai fod ym myd chwaraeon ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd? Mae yna drafferthion ar y cae a thu ôl i'r llenni yn Undeb Rygbi Cymru, ac mae'r 'hen dô' yn dechrau gadael y tîm pêl-droed. Peidiwch digaloni, gan fod yna ddigon i'w ddatlu yma'n lleol, gyda phobl ifanc bro'r Eco yn rhagori mewn sawl camp.

Gymnast y Flwyddyn

Mae Guto Williams o Lanrug yn gwneud ei farc ym myd gymnasteg, gan iddo ennill 'Gymnast y Flwyddyn' yn noson wobrwyo Gymnasteg Gogledd Cymru. Cewch ei hanes ar dudalen 32.

Seren y Cae Rygbi

Mae Corin Mabon Jones bellach yn aelod gwerthfawr o garfan dan 16 Rygbi Gogledd Cymru, ac yn teithio i Barc Eirias ddwywaith yr wythnos i hyfforddi gyda'r tîm. Trowch i dudalen 32.

Beiciwr ar y Copa

Pencampwr ifanc lleol arall yw Osian Morris o Lanrug. Trowch i dudalen 32 i ddarllen hanes y beiciwr mynydd sy'n cipio gwobrau.



Mari'n ymuno â thîm merched Wrecsam



Mae sylw cynyddol ar glwb pêl-droed Wrecsam y dyddiau yma, gyda'r cyfryngau Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol yn dilyn helynt y timau ar y cae a hanes y trigolion lleol. O ia, ac mae ganddynt berchnogion nid an-enwog. I'r byd yma y bydd merch o Lanrug yn perthyn o hyn ymlaen.

Mae Mari Gibbard o Lanrug wedi ymuno â thîm merched *Wrexham AFC Women*, a hynny oherwydd bod ei chlwb newydd wedi edmygu ei thalent ers sbel ac wedi bod yn aros i'w chael ar eu llyfrau. Bydd trigolion lleol yn cofio Mari'n chwarae i Glwb Merched Bethel dros ddau gyfnod gwahanol, ac yn ei chyfnod olaf gyda nhw yn rhymer 2021/22 fe sgoriodd 16 o

goliau a chyfrannu at 19 gôl arall.

Gadawodd Mari, sy'n chwarae yng nghanol cae, i ymuno â thîm Llandudno yn ystod haf 2022 ac mae hi wedi sgorio 14 o goliau hyd yma y tymor hwn. Ond daeth ei chyfnod gyda Llandudno i ben yn fuan pan llwyddodd Wrecsam i'w denu ymhellach i'r dwyrain.

Yn debyg iawn i'r tîm dynion, mae tîm merched Wrecsam hefyd yn anelu i ennill y gynghrair fyddai'n golygu dyrchafiad i'r haen uchaf a chael *Tier 1 license*, gan ganiatau i'r sgwad droi'n rhannol-broffesiynol.

Llongyfarchiadau mawr Mari, ac mi fyddwn yn dilyn dy hanes gyda diddordeb!



Yn y rhifyn hwn:

- Hwylfa - troedio llwybrau Llanddeiniolen - **tud 18**
- Cofio John Elwyn Hughes - **tud 14**
- Cynllun Prynu Cartref - **tud 5**
- Yma o Hyd a Dic Sion Dafydd - **tud 17**
- Croeso cynnes yng nghaffi EB Deiniolen - **tud 4**



Elin Enfys

Chwilio am Elin Enfys

Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

Golygydd Chwaraeon

Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Golygydd yr Ifanc

Marged Rhys -marged_3@hotmail.com

Ffotograffydd

Gwynhaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

Trefnydd Ariannol

Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Gwerthiant Post

Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Bwndelu

Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Dylunydd

Elgan Griffiths - post@elgangriffiths.com

GOHEBWYR PENTREFI

Bethel:

Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Brynrefail:

Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

Caeathro:

Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Deiniolen:

Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

Dinorwig:

Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Llanberis:

Eifion Roberts
Swyn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

Llanrug:

Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

Nant Peris:

Kate Pritchard - 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

Penisarwaun:

Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

Wanfawr:

Iola Gruffudd
iolallew@hotmail.co.uk



Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.
Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau

ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyrr Pentrefi isod.
Rydym yn croesawu erthyglau

hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

Dyddiadau i'w cofio...

Rhifyn	Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis)	Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis)
Ebrill	10 Mawrth	24 Mawrth
Mai	14 Ebrill	28 Ebrill
Mehefin	12 Mai	26 Mai



Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Wyau** - Yn Niffeithdir Negev yn Israel mae archeolegwyr wedi darganfod wyth o wyau estrysydd yn 4,000 o flynyddoedd oed. Credir mai gwersyll nomadiaid oedd yma bryd hynny, a'r gobaith yw darganfod mwy am y modd roedd y crwydriaid hyn yn byw.
- **Dyddiadur** - Yn ystod y 1840au aeth y llong Erebus ar goll ym Môr Arctig wrth chwilio am lwybr morol i'r gogledd o dir mawr Canada. Cafodd sgerbwd y llong ei darganfod ar wely'r môr yn 2014, a bellach mae dyddiadur wedi ei achub o grombil y llong sy'n cofnodi dyddiau olaf y criw.
- **Methiant** - Y llong ofod gyntaf i gael ei lansio o Brydain - The Virgin Orbit, yn methu, a'r cargo o loerennau yn chwalo cyn disgyn i'r môr.
- **Morlo** - Llyn pysgota yn Swydd Essex wedi ei 'hawlio' gan forlo. Credir iddo fwyta gwerth tua £3,000 o bysgod tra'n lletya yno am rai wythnosau.
- **Rhyddid** - Wedi dros 30 mlynedd yn osgoi'r awdurdodau cafodd Messina Denaro, pennaeth y Mafia ar Ynys Sicily, ei ddal y tu allan i glinig preifaf yn ninas Palermo.
- **Cymraeg** - Netflix yn cyhoeddi eu bod am ryddhau eu ffilm Gymraeg gyntaf erioed - 'Dal y Mellt'.
- **Cwningod** - Dyma'r anifail anwes mwyaf poblogaidd yn Hong Kong, a Blwyddyn y Gwningen fydd hi eleni ar y Calendr Tsieineaidd. Bydd perchnogion cwningod yn dathlu mwy na'r arferol eleni, a bu cynnydd yn y llyfdd ar gael i warchod cwningod. Mae'r pris gwarchod fel arfer tua £12 y diwrnod.
- **Pelé** - Datgelwyd fod y crys olaf i'r pêldroediwr ei wisgo wrth gynrychioli ei wlad yn erbyn Iwgoslafia yn 1971 yn cael ei gynnig ar werth mewn ocsiwn yng nghanolbarth Lloegr. Disgwylir iddo werthu am bris rhwng £20,000 a £30,000.
- **Oriawr** - Cyfrannwyd nifer o eitemau i siop elusen Cymdeithas y Galon yn Llundain. Yn eu plith roedd oriawr aur 18 carat o wneuthuriad Cartier. Gwerthodd am bron i £10,000.
- **Morgrug** - Mae gwyddonwyr ym Mhrifysgol y Sorbonne ym Mharis yn credu y gall morgrug du ddarganfod symptomau cancr mewn wrin.
- **Ceir** - Am y tro cyntaf mae cynhyrchu ceir ym Mhrydain wedi disgyn i'r cyfanswm isaf erioed mewn 70 mlynedd.
- **Diflannu** - Erbyn diwedd y ganrif credir y bydd 21 o bentrefi arfordirol o amgylch Prydain wedi diflannu o ganlyniad i erydu oherwydd bod lefel y môr yn codi.
- **Cydraddoldeb** - Am y tro cyntaf mae merched wedi cael caniatâd i ymuno yng ngorymdaith Gŵyl Ddan Up Helly ar Ynysoedd y Shetland. Mae'r Wyl wedi ei chynnal er 142 o flynyddoedd.
- **Dathlu** - Mae gwyliau Mardi Gras yn cael eu cynnal ledled Gwlad Belg cyn tymor y Grawys. Mae'r wyl hynaf yn nhref Binche, ac wedi ei chynnal ers y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae un teulu yn y dref yn gwneud bywoliaeth fel teilwriaid yn paratoi gwisgoedd ar gyfer y dathlu.
- **Comedi** - Cyhoeddwyd fod un o'r cyfresi comedi mwyaf poblogaidd erioed, Fawlty Towers, i ddychwelyd. Dwy gyfres yn unig a ddangoswyd ar BBC2 yn 1975 a 1979. Bellach, mae John Cleese a'i ferch, Camilla, yn gweithio ar gyfres newydd - ond mewn gwesty gwahanol.



Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£10 Eirlys Sharpe, Bethel.
£10 Di-enw.

ECO'r Wyddfa

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

Swydd Clerc i'r Cyngor

Gofynnir am geisiadau oddi wrth ymgeiswyr addas ar gyfer y swydd Clerc i Gyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris.

Mae'r cyngor yn awyddus i benodi Swyddog Gweithredol (Clerc) i ymdrin ag agweddau gweithredol dydd i ddydd y Cyngor Cymuned.

Y clerch fydd yn gyfrifol am weinyddu'r Cyngor Cymuned yn effeithiol, gan gynnwys cadw cofnodion gweithgaredd ac ariannol a gweithredu fel y prif bwynt cyswllt.

Cyflog: LC2 (£22,000 - £27,000 pro rata) Oriau i'w trafod.

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'r swydd hon. Dyddiad Cau ar gyfer ymgeisio am y swydd : 1af o Fawrth.

I ymgeisio ac am fwy o fanylion am y swydd, cysylltwch â Dei Tomos (01286871250) deitomos@btopenworld.com

Llythyr

Annwyl ddarllenwyr,
Sesiynau Cwestiwn ac Ateb Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn lansio **sesiynau holi ac ateb** rhithwir misol ar yr ail wythnos o bob mis. Gallwch ofyn i ni unrhyw beth yr hoffech ei wybod am fabwysiadu. Byddwn yma i ateb eich cwestiynau a thawelu eich meddwl. Mae'n haws nag y gallech feddwl ...

Os hoffech ymuno â ni ar un o'r dyddiadau isod rhowch wybod i ni pa ddyddiad sydd orau gennych ac a hoffech siarad yn Gymraeg neu Saesneg a gallwn archebu lle i chi.

- Dydd Mercher, Chwefror 15fed, 6-7pm
- Dydd Mawrth, Mawrth 21ain, 6-7pm
- Dydd Mercher, Ebrill 19eg, 6-7pm

- Dydd Iau, Mai 18fed, 6-7pm
- Dydd Mawrth, Mehefin 20fed, 6-7pm

Sut mae cysylltu?

E-bost : adoption@wrexham.gov.uk

Rhadffôn: 0800 085 0774

Gwefan: mabwysiadugogleddcymru.co.uk/

Helpwch ni i godi ein proffil trwy ein dilyn a rhannu ein tudalen **@nw_adoption** ar Twitter, Facebook ac Instagram.

Rydym yn dymuno helpu'r plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu i ddod o hyd i'w teuluoedd am byth yng Ngogledd Cymru.

Diolch yn fawr.



Annwyl ddarllenwyr
Rwy'n casglu gwybodaeth ac atgofion o brofiadau pobl o'r Ffliw Sbaenaidd er mwyn cyfrannu at waith ymchwil tuag at dy noethuriaeth PhD.

Dyma gais felly i holi os oes rhai o'ch darllenwyr yn cofio efallai am hanes teulu ddiodeffod o'r Pandemig 'chydig dros ganrif yn nôl. Yn enwedig hanes Olwen

Jones fu'n cynorthwyo i helpu teuluoedd yn Llanberis.

Mi fuaswn yn barod iawn i glywed gennych ar gyfer parhau fy ngwaith ymchwil.

Fy nhyfeiriad e-bost yw: w.charles.roberts@hotmail.co.uk

Yn gywir
Charles Roberts

Cyfes o sesiynau hyfforddiant ar greu straeon lleol, golygu testun a blogio'n fyw

Bydd Bro360 yn cynnal cyfes o sesiynau hyfforddiant i ddefnyddwyr gwefannau bro y gwanwyn yma ar zoom.

Mae datblygiadau newydd ar ein gwefannau'n golygu ei bod hi'n bosib rhoi cyfrej gwahanol a chyffrous i straeon lleol.

Byddwn yn cynnal sesiynau cyffredinol ar sut mae creu stori leol ar ddydd Mercher 8 Mawrth (12.30pm a 6pm), a sesiynau ar greu blogiau byw o ddigwyddiadau ar 5 Ebrill (12.30pm a 6pm).

Mae'r sesiynau i gyd yn rhad ac am ddim i ohebwyr bro. Cysylltwch â gwefan@post.360.cymru i gadw lle ar yr amseroedd sy'n eich siwtio chi.



Bro Wyddfa
360

CWM-Y-GLO

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn trefnu nifer o ddyddiadau casglu 'sbwriel oddi fewn i'r ardal.

Gweler isod y dyddiadau sydd wedi eu clustnodi:

18/2/2023	15/7/2023
18/3/2023	19/8/2023
15/4/2023	16/9/2023
20/5/2023	21/10/2023
17/6/2023	18/11/2023

Yn Llanrug, pawb i ymgynnull yn Y Sefydliad Coffa ac yng Nghwm y Glo ar waelod Allt Goch am 9:30 yb.

Bydd offer a chyfarpar yn cael ei rannu ar y diwrnod. Edrychwn ymlaen at eich gweld.

NANT PERIS

Eglwys Sant Peris, Nant Peris

Gwasanaethau mis Mawrth:

5ed Mawrth, 9.30 AM - Cymun Bendigaid, 4 PM - Gwasanaeth Teulu

12fed Mawrth, 9.30 AM - Cymun Bendigaid

19eg Mawrth, 9.30 AM - Cymun Bendigaid

26ain Mawrth, 9.30 AM - Cymun Bendigaid

Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11 AM.

BRYNREFAIL

Sefydliad y Merched

Yn dilyn dathliadau'r Nadolig a'r wledd ardderchog gafwyd yng ngwesty'r Black Boy, Caernarfon, dymuna pawb o'r aelodau ddiolch yn fawr i Vera Price a Carol Houston am drefnu'r cyfan ac i Pat Jones am ei rhan yn trefnu anrheg Nadolig i bawb.

Wedi croesawu'r Flwyddyn Newydd ac ail-afael yn y gweithgareddau yng nghyfarfod y gansen fis Ionawr, cafwyd cwmni Debra

Drake, a ymddangosodd yn rownd derfynol y gyfres deledu 'Sewing Bee' y flwyddyn ddiwethaf. Adroddodd am ei diddordeb mewn gwnio ers yn blentyn ac wedi cario ymlaen i ddatblygu'r grefft.

Diddorol iawn oedd gwranddo arni yn sôn sut y bu iddi gael ei dewis i fynd ar y rhaglen a gorfod cadw'r gyfrinach am amser maith. Rhoddodd gefndir o'r hyn âi ymlaen yn ystod y darlledu ac

arddangos y dillad a wniodd ar gyfer pob rownd. Roedd ei gwaith yn werth ei weld ac yn tystio'n glir i berffeithrwydd ei chreffft a pham y llwyddodd i gyrraedd y rownd derfynol yn y gystadleuaeth. Diolchwyr yn gynnes iawn iddi am noson ardderchog gan Carol Houston.

Cynhelir cwis hwyliog fis Chwefror dan ofal Carol ac edrychir ymlaen am gwmni Rhian Cadwaladr yng nghyfarfod mis Mawrth.

DEINIOLEN

Cydymdeimlo

Yn frawychus o sydyn, mi fu farw Kenneth Harries neu Ken Ty'n Clwt o Stad yr Hafod, Clwt y Bont. Roedd ganddo feddwl mawr o'r eglwys ac yntau wedi ei eni a'i fagu dros ffordd yn Nhy'n Clwt, ac wedi crwydro gryn dipyn ar draws y byd cyn setlo yng Nghlwt y Bont. Mi fydd colled ar ei ôl i'w holl ffrindiau.

Trist oedd clywed am farwolaeth ddiweddar Steven Owen, Stryd Fawr yn dilyn brwydr ddewr yn erbyn cancr. Yn wreiddiol o Dregarth, roedd yn chwaraewr darts o safon uchel iawn a chynrychiolodd dimau'r pentref, y gynghrair a'r sir am nifer o flynyddoedd. Cofion at Iwan a'r teulu a'i ffrindiau i gyd.

Y Cynghorydd Elfed Williams

Dyma ddiweddariad o'r sefyllfa, yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion Prifffyrdd y Cyngor ar 13eg Rhagfyr, 2022:

Bydd arwyneb y ffordd o Rhes Victoria at gyffordd Tai Gweledfa yn cael ei fesur, er mwyn cael amcan bris i'w ail wynebu

Cyn ystyried unrhyw waith ailwynebu, mae angen sicrhau bod traeniau dŵr ar wyneb y ffordd mewn cyflwr iawn. Bydd swyddogion o'r gwasanaeth yn cyflawni archwiliad teledu cylch cyfyng o'r systemau.

Er mwyn gwarchod y ffordd a nadu unrhyw ddirywiad pellach byddwn yn trefnu gosod defnydd *texpatch* dros yr ardaloedd gwael

Bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn 31ain Mawrth, 2023.

Diolch yn fawr i'r Pwyllgor Pentra am lwyddo i gael grant cynllun Croeso Cynnes, sydd yn galluogi i Gaffi E B fod yn agored dair gwaith yr wythnos tan o leiaf diwedd mis Mawrth.

Mae'r cynllun hwn i'w weld yn hynod o boblogaidd gan bobl leol yn barod.

Diolch

Hoffai Jonjo, Deborah a Dion o Glwb Ieuentid Deiniolen ddiolch o galon am y siec gawsom gan PC Nia Roberts, Llanberis o £250 i helpu Clwb Ieuentid Deiniolen gyda chostau rhedeg y clwb.





ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi
hysbysebu eich
busnes yma?**

Cysylltwch
â'n Trefnydd
Hysbysebion a
Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



Clwb Ieuentid

Mae aelodau'r clwb yn Neiniolen wedi mwynhau gweithgareddau amrywiol. Dyma rai ohonynt yn gwneud *smoothies*, chwarae dartiau, heb sôn am y Bowllo Deg ym Mhwlheli gydag aelodau clwb Bethel.



Noson Hwyl a Chân Gŵyl Dewi Deiniolen

Mae Pwyllgor Pentra Deiniolen hefyd yn cydweithio efo Cangen Plaid Cymru Deiniolen i gynnal noson ddifur a hwyllog am 6.30 ym ym neuadd Ysgol Gwaungynfi ar 1af Mawrth i ddatlu dydd Gŵyl Dewi. Mae croeso cynnes i chi i gyd.

HWYL A CHÂN GWYL DEWI DEINIOLEN

**yng nghwmni Annette Bryn Parri
a'i ffrindiau**

NEUADD YSGOL GWAUN GYNFI

MAWRTH Y 1AF - 6.30YH

1ST OF MARCH

SCHOOL HALL - 6.30PM

CROESO I BAWB
EVERYONE WELCOME

CYFRANIAD WRTH Y DRWS
DONATIONS KINDLY ACCEPTED



Marie Curie
Cancer Care



Merched y Wawr

Cafwyd noson hyfryd ar y 16eg o Ionawr yng nghwmni Ann Williams o Lanaelhaearn yn sôn am gynnyrch gofal y croen. Cafodd Ffion gyfle i fod yn fodel i Ann ag ymlacio a phrofi'r cynnyrch croen gwyneb.

Bydd Lowri Jones, Bethel, yn dod atom ym mis Chwefror, i'n rhoi ni gyd trwy sesiwn ymarfer corff, tra byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi yn y Felin, Pontrug.

Croeso cynnes i aelodau newydd ddod atom.

Eglwys Crist

Bydd croeso i bawb ymuno yng Ngwasanaethau'r Eglwys yma yn Neiniolen am dri o'r gloch bob pŵawn Sul.

Trist oedd darllen yn y Wasg am farwolaeth J Elwyn Hughes, Bethel, hanesydd ac awdur. Yn enedigol o Fethesda, Dyffryn Ogwen, ymddiddorai yn nhrigolion yr ardal, yn enwedig y llenor a'r awdur Caradog Pritchard. Bu J Elwyn Hughes yn pori drwy Gofrestrau Eglwys Crist, er mwyn cael mwy o wybodaeth am deulu Caradog Pritchard. Ym Mwllch Uchaf 'roedd chwaer hynaf mam Caradog yn byw, sef Mary ac roedd ei gŵr William yn gweithio yn Chwarel Dinorwig. William John Brown oedd y mab hynaf ac roedd William, oedd yn eglwyswr selog, yn byw yn Rhes Faenol hyd ei farwolaeth yn 1966. Yn achlysurol byddai Caradog yn ymweld â'i gefnder William yn Neiniolen, ac os byddai hynny ar benwythnos, mynychai Caradog Pritchard Eglwys Crist ar foreau Sul, gan eistedd yn sedd teulu Bwlch Uchaf. Y cof sydd gan bobl o Caradog yn y gwasanaethau yw ei fod yn ŵr bonheddig, gan fynd trwy'r 'Foreol Weddi' heb edrych o gwbl yn ei lyfr.

Mae ein dyled yn fawr i J Elwyn Hughes am ofalu rhoi enwogion yr ardaloedd yma o Gymru ar gof a chadw.

Ebeneser a Chefnywaun

Mae oedfaon Ebeneser a Chefnywaun yn cael eu cynnal yn Nhŷ Elidir ar y Sul, ond yn ddiweddar rydym wedi symud o stafell yr hen lyfrgell yng nghefn yr adeilad i'r stafell ffrynt ar y llawr gwaelod. Mae croeso cynnes i unrhyw

Gwobr Goffa Gwilym Tate

Cynhelir cystadleuaeth Celf i goffau Gwilym Tate eleni am y tro cyntaf. Dyma wobwr newydd flynyddol ar gyfer disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi sydd ym mlynnyddoedd 3, 4, 5 a 6. Thema'r wobwr eleni yw 'Cymru'.

Beirniad y gystadleuaeth yw Gari Williams, sef mab Gwilym, a chyhoeddir yr enillydd ar ddydd Gŵyl Dewi yn Neuadd yr Ysgol yn Hwyl a Chân Gŵyl Dewi Deiniolen.



Cynllun ar gael i helpu pobl Gwynedd i brynu tŷ ar y farchnad agored

Mae Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth gyda Tai Teg a Llywodraeth Cymru, yn cynnig cynllun rhannu ecwiti i helpu pobl gymwys ar draws Gwynedd i brynu tŷ ar y farchnad agored.

O dan Gynllun Prynu Cartref Gwynedd: Mae ymgeiswyr cymwys yn gallu benthycu rhwng 10% a 50% o werth y cartref maen nhw am ei brynu

Bydd angen iddyn nhw fod ag incwm aelwyd o lai na £60,000

Gallant brynu eiddo gwerth uchafswm o £300,000 (yn ddibynnol ar asesiad ariannol).

Cyn ei lansio ym Medi 2022, roedd y Cynllun Prynu Cartref eisoes ar gael yn genedlaethol, ond estynnodd Cyngor Gwynedd y cynllun blaenorol drwy gyfuno arian o'r Premiwm Treth Ail Gartrefi ac arian gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau sy'n

wynebu prynwyr tai yng Ngwynedd, mae gwerth £13 miliwn o fenthyciadau ecwiti wedi cael ei neilltuo er mwyn i'r cynllun fod ar gael i fwy fyth o drigolion y sir.

Gallwch fenthyg y gwahaniaeth rhwng pris eiddo a'r hyn y gall darpar brynwyr ei gynnig ar ffurf morgais a blaendal. Er enghraifft, pe byddai unigolyn cymwys eisiau prynu eiddo gwerth £200,000, ac mae ganddynt flaendal o £10,000 (5%), ac yn gallu cael morgais o £150,000, gall Cyngor Gwynedd fenthyca £40,000 iddynt er mwyn eu galluogi i brynu'r eiddo.

Pan mae'r amser yn dod i werthu'r cartref, mae'n rhaid ad-dalu canran y benthyciad ar sail ei werth presennol, ac ar yr adeg honno bydd angen prisiad annibynnol ar yr eiddo.

Ym mis Tachwedd 2022, penderfynodd Cyngor Gwynedd i gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi o 100% i 150% o Ebrill 2023 ac i gadw'r Premiwm ar dai gwag tymor hir ar gyfradd o 100%. Mae arian o'r Premiwm Ail Gartrefi ac arian gan Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio i ariannu'r Cynllun Prynu Cartref.

I wybod mwy am y Cynllun Prynu Cartref Gwynedd, ewch i wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/prynucartref

I wirio a ydych yn gymwys, ewch i wefan Tai Teg: <http://www.taiteg.org.uk/cy/am-i-eligible-to-apply>

un ymuno a'n hoedfaon a gynhelir am 3.30 o'r gloch neu am 5.00 o'r gloch ar bawn Sul. Mae trefn yr oedfaon o Sul i Sul i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth www.gronyn.org

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth diweddar Steven Owen, Stryd Fawr yn dilyn brwydr ddewr yn erbyn cancr. Yn wreiddiol o Dregarth, roedd yn chwaraewr darts o safon uchel iawn a cynrychiolodd dimau'r pentref, y gynghrair a'r sir am nifer o flynyddoedd. Cofion at Iwan a'r teulu a'i ffrindiau i gyd.

Yn frawychus o sydyn, mi fu farw Kenneth Harries neu Ken Ty'n Clwt o Stad yr Hafod, Clwt y Bont. Roedd ganddo feddwl mawr o'r eglwys ac yntau wedi ei eni a'i fagu dros ffordd yn Ty'n Clwt, ac wedi crwydro gryn dipyn ar draws y byd cyn setlo yng Nghlwt y Bont. Mi fydd colled ar ei ôl i'w holl ffrindiau.

Mannau Cynnes - Caffi EB Deiniolen

Mae Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd wedi sefydlu prosiect Mannau Cynnes i weithio gyda neuaddau cymunedol, hybiau ac adeiladau tebyg i gynnig manau cynnes i bobl gyfarfod yn ystod misoedd y gaef.

Mae'r Mannau Cynnes yn rhywle cynnes i bobl gyfarfod am banded a sgwrs, i wyllo'r teledu gyda'i gilydd, rhywle i goginio a bwyta gyda'i gilydd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy strwythuredig.

Bydd Caffi EB ar agor bob dydd Mawrth am 10yb - 1yh; dydd Iau am 5yh - 8yh a dydd Sul 12yh - 3yh bob wythnos.

Mae croeso i bawb, felly dewch i ymuno â

ni i fwynhau, nid yn unig lle cynnes i eistedd a sgwrsio ond hefyd cyfle i fwynhau cynhesrwydd cwmniaeth; cynhesrwydd cwrdd â hen ffrindiau ac efallai cael cyfle i wneud ffrindiau newydd, mwynhau diddordebau newydd neu rannu hen rai. Bydd lluniaeth ar gael am ddim.

Mae Pwyllgor Pentra Deiniolen yn ddiolchgar iawn am y grant o £5,000 a dderbyniwyd gan Mantell Gwynedd, sy'n golygu iddynt fedru cyflogi dau berson i weithio yn y caffi ac yn helpu pobl leol i wneud arbedion ar eu costau byw. Hoffai Pwyllgor Pentra Deiniolen ddiolch i bawb am gefnogi popeth maent yn ei wneud! Mae'r lluniau yn dangos y croeso sydd i'w gael yng Nghaffi EB, sylwch ar rai ymwelwyr gwahanol ar bedair coes alwodd heibio hefyd!



Caffi EB
Deiniolen
Croeso i bawb.
Lluniaeth am ddim.
Dydd Mawrth 10yb - 1yh
Dydd Iau 5yh - 8yh
Dydd Sul 12yh - 3yh
10 High St, Deiniolen, Gwynedd, LL55 3HU



Ysgol Brynrefail



Teithiau Celf

Mae'r Adran Gelf wedi bod yn hynod o brysur yr hanner tymor yma ac wedi trefnu dwy daith oedd yn brofiad ardderchog i'r myfyrwyr sy'n astudio Celf.

Cafwyd taith i Oriolau Celf yn Llundain gyda myfyrwyr y 6ed dosbarth. Roedd cyfle i ymweld â'r TATE Modern, Y National Gallery ac Amgueddfa V&A. Treuliwyd yr ail ddiwrnod

yn Rhydychen yn ymweld â'r Amgueddfa Ashmolean. Diolch i gwmni Arvonio a Lanrug am drefnu cludiant a gwesty ar gyfer y daith.

Wedi hynny cafwyd taith i Oriolau Celf yn Lerpwl gyda disgyblion blwyddyn 11. Roedd cyfle i ymweld â'r TATE Modern, Oriol Gelf ac Amgueddfa Walker. Diolch i gwmni Bws Peris o Lanberis am drefnu cludiant ar gyfer y daith.



Gig Fleur de Lys

Nos Iau, 19eg Ionawr roedd cynnwrf yn neuadd yr ysgol gan fod gig yn digwydd yno - am y tro cyntaf ers y cyfnodau clo. Y chweched dosbarth oedd wedi trefnu'r noson er mwyn casglu arian at elusennau lleol.

Ar gychwyn y noson chwaraeodd grŵp sydd newydd ei ffurfio o Ysgol Syr Hugh Owen, sef 'Seion on Strings' ac erbyn yr ail gân roedd pawb ar eu traed yn dawnsio iddynt ac yn mwynhau eu fersiwn nhw o 'Rhedeg i Baris'. Grŵp newydd o Ysgol Brynrefail oedd yn eu dilyn nhw sef 'Machlud'. Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw berfformio a gobeithio cawn eu gweld ar lwyfan eto'n fuan.

Uchafbwynt y noson oedd perfformiad y grŵp poblogaidd 'Fleur de Lys'. Does ryfedd eu bod yn boblogaidd yn Ysgol Brynrefail

gyda Mr Harvey, un o'n hathrawon Cerdd a Chymraeg, yn chwarae yn y band yma. Doedd sawl un erioed wedi bod mewn gig oherwydd cyfyngiadau Covid y blynyddoedd diwethaf. Roedd hi'n wych eu gweld nhw'n neidio a dawnsio a chanu hefo'r grŵp. Bydd rhaid trefnu gig arall yn fuan! Casglwyd £548.15 tuag at wahanol elusennau.

Cwrs Cymorth Cyntaf Môn CF

Diolch i un o hyfforddwyr Môn CF am ddod atom sawl gwaith ym mis Ionawr i hyfforddi criwiau bychan o ddisgyblion blwyddyn 11 er mwyn iddynt ennill cymwysterau galwedigaethol. Yn y lluniau fe welwch y criw o ferched a gafodd eu hyfforddi ar gwrs cymorth cyntaf gan dderbyn cymhwyster yn y maes ar ddiwedd y dydd.





Parti Pendalar

Roedd hi mor braf gweld disgyblion y chweched dosbarth yn cael cyfle unwaith eto i drefnu Parti Pendalar yma ar 21ain Rhagfyr. Nid ydym wedi gallu cynnal parti dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd Covid felly roedd pawb yn frwdfrydig iawn i fynd i'r afael â'r gwaith.

Unwaith eto cafwyd parti gwych ar gyfer holl ddisgyblion adran iau Ysgol Pendalar. Diolch i holl waith disgyblion blwyddyn 12 llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian er mwyn talu am y parti hwn. Dangosodd y disgyblion flaengaredd wrth fynd ati i gasglu ac roedd y gwaith yn rhan o un o heriau'r Fagloriaeth Gymraeg a gwblhawyd yn llwyddiannus iawn ganddynt.

Ar ddydd Mercher, 21ain Rhagfyr aethpwyd ati i baratoi'r neuadd a'r danteithion ar gyfer y parti mawreddog. Cyrhaeddodd disgyblion Pendalar erbyn amser cinio i groeso mawr gan y staff a'r disgyblion a daeth Gwilym Rhys draw i gynnig adloniant ar eu cyfer. Diolch yn fawr iddo ef am fod mor barod i gymryd rhan unwaith eto. Diolch hefyd i'r holl fusnesau lleol a gyfrannodd yn hael eleni eto tuag at gostau'r parti. Golygodd eu cyfraniadau bod pob un plentyn yn y parti wedi derbyn anrheg gan Siôn Corn. Yn olaf diolch yn fawr i'r staff a weithiodd gyda blwyddyn 12 gan ofalu bod y traddodiad arbennig yma o gynnal parti Nadolig yma i ddisgyblion Ysgol Pendalar yn parhau.



Pêl-droed Genethod dan 15 oed

Llwyddodd tîm pêl-droed genethod dan 15 i ennill eu gem Cwpan Cymru o 4-2 yn erbyn Ysgol Friars. Pob lwc iddyn yn rowndiau'r wyth olaf!



Pêl-rwyd

Da iawn Ebony, Jasmine ac Efa o flwyddyn 8 ac Alaw, Sara, Ellie, Beca, Luned ac Emily o flwyddyn 11 fu'n cynrychioli Pêl-Rwyd Gogledd Orllewin Cymru dan 16 mewn gemau rhyng-sirol yn ddiweddar.



Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Olly o flwyddyn 7 am ennill y gymnast sydd wedi datblygu mwyaf yn y seremoni gwobrwyo gymnasteg Gogledd Cymru a chael 1af a 4ydd ar lawr mewn cystadleuaeth diweddar – pob lwc i ti yn cynrychioli Eryri!



Traws Gwlad

Da iawn yr holl ddisgyblion fu'n cystadlu mewn cystadlaethau traws gwlad ym mis Ionawr. Llwyddodd sawl disgybl i fynd ymlaen i gynrychioli Arfon yng nghystadleuaeth Eryri. Yn dilyn cystadleuaeth Eryri, llongyfarchiadau mawr i Efa Baines, Mabli Baines, Izzy Shaw, Alaw Swyn, Cafan Thomas ac Elis Griffiths ar eu llwyddiant, a phob lwc iddyn nhw yn cynrychioli Eryri yn y rownd genedlaethol yn Aberhonddu.

Sgio

Llongyfarchiadau mawr i Molly Chisolm a Merlin Ingle fu'n cystadlu mewn Pencampwriaeth Sgio Welsh Apline yn Les Crosets, Champery, Swistir.



Cydymdeimlad

Yn dawel yn ei gartref ym Mryn Ogwen, Bethel ddiwedd Ionawr bu farw y Dr. John Elwyn Hughes. Cydymdeimlwn â Deilwen, Sion, Manon, Gwyndaf, Garmon a'r teulu estynedig yn eu colled. Bydd colli Elwyn yn golled mewn sawl maes, boed yn lleol neu genedlaethol.

Un o Fraichmelyn, Bethesda oedd Elwyn yn fab i chwarelwr. Howget go iawn a bu ei gyfraniad i'r dyffryn yn un hir, gwerthfawr a chlodwiw. Ef oedd clorianydd hanes y dyffryn mewn sawl agwedd. I unrhyw un a fu'n dyst i'w stydi, mae'n drysorfa o gylchgronau, cofnodion, lluniau o ddigwyddiadau, datblygiadau a chymdeithasau'r dyffryn. Ni fu casglwr fel Elwyn. Byd addysg oedd ei briod faes, ac wedi graddio yn y 'Coleg ar y Bryn', bu'n athro a phennaeth y Gymraeg yn ei hen ysgol, Ysgol Dyffryn Ogwen. Yna ei apwyntio yn Brifathro arni. Y cyntaf o'r fro i ddal y swydd, a golygai hynny lawer iddo. Mynnodd le i'r Gymraeg yno. A pha well arweinydd yn yr elfen honno o addysg?

Fe'i cofir fel ein purydd iaith, ac mae ei lyfryn ar reolau a chystrawenau'r Gymraeg wedi bod yn ganllaw i lawer ohonom dros y blynyddoedd. Yr oedd hefyd ar alw yn aml fel golygydd. Yn wir, am 30 mlynedd ef oedd yn gyfrifol am y dasg anferthol o olygu Cyfansoddiadau a Beirniadaethau yr Eisteddfod Genedlaethol. Am ei holl waith graenus dros y Gymraeg dyfarnwyd Doethuriaeth iddo gan y Brifysgol.

Fe gofir Elwyn fel cofnodwr byd a bywyd Caradog Prichard. Cyhoeddwyd tair cyfrol ganddo yn croniclo bywyd Caradog, ac wrth gwrs dadansoddiad o gynnwys a chymeriadau 'Un Noson Olau Leuad'. Wrth reddf, roedd Elwyn yn ddarlithydd penigamp gydag ôl ymchwil trwyadl yn amlwg.

Yma ym Methel, bu'n flaenor yng Nghapel y Cysegr ers 2006. Parod ei farn, ac o hyd yn awyddus i symud yr achos ymlaen. Cymwynaswr yn y dirgel oedd Elwyn, a gall llawer yn y pentref dystio i hynny.

Daeth tyrfa luosog i'r angladd yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda, gan gynnwys cynrychiolaeth dda o Fethel. Cafwyd teyrnged bersonol gan Sion i'w dad, ac yna ar ran sawl agwedd o gyfraniad a bywyd Elwyn teyrnged gan y Prifardd Ieuan Wyn. Am hir fe gofir am y canu disgybledig o'r ddwy dôn a ddewiswyd – Rhys ac Arwelfa.

Er cof am John Elwyn Hughes

O'i Fraichmel mentrodd Elwyn, – a ffynnu rhwng ffiniau ei ddyffryn.
Graddiodd o gnwd ei gwreiddyn,
yn ei gwsg ei amdo gwyn.

Y cyntaf fu'n brif y Cownti – o'i fro,
yn fraint i'w thrysori.
Angor, mynnodd flaenori'r
elfen iaith, ei sylfaen hi.

Casglwr, rhoes y gŵr ar goedd – ein hanes
hen enwau, teuluoedd.
Athrylith llu ddarlithoedd,
a thrwy ei oes, athro oedd.

Clwb Cerdded Bethel

Taith arall yn ardal Bethesda ddiwedd Ionawr. Dechrau ychydig yn wahanol y tro yma gan i ni ddal y bws o Fangor i Fethesda, yna cerdded yn ôl yn ein pwysau ar hyd Lôn Las Ogwen. Taith hawdd yn dilyn glannau'r Ogwen i ddechrau ar hyd hen lwybr yr hen reilffordd, trwy'r Twnnel Tywyll i Dregarth. Egwyl am bryd yng Nghaffi Moelyci yna ymlaen am Lasinfryn. O hynny ymlaen cerdded ar hen sylfaen tren bach y chwarel hyd ochr dde Afon Cegin i lawr i'r Fenai ym Mhorth Penrhyn. Buom yn ffodus o gael diwrnod addas i gerdded eto'r mis yma a phawb wedi mwynhau y cerdded a'r cymdeithasu. Diolch i Gwilym ac Eirlys am gynllunio'r daith y tro yma.



Â'i lygaid, craff olygydd, – denu'r graen
dyna'r grefft gaed beunydd.
I'n hiaith, dyma'r perffeithydd,
yn gyson, un safon sydd.

Ymrwymiad â Charadog, – trwy Elwyn
trioleg ardderchog.
I'r glew, mewn print, gwisgo'r glog,
rho inni gof coronog.

Haliwch yn dyner elor, – un o'r praidd
draw i'r pridd yng Nghoetmor.
Rhoddwn gân yr hedd yn gôr,
ni'r egin hebdo rhagor.
Richard Lloyd Jones (Cyn-ddisgybl)

Gair o Ddiolch

Dymuna Eirlys, Mair, Rhian a Gwyn (3 Tan y Cae gynt) a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant am

bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Sadrach Owen Hughes (S.O.) ar y 10fed Ionawr, gŵr, tad a thaid annwyl iawn.

Diolch am yr holl gardiau, negeseuon a galwadau ffôn. Mae pob gair caredig o gydymdeimlad wedi bod yn gysur mawr i ni. Diolch i'r Parchedig Helen Wyn Jones am ei gwasanaeth gofalgwr ac urddasol ar ddiwrnod yr angladd ac i Trystan Lewis yr organydd. Diolch i'r ymgymerwyr R W Roberts a'i Fab Abergele am eu gwasanaeth hynod o gefnogol a thrylwyr a diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at Gymorth Cristnogol er cof am Sad. Diolch o galon.

Ymddiheuriad

Yn y rhifyn diwethaf ni nodwyd y cyfraniadau arianol canlynol tuag at Gronfa Mynwent

MERCHED Y WAWR

Daeth yr aelodau ynghyd yn y Neuadd yng nghwmni Nia Wyn Williams gyda sgwrs ddiddorol ar y thema 'Trysor Teulu'. Cawsom gyfle i rannu rhai o'n trysorau ni'n hunain, ac ambell wrthrych a ymddangosai ac ail-daniodd ambell i hanes neu atgof. Roedd hyn yn ein hatgoffa nad gwerth ariannol creiriau yw eu gwir werth. Fe ddaeth un neu ddau o'r aelodau a darnau o aur, ac roedd gan Nia gloriant arbennig i'w pwyso ac yn rhoi amcan pris am ei werth. Gyda phris aur wedi codi yn ddiweddar ewch i ail-chwilota, efallai fod gennyh drysor cudd adref.

Cafodd Nan ac Eryl y dasg o ddyfalu pa wrthrych oedd y mwyaf gwerthfawr – ac yr oeddent yn llygad eu lle – dwy yn amlwg yn gwybod be di be! Diolchodd Anita i Nia ar ran y gangen, a diolch

i Mair Read, Cecile ac Eirlys am baratoi'r baned. Enillwyd y raffl gan Anne.

Llongyfarchiadau calonnog i Eirlys Sharpe ar ddathliad pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Anfonwyd cofion at Robin Jones, Stad Eryri ac Ieuan Llain yr Ardd, y ddau wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwyd

y gorau i Tomos Alun sydd wedi ei drosglwyddo i Ysbyty Eryri bellach.

Yng nghyfarfod Mawrth, yn y Neuadd byddwn yn cynnal ein dathliad Gŵyl Ddewi. Y dyddiad yw'r 8fed o Fawrth. Bydd aelodau'r Clwb Bro yn ymuno gyda ni, ac fel y llynedd bydd rhai o ddisgyblion Ysgol Bethel yn ein diddori.



Eglwys Llanddeiniolen. Gydag ymddiheuriad, diolchwn iddynt am eu cyfraniadau hael.

£20: Megan Humphreys, Bethel. Eirian Jones, Deiniolen. Ann Hughes, Llanrug. Phyllis Jones, Llandudno.

Diolch

Dymuna Eirlys Sharpe, Ael y Bryn ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a'r blodau hardd a dderbyniodd ar ddathliad ei phen-blwydd yn 80 oed ar 1af Chwefror. Diolch hefyd am y gacen flasus gan gwmni Tamad.

Mae Eirlys yn dal mewn cysylltiad â Margaret Williams, Tŷ Capel, Cysegr gynt. Hoffai ar ran ffrindiau Margaret yn y pentref yrru pen-blwydd hapus 'cynnar' i Margaret fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 ddechrau Mawrth.

Clwb Bro

Braf oedd ail ymgynull dan yr hen drefn yn Ffestri Cysegr ar gyfer cyfarfod Chwefror. Yn absenoldeb y llywydd Mary Wyn Jones, croesawyd pawb gan Anne Elis. Anfonwyd cofion am wellhad buan at Olwen, chwaer Mary draw yng Nghaerdydd, wedi llawdriniaeth ddiweddar.

Ein gwraig wadd oedd Owena Hughes. Mae Owena, yn wreiddiol o Foelfre wedi symud draw i Gaernarfon. Ugain mlynedd yn ôl dechreuodd Owena ymddiddori yn y grefft o gwiltio. Eglurodd fod cwiltio yn cynnwys tair haen o ffabric wedi pwytho â'i gilydd. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gael mesuriadau'r sgwariau yn gyson a soniodd am ambell i dro trwstan wynebodd wrth gwiltio.

Cawsom wledd i'r llygaid wrth i Owena arddangos enghreifftiau o'i chreffft yn gwiltiau

unigol, lluniau a chelf ar gyfer hongian. Yn ogystal â phrynu sgwariau unigol mae Owena wedi ailgylchu dillad trwy ddefnyddio par o jins denim i greu bag a llun o Bont y Borth. Soniodd, wedi ymddoliad ei gŵr, rhoddodd fywyd newydd i'w grysau gwaith i greu cwilt.

Diolchwyd i Owena am bawn difyr gan Anne Elis, Diolch i Pat Owen a Nora Parry am baratoi'r baned.

Yng nghyfarfod Mawrth byddwn yn ymuno yn nhe Gŵyl Dewi Merched y Wawr yn y Neuadd ar 8fed o Fawrth. Fel y llynedd bydd disgyblion Ysgol Bethel yn dod draw i'n diddori.

Oedfaon Mawrth

Cysegr: 5/3 Dorothy Williams; 12/3 Gweinidog; 19/3 Richard Parri Jones; 26/3 Sul y Mamau.

Bethel: 12/3 Arwel Roberts; 19/3 Parch. Olwen Williams; 26/3 Parch. Glenys Jones.

Capel y Cysegr

Diolch i Mair Read, Ysgrifenyddes y Capel am yr adroddiad. Cofiwch fod croeso i unrhyw gapel neu eglwys ym Methel ddanfon unrhyw ohebiaeth i mi.

'Cafodd y Parch. Nerys Griffiths ddechreuad prysur i'w gweinidogaeth yma yn y Cysegr a chapel eraill yr Ofalaeth. Roeddent yn gymysgedd o'r lleddf a'r llon. Daeth nifer dda ynghyd ar gyfer ei hoedfa gyntaf yn y Cysegr ddechrau Ionawr. Gweinyddwyd y Cymun dan arweiniad y Gweinidog, ac roedd themau'r gwasanaeth yn rhoddi inni obaith y gallwn droi cefn ar gyfnod llwm y tair blynedd ddiwethaf.

Ar 25ain Ionawr, cafodd y capel golled ym marwolaeth y Dr John Elwyn Hughes, a gyfranodd fel blaenor ers 2006. Bydd chwith inni o golli ei gwmniaeth yng



ngheithgareddau'r capel. Fe welwn golli ei arweiniad doeth, a'r stôr o wybodaeth a phrofiad oedd ganddo. Mae'n cydymdeimlad fel eglwys gyda Deilwen a'r plant yn eu hiraeth.

Cafwyd achlysur dipyn hapusach ar Sul olaf y mis pan fedyddiwyd Nico Gwynne, mab Nia a Stephen Campbell. Diwrnod arbennig iawn gan mai bedydd Nico oedd y cyntaf i'r Gweinidog ei weinyddu, a hynny ar ddiwrnod penblwydd Nico yn un oed. A do fe wnaeth y gynulleidfa ganu dymuniad pen-blwydd hapus iddo.'

Diolch am Drefn

Fel y gwelwch mae cryn gynnyrch o dan newyddion Bethel a Seion yn fisol. Diolch i gynrychiolwyr cymdeithasau, clybiau ac unigolion am ddanfon eu hadroddiadau a'u lluniau i mi, yn enwedig y rhai ar e-bost. Mae hyn yn lleihau'r baich i mi o'r golygu cyn danfon y cynnyrch at Olygyddion y papur. Mae'r drefn yma yn gweithio yn dda - richard.llwyd@yahoo.co.uk. Neu gellir gollwng y newyddion ysgrifenedig acw. Braf yw derbyn newyddion yn lle mynd i chwilio a holi amdano.

PENISARWAUN

Ymddiheuriad

Ymddiheuriadau na chynhwyswyd newyddion y pentref yn y rhifyn diwethaf.

Pwyllgor y Neuadd Gymuned

Tynnwyd Clwb Cant Ionawr yn ein Dathliad o'r Nadolig ar y cyd â phlant yr ysgol, gyda'u heitemau clodwiw. Enillwyd Clwb Cant Ionawr oedd Carol Adlam a Phyllis. Enillwyd gwobr 1af Clwb Cant Chwefror oedd Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt ac enillydd yr 2ail wobwr oedd Victor Jones, Bryntirion. Cofiwch fod croeso cynnes i aelodau newydd ymuno am £1 y mis neu £12 am y flwyddyn.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n sâl yn y pentref a chofion annwyl at Dilys, Leslie, a Tegid

Dydd Gŵyl Dewi

Byddwn yn ymuno â'r ysgol i ddathlu Gŵyl dewi, bawn Mercher, 1af Mawrth am 2.00yp

yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfraniadau gan blant yr ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Bydd paned a theisen gri a bara brith ar y diwedd. Croeso i chi rieni, neiniau a theidiau a gofalwyr i ymuno â ni a chael mwynhau cyfle i gymdeithasu.

Tâl am yr Eco

I chwi aelodau' sy'n talu o fis Mawrth i fis Mawrth, gofynnir yn garedig i chi adnewyddu eich ffyddlondeb i'r Eco am £10 y flwyddyn. Bydd y casglwyr yn barod i dderbyn eich tâl.

Pwyllgor Eisteddfod Bentref

Wedi seibiant o allu cynnal yr eisteddfod Bentref yn ystod y cyfnod cloi, bwriedir cynnal Eisteddfod 2023 ar nos Iau, 10fed Gorffennaf yn y Neuadd Gymuned am 6.00yh, gan obeithio y cawn y gefnogaeth gref arferol. Cynhelir Pwyllgor ar nos Fawrth 21ain Mawrth yn yr Ystafell Gymuned

am 7.0yh. Dymunir diolch am y cyfraniadau ariannol hael tuag at yr Eisteddfod gan Ymddiriedolwyr Capel Bosra.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Arfon a Megan, Bryntirion a Kate o Lanrug a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Norman, aelod annwyl o'r teulu.

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Y mae amlenni i gefnogi'r eisteddfod eisoes wedi'i rhannu i

wirfoddolwyr i'w dosbarthu o gwmpas y pentref. Nod Penisarwaun yw £2,000. Gofynnir yn garedig gi chi am eich cefnogaeth. Gellir amgáu unrhyw swm o arian neu siec yn yr amlen a'i roi i'r casglwr. Gwerthfawrogrir pob cyfraniad a bydd eich rhodd yn ein helpu ni i gyrraedd ein targed. Diolch yn fawr.



AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP

Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975

Which? TRUSTED TRADE

01286 673559

Parth 2, Stad Ddirvidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

BOSCH Service

Ysgol Penisarwaun



Gweithdy Clocs-iaith

Yn ystod y mis diwethaf cafodd pob dosbarth yn yr ysgol gyfle i gymryd rhan mewn Gweithdy Clocs-iaith gyda Tudur Philips. Cyfle oedd hwn i ddisgyblion gael clocsio gan ymarfer patrymau iaith yr un pryd. Cafwyd llawer o hwyl a chwerthin yn ystod y gweithdai a phawb wedi mwynhau yn arw. Roedd Tudur Philips yn arbenigwr ar y clocsio a chawsom llawer o hwyl yn ceisio neidio dros hances a'i wyllo yn diffodd kannwyll wrth glocsio.



Taith y Plant Lleiaf i Gastell Caernarfon

Yn ystod y tymor diwethaf bu'r disgyblion lleiaf yn dysgu am gestyll. Roedd amryw ohonynt wedi mynegi yr hoffent gael ymweld â chastell Caernarfon ac felly aethpwyd ati i drefnu taith. Diolch i Mr Rhys Mwyn am eu tywys ar y daith o amgylch Castell Caernarfon.



Criw Karate

Diolch i griw Karate BMA Llanberis am ddod i mewn i'r ysgol i wneud sesiwn gwrthfwlio gyda disgyblion yr Adran Iau. Unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau ac wedi elwa o'r drafodaeth.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR

ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis

(01286) 870922

Gwasanaeth

FFRAMIO LLUNIAU

www.ffmpegia.com

LLANBERIS

Cais am Newyddion

Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Clybiau

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol: Grŵp Crosio a Gwau Llanberis - Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6PM tan 7.30PM. Cost £1. Croeso cynnes i ddsygwyr a rhai profiadol!

Clwb Gwnïo - yn y Ganolfan ar brynawn dydd Iau 2 - 4PM. Croeso cynnes i ddsygwyr a rhai profiadol!

Arddangosfa Luniau yn Eglwys Sant Padarn

Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30 a 2.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Eglwys Sant Padarn

Gwasanaethau mis Mawrth: 5ed Mawrth, 11yb - Cymun Bendigaid
12fed Mawrth, 11yb - Cymun Bendigaid
19eg Mawrth, 11yb - Cymun Bendigaid
26ain Mawrth, 8yb - Cymun Bendigaid; 11yb - Gwasanaeth Teulu - Mae croeso i bawb o bob oed ymuno â ni am wasanaeth byr ac anffurfiol gyda chrefftau a lluniaeth.

Ar ddydd Sadwrn, 4ydd Mawrth rhwng 12 a 2 o'r gloch byddwn yn gweini pryd o gawl a phwddin am ddim i bensiynwyr. Er mwyn archebu lle ffoniwch Heather ar 07867 982518 neu Dilys ar 01286 871423 os gwelwch yn dda.

Profedigaeth

John Ellis Jones


1929-2023

Yn dawel yng nghwmni ei deulu gyda'r nos, 28ain Ionawr, hunodd John Ellis Jones, Fron Heulog, Sling, Tregarth yn 93 mlwydd oed. Roedd yn preswlyio yn ddiweddar yng nghartref Frongoch (Bron Eryri), Llanberis. Roedd yn frodor o Lanrwst, bonheddwr hawddgar, ysgolhaig, capelwr a Chymro ffyddlon.

Priod annwyl i'r ddiweddar Ilse Renée, tad

cariadus Angharad Wyn, Rhodri Caradog a Catrin Rhiannon, taid balch Gruff Morgan, cydweithiwr a mentor i sawl cenedlaeth o haneswyr ac archeolegwyr Cymreig a rhyngwladol, ac un a ddangosai groeso mawr i bawb a ddeuai i'w aelwyd.

Cynhaliwyd wasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Seion, Llanrwst dydd Llun, 20fed Chwefror. Gellir cyfrannu rhoddion er cof os dymunir i Age Cymru trwy law'r Ymgymwrwr G L Jones, Llanrwst Ffôn: 01492 640600



Eglwys Sant Peris, Nant Peris

Gwasanaethau mis Mawrth: 5ed Mawrth, 9:30yb - Cymun Bendigaid, 4yh - Gwasanaeth Teulu
12fed Mawrth, 9:30yb - Cymun Bendigaid
19eg Mawrth, 9:30yb - Cymun Bendigaid
26ain Mawrth, 9:30yb - Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11yb.

Capel Coch Oedfaon

Dyma drefn oedfaon mis Mawrth yn Capel Coch, am 10 o'r gloch bob bore Sul.

Mawrth 5: Y Gweinidog
Mawrth 12: Y Gweinidog
Mawrth 19: Y Gweinidog
Mawrth 26: Y Gweinidog

Ysgol Sul

Mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod yn Capel Coch am 11.15 o'r gloch bob yn ail ddydd Sul. Mae'r manylion am y dyddiadau ar wefan yr Ofalaeth (www.gronyn.org) ac ar dudalen Whatsap yr Ysgol Sul. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn ddod i'r Ysgol Sul. Rydym bob amser y falch o groesawu plant newydd atom. Os am ragor o fanylion ffoniwch y Gweinidog, John Pritchard ar 01286 872390 neu holwch un o deuluoedd yr Ysgol Sul.

Apêl Twrci-Syria

Mae'r ymateb i'r argyfwng yn Nhwrci a Syria o ganlyniad i'r daeargrynfeydd ar Chwefror 6 wedi bod yn hael iawn wrth i filiynau o bunnoedd gael eu cyfrannu at Apêl DEC (y Pwyllgor Argyfyngau Brys sy'n cydlynu ymdrechion dyngarol 15 o wahanol elusennau, yn cynnwys Cymorth Cristnogol, Tearfund, Y Groes Goch Brydeinig, Oxfam ac Achub y Plant). Mae pob math o ffyrdd o gyfrannu at yr Apêl a gwaith yr elusennau hyn sy'n awyddus i estyn pob cymorth posibl i'r miliynau o bobl sydd wedi dioddef yn sgil y daeargrynfeydd. Gellir cyfrannu ar lein, dros y ffôn, trwy'r banc, trwy'r post ac ati. Os oes unrhyw un yn awyddus i gyfrannu at yr Apêl ond heb fedru gwneud hynny hyd yma mae modd gwneud hynny trwy Capel Coch. Gellir anfon cyfraniadau at y Gweinidog, y Parchg John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis neu'r Trysorydd, Mr Colin Jones, Bryn Gelli, Gellihirbant, Llanberis. Gwnewch sieciau yn daladwy i 'Capel Coch, Llanberis', gan nodi 'Apêl Twrci-Syria' ar gefn y siec os gwelwch yn dda.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad cymdogion a chyfeillion yn Llanberis i deulu'r diweddar Gwynfor a Katie Williams, Caernarfon (Stryd Newton, Llanberis gynt). Bu farw Mrs

Katie Williams ar Ragfyr 26, 2022 a chynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys a Mynwent Santes Helen, Penisarwaun ddydd Iau, Ionawr 12. Ddeuddydd yn unig wedi hynny, ar Ionawr 14, bu farw ei phriod, y Parchg Gwynfor Williams. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Y Maes, Caernarfon a Mynwent Eglwys Santes Helen ar Ionawr 30. Bu'r Parchg Gwynfor Williams yn weinidog yng nghapel Jerusalem, Llanberis am gyfnod, a thros y blynyddoedd bu'n gwasanaethu nifer o eglwysi ym Môn ac Arfon gyda'r Annibynwyr a'r Eglwys Fethodistaidd. Cydymdeimlir â'u merched Eurgain a Delyth a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

Dyddiadur y gath ddwâd/ Bobliadur - Rhan 12

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Os ydych chi'n arddwr brwd (efo cath) mi fyddwch yn gyfarwydd â mintys y gath neu *catmint/catnip* (Nepeta mewn Lladin), gan ei fod yn blanhigyn hawdd i'w dyfu mewn llecyn cynnes ar ymyl y borderi, er nad yw'n tyfu'n dda os yw'r pridd yn wlyb yn y gaeaf.

Cofiwch dydy pob cath (rhwyng 20% - 30%) ddim yn ei hoffi nac yn ymateb i'r planhigyn persawrus hwn. Mae trwynau a chegau cathod yn sensitif i *nepetalactone*, sef un o'r cemegau sydd ynddo. Wrth ogleuo *nepetalactone* mae'n deffro derbynyddion arbennig sy'n adnabod y cemegau a adnabyddir fel *fferemonau*. O ganlyniad i'r adwaith cemegol hwn mae'r gath yn profi ewfforia neu hapusrwydd ysgubol. O'i anadlu mae'n adfywiol ac yn aml yn gwneud cathod yn chwareus, rholio hyd y llawr ac ymddwyn yn wirion yn gyffredinol. O'i fwyta gall catnip weithio fel tawelydd ac weithiau'n gwneud i gathod lafoerio, canu grwndi neu ddisgyn i gysgu. Er nad yw

pob cath yn hoffi nac yn ymateb i fintys y gath, ar y llaw arall mae cathod mawr megis llewod, teigrod a'r llewparidiaid yn gallu mynd yn wirion o'i ogleuo.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl dathlu ei ben-blwydd.

"Wnes i 'rïoed feddwl baswn i'n deud hyn ond mae hi'n rhyfedd o dawel yma. Neb adra (la, dwi'n meddwl mod i wedi bod yma'n ddigon hir i alw fan hyn yn adra bellach), neb ond y fi a fy neu-droediaid. Mae'n dda mod i'n licio cysgu wir, yn enwedig o flaen y tân. Ond er bod fy mhen-blwydd wedi bod, mi ges i anrheg arall heddiw! Un annisgwyl. Roedd un o'r deu-droediaid sy'n dod yma weithiau wedi ei anfon drwy'r post, beth bynnag ydy hwnnw, meddai fy neu-droediaid.

Beth oedd o meddach chi? Rwbath bach fflwfflyd, diogon tebyg i lygoden... Mmm dwi'n cofio hela'r rheiny pan oeddwn i'n deneuach ac yn fengach... Ond wrth gwrs dydy'r un o'r deu-droediaid yn mynd i wneud pethau'n hawdd... Nid llygoden go iawn ydy o, un smalio... Pam yn enw holl gathod y bydysawd fyddai unrhyw un am greu llygoden smalio, pan mae yna gannoedd a miloedd o'r cnafon bach powld ond blasus i'w cael ym mhobman? Wna'i byth ddeall y deu-droediaid yma.

Dydy o ddim yn edrach yn arbennig o ddiddorol, ond mae'r ddeu-droed fach wedi dod o hyd i ryw botyn bach sy'n llawn o rywbeth oedd efo'r llygoden smalio. Mae hi'n dod yn ôl yn gwenu, sy'n golygu ei bod hi'n hapus, gan ddeud "Dyma chdi Bob. Fyddi di a 'L'god yn ffrindiau rwan."

Dwi'n poeni amdani weithiau, dydy beth mae'n ei ddeud a'i wneud ddim bob amser yn gwneud synnwyr i un pedair-troed fel fi.

Dwi'n anwybyddu'r L'god' smal yn llwyr. Ond yn y diwedd mae'n chwilfydedd i'n curo fy synnwyr cyffredin. Dwi'n s'nwyo'r llygoden smal. Asiffeta! Wel, na, dim asiffeta ydy o ond rywbeth arall... Dwi'n cofio mam yn sôn am hwn pan oeddwn i'n gath fach... rhyw berlysiuyn mae cathod yn ei addoli. A wyddoch chi beth? Dyna beth sydd yn L'god!



Fedrai ddim helpu fy hun, dwi wrth fy mod efo fo! Stwffio smalio fod popeth yn ddiflas a bod yn ffoenuchel fel pob cath dda. Mae hwn yn hyfryd. Dwi'n gafael ynddo rhwyng fy nwy bawen flaen. Dwi'n ei lyfu, a'i lyfu. Mae o'n deimlad mor braf, mae'n mynd a fi nôl i fod yn gath fach a mam yn fy molchi. Teimlad braf ydy bod efo mam, a chyn pen chwinciad dwi'n cysgu'n drwm.

Pan dwi'n deffro mae'r un fach yn eistedd wrth y bwrdd yn teipio ac mae o efo rwbath papur ar ei lin ar y sofffa. Dwi'n rhoi llyfiad arall i L'god a dwi'n gweld bod y ddau'n gwenu ar ei gilydd, cathod a wŷr pam.

Dwi'n clywed sŵn y gwynt tu allan eto heddiw. Tybed pryd ddaw'r tywydd braf yn ôl? Er mod i'n licio fy neu-droediaid, mi fyddai'n braf cael mynd allan i eistedd yn yr haul eto. Dwi yn mentro allan weithiau rhwyng cawodydd, a phan does 'na ddim byd oer a gwyn ar y llawr neu pan dydy hi ddim mor wyntog nes bod fy mlew ar i fyny fel draenog. Ond ar hyn o bryd dydy hynny ddim yn digwydd yn aml.

A wel, daw haul ar y bryniau gyda hyn ac am rwan mi wnâi'n fawr o'r tân ac edrach 'mlaen am y gwanwyn a'r haul a chael crwydro'r ardd a'r caeau. Efallai wnâi ganiatáu iddyn nhw eistedd allan efo fi..."

Un funud fach ...

DWY OLWG



Tybed ai felly yr oedd o'n ei weld ei hun? Dyn mwyaf unig y byd? Dyna oedd o i'r bobl a wyddai amdano ac a fu'n ei warchod o bell am rai blynyddoedd cyn ei farwolaeth yr haf diwethaf. Wyddai neb ei enw na'i oed na'i iaith. Fo oedd yr olaf un o'i lwyth, ac ers 1995 bu'n byw ar ei ben ei hun - heb gyswllt â neb arall - yn ei gynefin yng nghanol Coedwig yr Amazon ym Mrasil. Dros gyfnod o ryw ugain mlynedd cyn hynny cawsai gweddill y llwyth eu lladd gan bobl oedd am feddiannu eu tiroedd a'u cynefin. Pwy a wŷr sut y gwelai'r dyn hwn ei hunan wedi hynny, wrth iddo ymwrthod ag unrhyw gyswllt y ceisiai hyd yn oed y bobl a fynnai

ei warchod ei wneud ag o? I eraill, dyn mwyaf unig y byd oedd o. Ond tybed ai dicter at yr hyn a wnaed i'w lwyth a balchder yn ei dras a'i ffordd o fyw a gynhaliodd y gŵr hwn yn unigedd ei fyw am chwarter canrif a mwy?

Gŵr arall y cyfeiriwyd unwaith at ei unigrwydd oedd Michael Collins, un o dri gofodwr taith lwyddiannus Apollo 11 ym mis Gorffennaf 1969. Collins oedd wrth lyw'r llong ofod wrth iddi, mewn dau ddiwrnod a hanner, fynd o amgylch y lleuad 30 o weithiau. Am 13 o'i 30 cylchdro o amgylch y lleuad roedd y gŵr hwn ar ei ben ei hun tra oedd Neil Armstrong a Buzz Aldrin yn

glanio a cherdded ar y lleuad. Ac am 48 munud o bob un o'r 13 cylchdro hynny roedd Collins heb gyswllt o gwbl â'r Ddaear nac â'i gyd-ofodwyr. Yn ôl un o weithwyr NASA, 'Phrofodd neb y fath unigrwydd ers dyddiau Adda!' Ond nid felly y gwelai Collins hi. Yr hyn a brofodd o drwy'r oriau hynny, meddai, oedd 'ymwybyddiaeth, disgwyliad, bodlonrwydd, hyder a gorfoledd bron'. Yn ôl y dyn ei hun felly, popeth ond unigrwydd.

Does dim rhaid mynd i'r Amazon na'r lleuad i bobl ein gweld mewn ffordd wahanol i'r hyn y gwelwn ni ein hunain. I lawer, pobl i dosturio wrthyn nhw ydi Cristnogion am mai bywyd diflas sydd ganddyn nhw: bywyd o ddefodau crefyddol sych; bywyd o orfod gwneud pethau nad oes neb am eu gwneud ac o beidio â gwneud pethau y mae pawb arall am eu gwneud;

bywyd o ddiflastod sy'n amddifad o bob hwyl a mwynhad; bywyd o gulni ac o dderbyn yn ddifeddwl hen gredoau a hen safonau sy'n cyfyngu ar eu rhyddid ac ar eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r byd.

Ond ni all dim bod yn bellach oddi wrth y gwir o gofio mai'r hyn a fedd y Cristion, yng ngeiriau'r Arglwydd Iesu Grist ei hun, yw 'bywyd yn ei holl gyflawnder'. Bywyd o lawenydd a dedwyddwch yw hwnnw; bywyd ag iddo'r pwrpas aruchel o wasanaethu Iesu Grist; bywyd â'i sylfaen yng nghariad Duw a'i gysur yn ei faddeuant; bywyd o ryddid oddi wrth ddefod a hual crefydd; bywyd o ddiddanwch a nerth yn wyneb yr amgylchiadau gwaethaf; bywyd â'i obaith yn addewid Duw o'r nefoedd i'r sawl sy'n credu yn ei Fab.

JOHN PRITCHARD

WAUNFAWR

Llongyfarchiadau

I Dr Anwen Rhys Jones, Llys y Waun ar gwblhau doethuriaeth (PhD) yn ddiweddar. Maes ymchwil Anwen ydi lles teuluoedd sydd â phlant ag awtistiaeth. Ymysg y gwaith mae Anwen yn ddatblygu ydi rhaglen gwrth-fwlio ar gyfer teuluoedd. Mae Anwen yn aelod o Ysgol Iechyd ac Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor. Llongyfarchiadau mawr iawn i chdi Anwen ar dy lwyddiant.

Codi arian i elusen Macmillan

Cofiwch am y noson codi arian i'r elsen yma fydd yn cael ei chynnal yn Snowdonia Parc, Waunfawr ar 10fed Mawrth, tocyn £10.

Brysiwch wella

Cofion cynnes at bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, ac yn arbennig y rhai sydd wedi gorfod bod yn yr ysbyty, Gareth Williams, Plas Bodhyfryd a John Gwynedd, Nant.

Diolch

Dymuna Veronica, Marc, Lea a'r

teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli Geraint. Diolch i Meinir Griffith am ei threfniadau trylwyr. Diolch i'r Parch. Anna Jane a Gwenda Griffith (organyddes) am eu gwasanaeth, ac i Linda, Blodyn Tatws, Caernarfon am y blodau.

Panad a Sgwrs

Ar 2il Mawrth bydd te Gŵyl Ddewi yn cael ei gynnal yn ystod amser paned a sgwrs, a chasgliad tuag at y drychineb ddyngarol yn Nhwrci a Syria. Mae'n bosibl i'r rhai nad ydynt yn bresennol yn y te bach ar 2il Mawrth gyfrannu yn ystod cyfarfodydd eraill y mis.

Cofiwch hefyd bydd gwasanaeth llyfrgell deithiol yn ymweld unwaith y mis, os ydych chi eisiau benthg llyfr heb orfod teithio i Gaernarfon.

Plaid Cymru

Cofiwch mai ar drydydd nos lau pob mis mae cyfarfod y gangen - cyfarfod byr o lai nag awr, a chyfle i gymdeithasu wedyn. Dewch yn llw!

CAEATHRO

Capel

Ar y 5ed o Fawrth, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Dennis Davies. Ar y 19eg o Fawrth, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Anne Griffiths - yn ychwanegol, bydd Cyfarfod Blynyddol yr Eglwys a chyfarfod Arweinwyr i ddilyn yr Oedfa hon.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu'r diweddar John Rhys Jones, Chwiban y Gwynt, Glanrafon Bach, yn dilyn eu profedigaeth ar golli gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith a thaid annwyl

ar yr 16eg o Ionawr. Cynhaliwyd wasanaeth cyhoeddus dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths a'r Parchedig Huw Dylan Jones yng Nghapel Caeathro ble roedd Rhys yn Aelod.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd i deulu'r diweddar Geraint Jones, gynt o Rhos Walia, Caeathro, yn dilyn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith a thaid. Roedd Geraint yn wyneb cyfarwydd i lawer yn sgil ei swydd gyda Garej Gwalia, cyn iddynt ail-yngartrefu ym Môn maes o law.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd i Catrin Jones, Hywel ac Elan, 13 Erw Wen, yn dilyn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl yn Nolgellau yn ddiweddar.

DINORWIG

Mae'n tynnu at ddiwedd Chwefror, a rhaid gofyn ble'r aeth deufis cyntaf eleni mor sydyn. Cawsom ddigon o law a gormod o eira yn Ionawr, ond daeth yr haul i dywynnu ar ddechrau'r mis bach. Mae'r gerddi yn deffro, a gwanwyn yn y tir.

Damwain - Trist cofnodi fod Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol wedi cael damwain a thorri ei chlun. Bu'n rhaid iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd a threuliodd bythefnos yno dan ofal meddygol. Erbyn hyn mae hi yn gwella yn Ysbyty'r Allt Wen lle mae hi'n cael gofal ardderchog. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan.

Newidiadau - Gwelodd Bro Elidir gryn dipyn o newid yn ddiweddar gyda theuluoedd yn symud allan, ac eraill yn dod yn eu lle. Roedd yn dipyn o sioc o gofio fod y stad wedi bod yn bur sefydlog ers llawer blwyddyn. Mae tri o dai wedi newid

dwylo yn ddiweddar, peth anarferol mewn lle mor fychan. Mae posibilrwydd y bydd problemau parcio yma hefyd gan fod cerbydau mawr yn sefyll y tu allan i un o'r tai.

Bedydd - Ar brynhawn Sul cyntaf mis Chwefror bedyddiwyd Siwan, merch Catrin a Sion, Bryn Sardis, yng nghapel Llanfaglan gan y Parch John Pritchard, gyda Gareth Jones wrth yr organ. Yr oedd nain a thaid Dinorwig a hen nain Penisarwaun yn bresennol.

Ffarwelio a dymuno'n dda - Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco eich cyrraedd byddwn wedi ffarwelio â Mark, Lucy ac Osian o rif 8 Bro Elidir. Maent fel teulu yn symud i Lanberis i fyw. Pob dymuniad da i chwi yn eich cartref newydd. Colli cymdogion da, ond colli Osian, y bychan, yn fawr iawn.

Cofion - Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef salwch neu anhwylder. Gobeithio y byddwn i gyd yn teimlo'n well a ninnau ar drothwy'r gwanwyn.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS

01286 673535

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

CEIR CYMIRU



Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd

Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



Tyddyn Teg

Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES

Ymunwch â'n cynllun llyisiau!

Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llyisiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: 07599 813777

✉ info@tyddynteg.com

Neu ewch i'n gwefan: www.tyddynteg.com

Teyrnged i Dad, J. Elwyn Hughes

O Fryn Ogwen, Bethel, Gwynedd
Bu farw 25 Ionawr, 2023
Angladd: 8 Chwefror, 2023 yng
Nghapel Jerusalem, Bethesda

Yn gyntaf, hoffem fel teulu ddiolch i bawb sydd wedi dod yma i Gapel Jerusalem heddiw i gofio am Dad. Mae'r holl negeseuon a llythyrau yr ydym wedi'u derbyn dros y pythefnos diwethaf wedi'n cyffwrdd ac yn brawf o'r effaith y cafodd ar fywydau sawl un ar hyd ei oes.

Ganed Dad yn yr hyn a fyddai o wedi'i alw yn brifddinas Bethesda, Braichmelyn, yn unig fab i John a Myfanwy Hughes. Magwyd o mewn byd o gariad a chyfeillgarwch yng nghanol ei deulu – Taid Dros-ffordd, Arthur, Len, Anthony a Glenys – a'i ffrind pennaf, Jac, ymysg eraill wrth gwrs – a oedd i gyd yn byw taflad carreg oddi wrth ei gilydd. Yn ystod ei flynyddoedd cynnar, datblygodd berthynas agos gyda'i ewythr, Leonard, neu 'Yncl Len' fel yr oedd i Dad, ac roedd y ddau bron fel dau frawd, gydag Yncl Len yn dysgu triciau direidus i Dad, a fyddai yn ei dro yn eu rhoi ar waith yn fedrus ar y rhai agosaf ato. Nain druan fu'r targed un tro, pan ysgrifennodd Elwyn ifanc iawn bwt o nodyn a'i osod ar fwrdd y gegin, cyn mynd i guddio o dan y bwrdd hwnnw a chael cuddfan berffaith, diolch i'r lliain bwrdd hir a gyrhaeddai'r llawr. Ar y nodyn yr oedd 'North, South, East, West – guess which way I've gone'. Afraid dweud i Nain gynhyrfu'n lân a mynd i chwilio amdano ymhob man. Wedi i hynny fethu, newidiodd ei thac a gweiddi: "Elwyn! Chocled!". Ac allan y daeth o'i guddfan i sŵn addewid y danteithyn. Wrth gwrs, nid oedd siocled. Ond dyna enghraifft o awch Dad i gael hwyl a thynnu coes, rhinwedd a arhosodd efo fo

hyd y diwedd un.

Mi barhaodd y direidi diniwed hwnnw trwy ei gyfnod yn yr ysgol efo'i ffrindiau, lle'r oedd tynfa cyfeillgarwch a phêl-droed a physgota yn gryfach na gwersi bioleg a mathemateg...! Wedi dweud hynny, buan y datblygodd ei awch am addysg ac wedi gadael Ysgol y Sir, Bethesda, ac ennill graddau BA ac MA ym Mhrifysgol Cymru Bangor, seliodd ei le yn Ysgol Dyffryn Ogwen fel athro, dirprwy brifathro, ac yn brifathro a chanddo barch ei ddisgyblion a'i gyd-aelodau staff fel ei gilydd, a gweithiodd yn ddiflino i sicrhau addysg deilwng a safonol i blant Dyffryn Ogwen. Gwn y bydd gan nifer ohonoch yma straeon neu atgofion o'r cyfnod hwnnw.

Ond dechreuodd yn y byd gwaith ymhell cyn dechrau yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a hynny'n gyntaf gyda Wili Eric, y pobydd, a roddodd flas iddo, nid yn unig ar bethau melyn yng nghefn y fan, ond hefyd ar yrru cerbyd am y tro cyntaf. Er ei fod dan oedran gyrru'n swyddogol bryd hynny, roedd Wili Eric yn gadael iddo ollwng y brêc llaw wrth fynd o un tŷ i'r llall i lawr ellydd Gerlan bob yn hyn a hyn, a chyn pen dim, roedd o'n gweithio'r pedalaru a llywio o gwmpas tai Pesda fel pe bai wedi bod y tu ôl i'r llyw erioed. Roedd yn mwynhau gyrru, a thra'r oedd yn astudio yn y Brifysgol, gwiredodd freuddwyd fawr ei blentyndod, trwy ddod yn yrrwr bws gyda Purple Motors, Bethesda. (Breuddwyd arall oedd ganddo oedd bod yn dditectif, ond stori arall ydi honno). Roedd yn eithriadol o falch o'i fathodyn PSV (*Public Service Vehicle*) ac roedd i'w gweld wedi'i gosod yn falch ar silff-ben-tân ei stydi gartref. Roedd ganddo domen o straeon o'i gyfnod ar y bysus, a'r cyfan yn brawf o



ddyddiau difyr, hapus a hwyliog.

Roedd Dad yn ddydd positif, a gwelai'r cadarnhaol ym mhob sefyllfa. Fydda fo fyth yn ddigalon, ac roedd ganddo weledigaeth gadarnhaol ar gyfer popeth a wnâi. Roedd Dad hefyd yn ei elfen yng nghanol pobl yn chwarae rôl y cyfarwydd, yn enwedig os oedd a wnelo'r stori â Dyffryn Ogwen neu'i phobl! Roedd yn gyfaill ac yn gymwynaswr i nifer ac yn hapus yng nghwmni pobl o bob math ac o bob oed. Bu'n mynychu boreau coffi ym Methesda, yn cysylltu â phobl oedd yn ynysu dros gyfnod clo, ac yr un mor gyfforddus yn sgwrsio gyda'n ffrindiau ni yn ystod ein plentyndod. Yn wir, yn y dyddiau pan oedd ffrindiau'n ffonio'r ffôn tŷ i wneud trefniadau, cododd Dad y ffôn ar un o ffrindiau Manon ryw dro, ac erbyn iddo drosglwyddo'r ffôn iddi, roedd wedi cael ei alw'n "wicked" ac yn "lejang"!

Mi gafodd Dad hefyd ei siâr o droeon trwstan, gan amlaf pan fydden ni'n mynd ar wyliau, a fyddai bob amser yn destun chwerthin ac adrodd-yn-ôl wrth deulu a ffrindiau wedi dychwelyd. Meddylwch amdanom yn mynd ar wyliau i Efrog – Dad yn gyrru'r car ac yn dipyn o awdurdod tu ôl i'r llyw. Mi sylweddolodd bod modd iddo dorri talp o'r siwrnai trwy ganol y ddinas wrth droi i'r dde ar un gyffordd, yn hytrach na gyrru yn syth ymlaen. Wel, lôn braf, glir o'n blaenau a dim sôn am draffig y lôn flaenorol. Ond, buan y gwelso'n ni bobl yn chwifio dwylo a gwneud arwyddion 'stopiwch' ac, wedi arafu, mi ddaeth un at ffenestr y car ac egluro ein bod yn gyrru trwy 'pedestrian zone' canol y ddinas! Dim rhyfedd ein bod wedi dod o hyd i'r unig lôn ddi-draffig!

Dro arall, roeddem wedi cyrraedd maes awyr Manceinion, lle

gollyngodd Dad ni wrth y fynedfa a mynd ymlaen ei hun i barcio'r car. Pan ddaeth yn ôl, roedd wedi llwyddo i daro un o'r "barriers" i fynedfa'r maes parcio gan beri i hwnnw hedfan i'r awyr a glanio rywle y tu ôl iddo gan adael llwybr clir (a rhad ac am ddim!) i mewn i'r maes parcio!

Doedd o chwaith ddim yn cymryd at waith llaw, neu DIY, yn naturiol, ac mae enghreifftiau digri' o dyllau mewn waliau lle na ddylai tyllau fod, neu hoelion yn cael eu taro yn syth trwy wal i'r ochr arall – i'r pwynt lle'r aeth yn dipyn o jôc yn y teulu mai DDIY oedd hi gan Dad - 'DON'T Do it yourself'!

Ond nid chwerthin am ei ben fydden ni fyth, ond cyd-chwerthin ar y straeon doniol yma – yn wir, byddai'r cyntaf i chwerthin am ei ben ei hun. Byddai'n cymryd hyn i gyd yn ysgafn a chyda hiwmor nodweddiadol Dyffryn Ogwen, byth yn flin a byddai wrth ei fodd yn adrodd y straeon wrth nifer o gynulleidfaoedd wedyn!

Ond, yn fwy na hyn i gyd, roedd yn dad. Tad parod ei gyngor pan fo fforch yn y lôn; tad addfwyn a gofalgar a fyddai eisiau'r gorau i ni bob amser; tad oedd yn barod ei gymorth pan fo angen arweiniad; tad amyneddgar pan fo cyfnodau heriol (yn enwedig felly pan fyddwn i'n anghofio fy nghorn, cit ymarfer corff neu nwyddau coginio am y canfed tro yn yr ysgol!); tad diddorol pan fo'n rhannu straeon rownd y bwrdd ac yn diddanu gyda'i storfa o hanesion am Fethesda a'r tu hwnt.

Wrth gloi, mae llinell y bardd Tudur Aled yn gweddu ym mhob ystyr ar gyfer bywyd Dad, fu'n llawn geiriau o gyngor, geiriau o ganllaw, a geiriau o gymwynas:

"gair, wedi'r êl gŵr, a drig".

Siôn Elwyn Hughes




Y Storfa, Spar, Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

Dydd Gŵyl Dewi

Sut fyddwch chi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni?

Fyddwch chi'n dathlu yn yr ysgol; efo criw o ffrindiau; efo cymdeithas neu glwb rydych yn aelod ohono neu byddwch chi'n dathlu adref efo'r teulu? Fyddwch chi'n mynd i gyngerdd neu eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi? Beth fyddwch chi'n ei fwyta? Fyddwch chi'n gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig neu'n gwisgo cennin pedr neu genhinen (boed hynny'n un ffug neu go iawn) efo'ch dillad arferol? Efallai byddwch yn gwisgo crys pêl-droed neu rygbi Cymru neu'n cael peintio eich wyneb - draig goch neu gennin pedr yw'r rhai arferol.

Tybed fydd gennych chi faner neu faneri y tu allan i'ch tŷ - gallwch ddewis o blith y Ddraig Goch, Owain Glyndŵr neu hyd yn oed baner y dyn ei hun sef, baner Dewi Sant. Yn bennaf oll fel Cymry fyddwch chi neu sut fyddwch chi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi?

Ffeithiau am Dewi Sant

Fel y gŵyr pawb rydym fel Cymru yn dathlu ein nawddsant Dewi ar y 1af Fawrth bob blwyddyn.

Nid oes sicrwydd o'i ddyddiad geni - gall fod rhwng 462 i 512.

Un stori am ei enedigaeth yw iddo gael ei eni ar glogwyn yn Sir Benfro yng nghanol storm fawr. Tarodd mellten un o greigiau'r clogwyn, gan ei hollti'n ddau wrth iddo gael ei eni, a chredir bod dwr y ffynnon gerllaw yn iachau. Mae adfeilion Capel St Non (ei fam) i'w gweld yno o hyd.

Ysgrifennwyd hanes bywyd Dewi tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg, gan fynach o'r enw Rhygyfarch, o Lanbadarn Fawr ger Aberystwyth. Yn ôl Rhygyfarch fu farw Dewi yn y flwyddyn 589 ar y 1af o Fawrth. Dathlwyd ei farwolaeth fel gŵyl grefyddol tan y Diwygiad Protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn y ddeunawfed ganrif daeth yn wyl genedlaethol ymysg y Cymry sy'n parhau hyd heddiw.



Claddwyd Dewi Sant yng Nghadeirlan Tyddewi.

Roedd Dewi'n dod o deulu uchel ael, roedd ei dad, Sant, yn fab i Geredig, brenin Ceredigion yn ôl pob sôn. Cafodd ei addysg ym mynachlog Llanilltud Fawr, yng Ngheredigion. Aeth ar bererindod trwy dde Cymru a gorllewin Lloegr, lle sefydlodd ganolfannau crefyddol o bwys megis Glastonbury a Croyland. Aeth hefyd ar bererindod gyda Theilo a Phadarn i Gaersalem, lle cafodd ei wneud yn archesgob.

Sefydlodd fynachlog yn y porthladd Rhufeinig 'Menevia', yn nyffryn hyfryd Glyn Rhosyn yn Sir Benfro. Mae ei gysegrfa (*shrine*) yn dal i'w weld yno. Cofiwch chi, ail-adeiladwyd y gadeirlan sawl tro (ar ôl i'r Llychlynwyr ddwyn eu metelau gwerthfawr yn y degfed a'r unfed ganrif ar ddeg).

Hyrwyddwyd y nifer o bererindodau oedd yn mynd i Dyddewi, wedi i'r Pab gydnabod Dewi yn swyddogol fel sant ym 1120 a datganodd Callisut II bod dwy bererindod i Dyddewi gyfystyr ac un bererindod i'r Fatican yn Rhufain. Roedd hyn yn arbed lot o deithio ac arian i'r pererinion wrth gwrs.

Rhoddydwyd ei enw i hanner cant o eglwysi yn Ne Cymru!

Gwyrthiau

Adferodd olwg ei diwtor Sant Paulinus.

Daeth â bachgen yn ôl o farw'n fyw pan ddisgynnodd dagrau Dewi ar ei wyneb.

Wrth bregethu wrth dyrfa fawr yn Llanddewi Brefi yng Ngheredigion, cwynodd llawer nad oeddent yn gallu gweld na chlywed beth oedd yn digwydd. Yn ôl y chwedl gosododd Dewi hances ar y llawr, sefyll arni ac er syndod i bawb cododd bryn bach o dan ei draed gan ei godi i olwg yr holl gynulleidfa. Dywed rhai bod colomen wen wedi glanio ar ei ysgwydd, a chredir bod hyn yn arwydd gan Dduw o'i sancteiddrwydd. Mae'r icon ohono efo'r golomen ar ei ysgwydd yn un cyffredin iawn.

Mae'r dref Llanddewi Brefi yn parhau i fod mewn bodolaeth.

Bywyd syml

Yn wahanol i lawer roedd Dewi yn dilyn yr hyn roedd yn ei bregethu ac yn byw bywyd syml a sanctaidd. Golygai ei fod o a'i



fynachod yn tynnu'r arad yn hytrach na defnyddio ychen, yn yfed dŵr ac yn bwyta bara'n unig gydag ychydig o berlysiau a halen. Yn ôl pob sôn treuliai'r mynachod eu gyda'r nosau yn gweddio, darllen ac ysgrifennu. Doedd ganddyn nhw ddim eiddo personol. Pan roedd yn ymprydo doedd o'n bwyta dim ond cennin, un o symbolau cenedlaethol Cymru erbyn hyn.

Gwnewch y pethau bychain..."

Rhai o eiriau olaf Dewi cyn iddo farw oedd ei rai enwocaf. Cofnodwyd ei bregeth olaf yn Llanddewibrefi: 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i'.

Stori anghyfarwydd am Dewi Sant

Wrth chwilota am ffeithiau am Dewi ddeuthum ar draws y chwedl isod, sydd i'w chael yn *Folk-Lore and Folk-Stories of Wales* (1909) gan Marie Trevelyan:

Cysylltir Dewi Sant yn ôl pob sôn efo canhwyllau corff, goleuadau oedd fod i rybuddio bod marwolaeth un o'r gymuned yn yr arfaeth. Dywed y stori bod Dewi'n gweddio i'w bobl gael rhybudd os oeddent am farw, fel eu bod yn gallu paratoi eu hunain. Caniatawyd ei ddymuniaid, ac o hynny mlaen roedd pobl oedd yn byw yng ngwlad Dewi Sant yn 'cael rhagrybudd, gan olau egwan canhwyllau tenau rhyfeddol o bryd a lle gellid disgwyl am y farwolaeth.' Roedd lliw a maint y canhwyllau hyn yn dangos os oedd y person oedd i farw'n ddynes, dyn neu'n blentyn.

Dydwyd i erioed wedi clywed am hyn o'r blaen ac yn ei chael yn stori anodd ei chredu. Tybed fodd bynnag, oes rhywun arall o ddarllenwyr yr Eco'n gyfarwydd â stori/chwedl o'r fath?

Cornel Ddarllen

Mae llawer yn meddwl bod Ionawr yn fis tawel yn y siop, ond 'da ni'n gallu bod yn reit brysur rhwng bob dim. Mae 'na dipyn o waith cael trefn yn ôl ar y siop ar ôl prysurdeb diwedd y flwyddyn, ac mae'n gyfle i gynllunio ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau. Mae 'na dipyn o bobl yn dod i wario'r tocynnau anrheg a thocynnau llyfr a gafwyd yn anrhegion, ac wrth gwrs, mae dydd Santes Dwynwen yn denu pobl yn ôl i chwilio am anrheg a cherdyn i gariad, gŵr, gwraig, neu gyfaill arbennig.... mae 'na lyfrau newydd yn cael eu cyhoeddi ddiwedd Rhagfyr ac ym mis Ionawr, ac mae'n gyfle gwych i bori yn y siop, i weld y llyfrau newydd ac efallai ambell gyfrol a fethwyd yn y bwrlwm cyn dolig.

'Da ni wedi ail-gychwyn cynnal digwyddiadau, a'n digwyddiad cyntaf eleni oedd dathlu cyhoeddi Bwrw Dail, gan Elen Wyn, sy'n wreiddiol o Gaernarfon ond bellach yn byw yn Ninbych. Cyhoeddwyd y gyfrol jest cyn y Nadolig, ac roedd yn braf gweld llond siop o bobl yn dod i fwynhau sgwrs rhwng Elen a Nicky John yn ddiweddar.

Dyma'n 10 uchaf ni o 12/01/23 - 12/02/23.

1. Cariad - gol. Mari Lovgreen
2. Llyfr y Flwyddyn - Mari Emlyn
3. Bwrw Dail - Elen Wyn
4. Cwlwm - Ffion Enlli
5. Sgen i'm Syniad - Gwenllian Ellis
6. Cymru Fydd - William Owen Roberts
7. Rhaid i Bopeth Newid, cyfrol Dathlu 60 Mlwyddiant Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
8. Bywyd a Bwyd - Colleen Ramsey - cyfrol hyfryd i gyd-fynd â rhaglen hyfryd
9. The Final Whistle - Nigel Owens, hunangofiant y dyfarnwr rygbi rhyngwladol o Gwm Gwendraeth.
10. Drift - Caryl Lewis - nofel Saesneg gyntaf awdur Martha Jac a Sianco

Diolch

Dymuna Doris Evans, Adrian, Bethan, Alys a Leia ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch tuag atynt wedi iddynt golli Ronnie ar ddydd San Steffan. Maent yn gwerthfawrogi'n fawr gynhaliaeth y gweinidog Y Parch. Nerys Anne Griffiths yn y gwasanaeth teimladwy yn Amlogsga Bangor. Hefyd maent am ddiolch yn ddiffuant i Mrs. Eurwen Darwood yr organyddes ynghyd â Mrs. Mair Hughes a gyflwynodd y deyrnged annwyl a ysgrifennodd Adrian i'w dad. Diolch am drefniadau trylwyr yr ymgymerwyr E. W. Pritchard, Llanberis. Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion o tua £1,500 a dderbyniwyd er cof am Ronnie ac a fydd yn cael ei rannu rhwng Cyfeillion Ysbyty Eryri a Robert Owen House, Ysbyty Broadgreen, Lerpwl.

Fe hoffai Doris ddiolch yn fawr i'w ffrindiau a'i chymdogion am ei chludo i Ysbyty Eryri drwy'r cyfnod y bu Ronnie yn cael gofal yno.

Hafan Elan

I ddatlu Blwyddyn Newydd Tsieina, trefnodd Beverley y Warden ein bod yn cael gwledd arbennig o fwyd o'r wlad ac roedd amrywiaeth dda o wahanol ddanteithion i bawb. Roedd Andrea Pugh wedi paratoi rhestr o'r gwahanol anifeiliaid sy'n cael eu cynrychioli ar gyfer bob blwyddyn ac felly roedd pawb yn rhoi blwyddyn eu geni iddi ac yna'n cael gwybod beth oedd anifail y flwyddyn honno. Roedd llawer ohonom yn dod o dan flwyddyn y Llygoden Fawr. Yn dilyn hynny cafwyd cystadleuaeth i weld pwy fyddai'n gallu codi'r nifer mwyaf o ffa wedi eu rhewi – a hynny gyda chopsticks! Cawsom lot o hwyl wrth wneud hyn a diolch eto i Beverley am drefnu hyn i gyd.

Anfonwn ein cofion at Sian Williams, Cartref a gafodd ddamwain a thorri ei chlûn tra ar ei gwyliau yn Sir Benfro. Treuliodd gyfnod yn yr ysbyty yno ond mae adref bellach ac yn gwella'n foddhaol.

Capel y Rhos

Yng nghanol Ionawr, yn ei gwasanaeth cyntaf

fel ein gweinidog, gweinyddodd y Parch. Nerys Anne Griffiths y cymun i'r gynulleidfa. Braf oedd gweld cymaint yno ac ar derfyn yr oedfa mwynhawyd sgwrs a phaned a chafodd pawb gyfle i gyfarfod Nerys.

Oedfaon mis Mawrth:

5ed Mawrth: Y Parch. Geraint Roberts
12ed Mawrth: Y Parch. Gwenda Richards
19eg Mawrth: Y Gweinidog - Y Parch. Nerys Anne Griffiths
26ain Mawrth: Mr Dafydd Job

Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023

Mae apêl codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 yn parhau i ennyn diddordeb mwyafrif o drigolion yr ardal, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cyffrous ac amrywiol yn ystod y misoedd diwethaf.

Erbyn hyn mae rhagor na £5,000 wedi ei godi. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd pa ddigwyddiadau sydd i'w cynnal eto ym mis Mawrth. Yr hyn i'w wneud felly yw pori ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cadw i fyny gydag unrhyw ddatblygiadau pellach; er enghraifft mae'r dudalen "Llanrug Ddoe a Heddiw" sydd ar Facebook yn cynnwys nifer o hysbysebion am sawl math o ddigwyddiadau.

Mae ymarferion Corau Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd wedi bod yn cael eu cynnal yn yr wythnosau diwethaf, am yn ail yng Nghaernarfon a Phyllheli.

Mae dau gôr eleni – Côr Gwerin 'Pedair,' a Chôr Cymanfa'r Eisteddfod. Bydd y Côr Gwerin yn cyd-berfformio gyda'r grŵp gwerin 'Pedair' sef Gwenan Gibbard, Siân James, Meinir Gwilym a Gwyneth Glyn ar nos Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod. Yn ystod y cyngerdd yma bydd cyfle i ddatlu pŵer ein diwylliant drwy wledd o gerddoriaeth yn nwylo 'Pedair,' y Côr Gwerin a gwsteion arbennig.

Ar nos Sul yr Eisteddfod, bydd Côr y Gymanfa yn perfformio trefniannau arbennig o ganeuon i ddatlu llwyddiannau'r gantores opera fyd enwog, Leila Megane. Yn ymuno yn ystod y cyngerdd yma bydd gwsteion

arbennig a fydd yn cynnwys Arweinydd Cymru a'r Byd a chôr o delynuau. Mae'r ymarferion i gyd yng ngofal Siân Wheway, Gwenan Gibbard, Pat Jones, Ilid Ann Jones ac Iwan Wyn Williams. Mae 'na groeso i unrhyw un sydd yn mwynhau canu i ymuno naill ai yn y Côr Gwerin, Côr y Gymanfa neu'r ddau! Mae rhagor o fanylion i'w cael ar wefan yr Eisteddfod Genedlaethol.

Casglu Sbwriel

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn trefnu nifer o ddyddiadau casglu 'sbwriel oddi fewn i'r ardal.

Gweler isod y dyddiadau sydd wedi eu clustnodi:

18/2/2023
18/3/2023
15/4/2023
20/5/2023
17/6/2023
15/7/2023
19/8/2023
16/9/2023

21/10/2023 Yn Llanrug, pawb i ymgynnwll yn Y Sefydliad Coffa ac yng Nghwm-y-Glo ar waelod

18/11/2023

Allt Goch am 9.30 AM.

Bydd offer a chyfarpar yn cael ei rannu ar y diwrnod. Edrychwn ymlaen at eich gweld

Merched y Wawr

Ar 14eg Chwefror, edrychwn ymlaen yn fawr am gwmni'r arbenigwr Dafydd Roberts a'i sgwrs am 'Llechi Cymru ar draws y Byd'. Cewch hanes y noson yn rhifyn nesaf yr Eco.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni ar yr ail nos Fawrth o bob mis am 7.30yh yn y sefydliad coffa.

Er gwybodaeth mae Eisteddfod Cylch/Sir yr Urdd ymlaen ar 4ydd Mawrth ond ni chynhelir y Caffi eleni. Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol, Jill Lewis, ar 18fed Mawrth yn Neganwy Quays am £25 y pen.

Byddwn yn datlu Gŵyl Dewi gyda, 'Rhannu a Blasu Bwffe' - bydd pob aelod yn dad ag un peth efo nhw.

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL ARFON



☎ 01286 672076

📍 8 Stryd y Castell Caernarfon

✉ hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronffeydd cyhoeddus

SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



☎ 01286 672076

📍 8 Stryd y Castell Caernarfon

✉ sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronffeydd cyhoeddus



ESTD 1973

WAVELLS

AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI

Bryn ac Angela Williams

LONDON HOUSE LLANRUG

yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist

(01286) 673574

Dic Siôn Dafydd a Jac Glan Gors

Dwi'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonom wedi clywed am Dic Siôn Dafydd o wrando ar gân 'Yma o hyd' Dafydd Iwan, ond pwy oedd o?

Dyma eiriau Dafydd amdano –

Er gwaetha pob Dic Siôn Dafydd, Er gwaetha 'rhen Fagi a'i chriw Byddwn yma hyd ddiwedd amser

A bydd yr iaith Gymraeg yn fyw!

Daeth cerdd Jac Glan y Gors, 'Dic Siôn Dafydd' yn un o gerddi Cymraeg mwyaf cyfarwydd y 19eg ganrif ac fe'i gwerthfawrogir hyd heddiw.

Dic Siôn Dafydd yw'r enw a roddir ar Gymro sy'n dirmygu a chefnu ar ei iaith ac sy'n dynwared y Saeson. Cymro sy'n troi cefn yn friadol ar ei genedl, ei diwylliant a'i hiaith.

Honnodd Dic iddo anghofio sut i siarad Cymraeg, yn gymeriad rhwysgfawr oedd wedi tyfu i fyny yn siarad Cymraeg. Ar ymweliad â'i fam yng Nghymru, a oedd yn uniaith Gymraeg, mynnodd siarad Saesneg.

Mae'r gerdd yn dychanu'r Cymry snobyddlyd yn Llundain a drodd eu cefnau ar eu gwlad a'u hiaith er mwyn ymfrostio i'r Saeson a chrafu tîm. Mae'r eponym 'Dic Siôn

Dafydd' wedi dod i mewn i'r Gymraeg fel term difrifol am unrhyw Gymro tebyg ei natur, yn debyg i "Uncle Tom" mewn perthynas ag Affro-Americanwyr. Dwi'n siŵr fod llawer ohonoch wedi ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd.

Mi fu enw Dic Siôn Dafydd yn destun gwawd ers i Jac Glan Gors (1766 - 1821) ei wawdio yn ei gerdd a gyhoeddwyd, fel yr arfer bryd hynny, fel pamffledyn. Awdur pamffledi gwleidyddol a bardd dychanol oedd John Jones (Jac Glan-y-Gors) a anwyd yng Ngherrigydrudion, yn yr hen Sir Ddinbych (Sir Conwy bellach). Mae Glan y Gors i'w weld ar yr ochr chwith i'r A5 ar y darn syth ar ôl gadael Glasfryn - rhyw le rasio ceir bach erbyn hyn. Cafodd Jac beth o'i addysg yn Ysgol Rad Llanwrst ond yn 1789 symudodd i Lundain i weithio mewn siop ddillad. Yn ôl un ffynhonnell, ffoi i Lundain wnaeth o i osgoi gwŷr y gyfraith, wedi iddo wrthod ymuno â'r milisia lleol, un o ugeiniau a godwyd yng Nghymru'r adeg honno am fod yr awdurdodau'n ofni goresgyniad y Ffrancod a chwildro Prydeinig.

Yr oedd Glan-y-Gors yn llenor rhyddiaith medrus a naturiol er mai bychan oedd ei gynnyrch. Ei weithiau rhyddiaith fwyaf

adnabyddus yw *Seren Tan Gwmmwl* (1795) [*am fwy o wybodaeth gweler <https://cy.wikipedia.org/wiki/Seren_Tan_Gwmmwl>] a Toriad y Dydd*. Ysgrifau gwleidyddol oedd y rhain, wedi'u cyfeirio at y Cymry sy'n adlewyrchu delfrydau radicalaidd Thomas Paine a gwladgarwch Cymreig yr awdur. Fel dychanwr, bu'n ddylanwadol iawn.

Yn 1793 roedd yn rhedeg tafarn y Canterbury Arms, Southwark. Ar 23ain Gorffennaf 1816 priododd â Jane Mondel, merch o Whitehaven. Yn 1818 cymrodd denantiaeth y King's Head yn Stryd Ludgate a fu'n gyrchfan i Gymry Llundain.

Yn Llundain daeth yn aelod blaengar o Gymdeithas y Gwyneddigion yn 1790, yn yr un flwyddyn â Twm o'r Nant ac Edward Charles. Roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas y Cymreigyddion er hyrwyddo'r Gymraeg. Ef hefyd oedd un o gychwynwyr Y Greal, ar ran y Gymdeithas honno. Cymdeithas lenyddol a diwyllianol oedd y Gwyneddigion a sefydlwyd gan Gymry alltud gwladgarol yn Llundain yn 1770, gyda'r amcan o ddiogelu a hyrwyddo llenyddiaeth Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'n cael ei hystyried yn aml yn ymateb gwerinol i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.

Dechreuodd y Gwyneddigion fel math o glwb bychan preifat i Gymry Llundain oedd yn cyfarfod yn nhafarn Jac Glan y Gors. Fel mae ei henw'n awgrymu, Gogleddwyr oedd y mwyafrif o'r aelodau. Roedd ei haelodau pwysigaf yn cynnwys y ffilanthropydd Owain Myfyr, y geiriadurwr William Owen Pughe, a'r llenor a'r ffugiwr unigryw lolo Morgannwg. Cyhoeddodd y Gymdeithas sawl cyfrol, sydd â lle pwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg a datblygiad ysgolheictod Cymraeg, yn enwedig Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym (1789), y Myvyrian Archaiology of Wales (1801-07, 3 cyfrol), a'r cylchgrawn hynafiaethol Y Greal (1805-7).

[<https://cy.wikipedia.org/wiki/Gwyneddigion>]

Cynhaliwyd sawl eisteddfod dan nawdd ac arweiniad y Gwyneddigion hefyd, yn cynnwys Eisteddfod y Bala 1793 ac Eisteddfod Caerwys 1798, sy'n gerrig milltir yn hanes yr eisteddfod fodern.

Ni chlywir am y Gwyneddigion ar ôl 1837. Ymunodd nifer o'r aelodau â'r Cymmrodorion ar ei newydd wedd. Yn 1976 ffurfiwyd cymdeithas lenyddol newydd gan Gymry Llundain dan yr enw "Cymdeithas y Gwyneddigion".

Gwyndaf Hughes

DIC SION DAFYDD.

John Jones (Jac Glan-y-gors)



Fe ga'dd le hefo *Habardasher*,
'Ran ei fod e'n ddyn dewisol iach,
I fyn'd i gario amryw geriach,
Grciau, naa rhyw, binau bach.

Dechreuodd yno fwrw ei hen-flow,
Ca'dd sipog las a gwasgod wen;
Ac i wneyd eu hun yn gryno,
Dechreuodd hwylio i bowdro ei ben.

Ond toc fe hinodd ar wasanaeth,
Ac a fynodd helaeth Siop ei hun;
Er y gwyddai'r cryddion a'r teilwriaid,
Mai mewn dyled 'roedd y dŷn.

Dechreuodd wybod am y farchnad,
Ymluo, a siared, a chadw swa;
Nid oedd un dyn mor hardd ei ymddygiad,
Mewn *half boots* a *phantaloan*.

Wedi llyneu polyn ac ymchwyddo,
A'i giustiau'n gryno'n rhwbio ei gryd,
A thorch o fwslin am ei wyddfa
A chylch o fodrwy am ei fys.

Ar Dduwsul Dic a fyddai'n bnaeth,
Mewn *gig*, a geneth gydag e',
Ac yn gweiddi mewn rhyw lediaeth,
Open the gate, and clear the way.

Ac wedi gwneud eu hun i fyny,
I wlad Cymru aeth bod eam,
Yn ei gadair yn argydio,
Yn gweiddi Holo, wrth fotty ei fam.

A Lowri Dafydd dlywedai ar fyrdar
A'i machgen anwyl i wyt ti?
Bachgen!—Tim Cymraeg: *hold your bother,*
Mother you can't speak with me.

A Lowri a ddanfonai'n union,
Am y person megis Pab,
A fedrai gras o iaith y Saeson,
I siared rhwng y fam a'r mab!

Yn'r person 'nol ymbleidlo,
A'i tarawodd gyda'i ffon;
Nes oedd Dic dechreu bloeddio,
O iaith fy mam, mi fedraf hon.

Ac wrth yru yn rhy gynddeiriog,
'E daflai ei gadair ryw brydnawn,
Ar ei ben powdr i bwl manog,
Lle buasai gynt yn codi mawn.

Ar brydnawn 'roedd Dic yn yfwr,
Ac yn ddoadiwr, bloeddiwr blin;
Er na ch'u'd ef gartref ond glawdr,
Fe aeth yn ddiwynwr yfwr gwin;

O'r diwedd Dic a aeth gan dnyed,
Prin y gallai dywedyd bw;
A gofyn iddo byddai ffylad,
Mr. Davies, how do you do?

Aeth i gaboli gyda biliau,
Ac i wneyd rai troiau llawer *tric*;
Mae rhai yn dywedyd mai o'i anodd,
Ond (ow! Ow! fe dorodd Dic.

A phan ddarfu am ei gynydd,
'Roedd rhai yn dweyd ei fod e'n ffol;
A'r lleil yn gofyn mewn llawenydd,
Wel, Dic Siôn Dafydd, ddaid ti'n ol.

Cymer ofal ar bob adeg
Rhag ofa rhedeg i'r un rhaic;
Dyn cymedrol ddeil i fyny;
Cofiwch fel y darfu Dic.

Gwrandewch ar hanes Dic Siôn Dafydd,
Mab Hafoty'r Mynydd mawr;
A'i daid yn dywedyd bod ei wreiddyn
O hil gethin Albion Gawr.

Ni wyddai Dic fawr am lythronau,
Na'r modd i ddarllen llyfrau'n llawn,
Yr holl addysg ga'dd e' gartrau
Oedd gwan, a gardoi a chodi mawn.

Mewn feiriau Dic a fedrai *Stwagro*,
Dan dynn am dano'n eitha dyn;
Gwneuthur *shot* a hygth paffio,
Ac yno hwylio i ddawnsio ei hun.

O'r diwedd Dic a ddaeth i Lundon
A'i drwyn 'fewn llathen at gynffon llo'
Ar hyd y ffordd a'i bastwn onen.
Yr oedd e'n gwaiddi 'hai ptrw ho!'

ECO'r Wyddfa

Hoffech chi hysbysebu
eich busnes yma?

Cysylltwch â'n Trefnydd
Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantwynn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

Yr Hwylfa, Seion, Llanddeiniolen

Mae Syr Ifor Williams yn ei lyfr *Enwau Lleoedd* yn egluro beth yn union oedd hwylfa. Meddai: 'O bob cyfannedd yr oedd hawl gyfreithiol i ddau droetlwybr; un i'r eglwys a'r llall i'r ddyfrfa (i nôl dwr), a hefyd hwylfa i'r diffaith cyffredin o saith troedfedd o led; hynny yw, ffordd weddol gul...'

Y diffaith cyffredin oedd yr hen dir comin a hawliwyd gan y prif dirfeddianwyr o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen, gan gynnwys Llanddeiniolen. Yr hyn a wna Syr Ifor yw egluro dyfyniad allan o lyfr o'r enw *Ancient Laws and Institutes of Wales* a gyhoeddwyd yn 1841. Mae Geiriadur Prifysgol Cymru hefyd yn cyfeirio at y dyfyniad hwn o'r hen gyfrol fel enghraifft o ddefnydd o'r gair 'hwylfa'. Wrth gwrs, mae'r gair yn llawer hŷn na 1841, gan fod nifer o'r beirdd ai canrifoedd ynghynt hefyd yn defnyddio'r gair yn eu cywyddau.

Yn ôl yr hen gyfreithiau Cymreig roedd gan bob un oedd yn byw o fewn plwyf yr hawl i gerdded i eglwys y plwyf a'r hawl i gerdded i'r ffynnon neu'r lle dyfrio agosaf. Mae olion yr hen hawliau cyfreithiol hyn i'w gweld hyd heddiw, oherwydd mae nifer helaeth o lwybrau cyhoeddus led-led Cymru yn arwain at eglwys y plwyf.

Ond mae'r diffiniad o hwylfa yn awgrymu nad llwybr troed yn unig mohono. Roedd angen i hwylfa fod yn saith troedfedd o led, ac yn ychwanegol at hynny, roedd yn arwain i'r tir cyffredin neu'r tir comin, fel ei bod yn bosib defnyddio trol a cheffyl i dramwyo ar ei hyd i gario mawn neu dannwydd megis coed yn ôl i'r cartref. Ganrifoedd yn ddiweddarach, pan aeth y tir comin i ddwylo preifat, arhosodd sawl hwylfa fel llwybr troed/llwybr cyhoeddus, a datblygodd eraill yn ffyrdd gwledig culion, a'u mabwysiadu'n y pen draw gan y cynghorau sirol. Efallai mai dyna pam y diflannodd eu henwau hefyd. Ond fe oroesodd yr enw yn ardal Seion, ac yma'n unig, hyd y gwn i, o fewn holl ffiniau bro'r Eco.

Yn ôl arolwg gweddol ddiweddar a wnaethpwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd roedd fferm Pen yr Hwylfa ger Seion yn un o ddaliadau cynharaf Stad y Faenol. Mae cyfeiriad ati mor gynnar a 1696 yn talu rhent o £6 y flwyddyn i'r Faenol. Roedd hyn yn cyfateb i tua £700 heddiw, ac yn awgrymu ei bod yn fferm sylweddol yn y cyfnod hwnnw. Ganrif yn ddiweddarach na'r cyfeiriad hwn, a hynny mewn Arolwg o Stad y Faenol ceir disgrifiad o Pen yr Hwylfa gyda'r ychwanegiad 'or Ty'n yr Allt'. Pam tybed y newidiwyd yr enw? Mae'n ymddangos hefyd fod yr hen ddaliad yn dyddio o 1696 bellach wedi ei rannu, oherwydd erbyn 1800 ceir cyfeiriadau at Bryn yr Hwylfa a Tan yr Hwylfa. Hyd yn oed mor ddiweddar a 1800 roedd rhannau helaeth o blwyf Llanddeiniolen yn dir comin, a'r tir comin hwnnw yn cyrraedd ffiniau Pen yr Hwylfa. Mae Arolwg y Faenol yn cadarnhau hynny: Pen yr Hwylfa 'has a common joining one side...'. Mae Tan yr Hwylfa hefyd yn



Ai dyma'r Hwylfa?



Wyneb wedi ei balmantu'n rhannol



Adfeilion Bryn yr Hwylfa

yr un sefyllfa: 'Several rough rhosydd lying close to the road from Moel y Don to Llanddeiniolen are capable of much improvement...'. Tybed ai'r lôn hon o Foel y Don (sef Y Felinheli) i Landdeiniolen oedd yr hwylfa wreiddiol; y lôn gul yn arwain heibio Tan yr Hwylfa nes cyrraedd Pen yr Hwylfa, sef pendraw'r hwylfa, gan mai ar derfyn y daliad hwn y cyrraedd y tir comin?

Yn anffodus, mae'r enwau sy'n cynnwys y gair 'hwylfa', a'r enwau ar ddaliadau yn ardal Seion, yn amrywio o Arolwg y Faenol (tua 1800) i fap degwm Llanddeiniolen (1841) a Chyfrifiad 1841. Ar Ros yr Hwylfa, sef y tir comin gwreiddiol, y sefydlwyd y daliadau hyn ond gollyngwyd yr enw 'hwylfa' oddi ar lawer ohonynt. Yn Arolwg y Faenol ceir disgrifiad o ddaliad 'Ty'n Rhos alias Cae'n Rhos'. Rhyw John David oedd yn dal y tir bryd hynny, ond roedd wedi trosglwyddo'r denantiaeth i David Williams, ac yn byw mewn 'small cottage on part of the land'. Roedd cyflwr y tŷ, y beudai a'r sguor yn wael iawn, a'r cyfan gyda thô gwellt. Doedd y ffermio fawr gwell chwaith 'the land is badly managed'. Ar y map degwm does dim son am Cae'n Rhos, ond yn y cyfrifiad am yr un flwyddyn enwir dau Cae Rhos, ond nid yn dilyn ei gilydd. Mae Ty'n Rhos yn ymddangos ar y map degwm a'r cyfrifiad, a John Davies sy'n byw yno – ond mae'n rhy ifanc i fod yr un person a'r John David a oedd yno ddeugain mlynedd ynghynt.

Mae Bryn yr Hwylfa yn cael ei enwi yn unig – heb unrhyw ddisgrifiad - yn Arolwg y Faenol, gan gynnwys yr enw 'Stinking Pool'! Beth tybed oedd yma felly? Mae Bryn yr Hwylfa ar y map degwm, a rhyw Jane Williams yn dal y tir, ond nid yw'r

enw'n ymddangos ar y cyfrifiad (mae yn ôl erbyn cyfrifiad 1851).

Roedd tenant Tan yr Wylfa wedi marw erbyn map Arolwg y Faenol, ond ei weddw wedi ailbriodi, er nad yw'r un o'r ddau'n cael eu henwi. Mae rheolaeth y fferm yn cael ei beirniadu'n llym: '... a bad manager of the land and whose buildings are in a shocking state of repair... the land slovenly managed... and a fine meadow half starved.' Enwir Tan yr Hwylfa ar y map degwm, ond nid yw'n eglur iawn pwy sy'n ffermio'r tir. Mae'r enwau hyn yn cael eu rhestru: Thomas Robert Davies John Humphrey Williams Ellis. Does bosib mai un person yw hwn. Ond yn y cyfrifiad am yr un flwyddyn mae Ellis Williams yn ffermio Tan yr Wylfa, sy'n 100 acer, a rhyw Humphrey Davies yn ffermio Pant yr Wylfa sy'n 50 acer. A dyma'r tro cyntaf i'r enw Pant yr Wylfa ymddangos. Yn y cyfrifiad hefyd ceir yr enw Penrhos Pant yr Wylfa yn ymddangos deirgwaith, gyda John Roberts a'i deulu yn un a Hugh Mathew a David Jones yn y lleill. I gymhlethu pethau mae yna hefyd Penrhos yr Wylfa gyda John Jonathan a'i deulu.

Roedd y tir cyffredin, sef y tir comin, yn ardal Seion yn ymestyn o Nant y Garth i'r ffordd bresennol sy'n arwain o'r Gors bach i lawr am y Gelli Gyffwrdd. Ar y tir comin hwn roedd nifer o ffermydd wedi eu sefydlu – fel Pen yr Hwylfa, Tan yr Hwylfa, Llys y Gwynt a Parciau'r rhos (Parciau Rhos yr Hwylfa). Ac ar gyrion rhai o'r ffermydd hyn ar y tir comin yr adeiladwyd nifer o fythynnod, a chreu pentref bychan Seion. Ond pa un oedd yr hwylfa oedd yn arwain i'r tir comin hwn? Gan mai prin fy adnabyddiaeth o'r ardal, bu'n rhaid gofyn am gymorth, a threuliais bnawn difyr yng nghwmni Gwilym Davies, Llanrug (oedd wedi treulio'i blentynod yn Seion). Cefais fy nhywys ar hyd llwybrau cyhoeddus yr ardal – o Ty'n Rhos i lawr am Ty'n yr Allt (sef yr hen Pen yr Hwylfa) a Than yr Wylfa, cyn dringo'n ôl ar lwybr arall a chyrraedd y ffordd heb fod nepell o safle hen gapel Seion. Mae'r llun yn dangos llwybr llydan yn arwain i lawr o Ty'n yr Allt i Tan yr Hwylfa – digon llydan i drol a cheffyl, ond yn amlwg yn llwybr troed yn unig erbyn heddiw. Yn rhannau isaf y llwybr hwn (gweler y llun) roedd wedi ei balmantu â cherrig crynion, efallai oherwydd fod y tir yn wlyb. Ai dyma'r hwylfa? Ac wrth ddringo'n ôl a dilyn llwybr gwahanol daethom at adfeilion – 'bryn' meddai Gwilym. 'I'r hen adfeilion y deuem yn blant i chwarae'. Ac yr oedd yr adfeilion wedi eu lleoli yn union ble ceir Bryn yr Hwylfa ar y map degwm.

Yr oedd yma felly, ffermydd wedi eu sefydlu yn eithaf cynnar, ond mae'n siwr fod cychwyn achos y Methodistaidd Wesleidd yn yr ardal wedi bod yn hwb ychwanegol i adeiladu mwy o dai. Adeiladwyd Capel Seion yn 1818, ac er nad yw'n cael ei enwi ar y map degwm, mae'n ymddangos fel smotyn du mewn cae gwag. Enwir y tenant fel William Jones; o bosib yr un William Jones oedd yn denant Pen yr Hwylfa hefyd. Ond enwir y cae fel 'boon land'. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio mewn rhannau eraill o blwyf Llanddeiniolen hefyd – ond mwy am hynny y mis nesaf.

Gyda diolch i Gwilym Davies am brynghawn buddiol. Byddwn yn ddiolchgar hefyd am unrhyw wybodaeth ynglŷn â chychwyn yr achos Wesleidd yn Seion. Cysylltwch hefyd gydag unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r Eco – Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA; ffôn 01286 673515 neu dafydd.wthomas@btinternet.com

Dyddiadur Waunfawr 1940 - Rhan 3

Dyddiadur a rhai o atgofion o'r flwyddyn 1940, gan y ddiweddar Mary Awstin Jones, Penrhos, Waunfawr. Arferai Mary a John, ei gŵr, redeg busnes siop a becws ym mhentref y Waunfawr am dros 40 o flynyddoedd. Mae'r dyddiadur yn adlewyrchu hanes a bywyd yn yr ardal ac yn cyfeirio at rai o'r cymeriadau unigryw'r adeg honno. Roedd y dyddiadur wedi bod yn gorwedd mewn drôr yn y cwpwrdd am dros 40 mlynedd, nes iddo ddod i olau dydd yn y flwyddyn 1981.

Clywais berlau o ddywediadau gan lawer o bobl, rhai fel Robot Gryffudd, Tŷ'n Ronnen a hoffai, "Ddŵad draw i ymdroi" fel byddai'n ddweud. Roedd ei ffraethineb yn ddiaherbol, a'i air ef am gybydd oedd 'Cerlyn', "Wst'i be? Mae o'n ddigon o hen gerlyn i flingo'r diawl am lai na chroen chwanan!" A phan glywodd am anonestrwydd rhyw drysorydd yn celcio arian rhyw gymdeithas, er bod amheuaeth gan rai am ei gywirdeb cyn ei ethol i'r swydd honno, "Dyna be sydd i'w gael wrth wneud peth mor ffôl a rhoi 'goriad cwt yr ieir i lwynog!" Cafodd Robot helynt i'w goes a bu'n rhaid torri rhan o honni, a'i air ef am y goes bren oedd "Y sbêr whîl!"

Cymeriad unigryw arall oedd Griffith Parry, Hafod-y-Rhug Isa. Yntau yn adrodd ei hanes pan yn llanc yn mynd i'r Iwerddon gyda'i ewythr i brynu ceffylau a'r helyntion y bu drwyddynt. Mae Griffith Parry yn rhyfeddol o ddoniol yn enwedig wrth ddweud ei hanes yn cyrraedd 'nôl i Gaergybi â' i ewythr wedi mynd adre o'i flaen. Yntau bron a llwgu eisiau bwyd a heb arian yn ei boced i brynu dim. Fe aeth i'r 'Waiting Room' lle'r oedd 'clompan o ddynas' yn eistedd wrth y tân a gofynnodd iddi am rywbeth i'w fwyta. Aeth hithau i'r gegin a dod 'nol â " phlatiad o saim" iddo a thra roedd yn bwyta, meddyliai am bob math o bethau i'w dweud mewn amddiffyniad pan ddeuai'r ddynes i ofyn am y tâl. Ond mi sylwodd arni yn pendympian yn y gadair a chymrodd yntau fwy o amser nac arfer i fwyta nes o'r diwedd gweld ei gyfle a dianc allan.

Heno mae Griffith Parry yn galw heibio ac rwy'n gofyn iddo edrych ar adroddiadau'r plant erbyn yr Eisteddfod. Wedi cael y daflen mae'n dweud, "Wir Musus Jôs bach, mae arna'i ofn bydd rhaid i mi gael sbectol newydd neu fraich hirach!" Ond mae'n darllen pob adroddiad ac yn werth ei glywed. Cyn ymadael, mae Griffith yn gwahodd John fynd efo fo i'r *Sale* yn Llangefni ddydd Mercher ac rwyf innau yn ei annog i fynd gan fod arnom angen dipyn o ffowls, ac efallai y caiff gyfle ar rai yno.

Brysio er mwyn i John hwylio ei hun yn barod i fynd efo Griffith Parry i'r sale ond mae Griffith yn bur hwyr yn cychwyn. Pump o'r gloch ac mae Griffith Parry a John yn cyrraedd adre o Langefni efo'r ffowls. Mae'r plant yn agor drws y cwt ac yn rhoi bwyd mewn dysgl iddynt ond mae'n amlwg fod rhywbeth o'i le. Mi welwn fod rhai o'r ffowls yn llonydd ac er chwythu i'w pigau - dim haws, mae dau ohonynt yn hollol farw ond mae'r trydydd yn dechrau dadebru. Mae'r tri arall yn edrych yn rhislyd ac rwyf yn eu rhoddi mewn boc a'u cadw mewn lle cynnes yn y tŷ.

Rydym wedi mynd i'r grogan ar gownt y peth ac yn gobeithio na chaiff neb wybod am yr anffawd.

Ymysg y llythrau'r bore yma mae un a golwg braidd yn amheus arno ac wedi ei gyfeirio mewn llythrennau breision i'r 'Pen Pobydd'. Wedi ei agor beth sydd ynddo ond rhes o benillion i'r anffawd gyda'r ffowls y dydd o'r blaen. Mae'r penillion yn goeglyd a doniol, ond pwy yw'r tynnwr coes a ninnau wedi ceisio cadw'r peth mor ddistaw? Beidio fod y plant wedi gollwng y gath o'r cwd. Ond pwy? Ie pwy? Mae marc Post Aberdaron arno, ond dydi hynny yn ddim byd i feddu arno! Dyma'r geiniog yn disgyn! WIL FÔN DEBYG IAWN! Pwy arall ond y fo! Dest i gastiau fo, dyma'r union beth wnaeth o adeg yr helynt pan agorodd drws y trelar mewn plwc o dan wal y Faenol wrth i ni fynd a'r 'hwch fawr' i sioe Sir Fôn a hithau yn powlio allan gan ddrysu'r drafnidiaeth. Siwr iawn, FO sydd wedi bod wrthi eto! Ond mae'r gân yn ddigri fel wn'i ddim beth ac mae Griffith Parry yn frith drwyddi. Os gwn i beth ddywed Griffith pan welith hi, mi fydd a'i lygad yn agored i dalu yn ôl dwi'n siŵr! Er hynny, mae'r tri ffowlyn erbyn hyn yn edrych reit gartrefol. Bydd rhaid cael rhai atynt, a gwell lwc tro nesa gobeithio.

Hen greadures y cawn ambell sgwrs ddifyr a hi oedd rhen Grace Jôs, 'Rallt'. Sonia'i am ei ffordd o fyw a sut y byddai drwy ddycnwch yn llwyddo i dalu ei ffordd a hel "ceiniog fach reit daclus!" "Dafydd yn gweithio yn y chwarael a finna yn hwsmona adra. Roedda'n ni yn byw yn ddigon del ar gynnyrch y tyddyn, llond ei'n bolia o fwyd, ni â'r plant ngenath i! Gwerthu amball bwys o fenyn a helpu'r naill a'r llall adag y cynhaea aballu." Felly byddai'n siarad bob amser.

Roedd gan Grace Jôs rhyw egni neilltuol. Gwelais hi yn sefyll ar fwrdd y gegin yn "Wheit-washio yr hen do 'ma, roedd hi'n hwyr glas i 'neud o ngenath i!" Roedd hi sbel dros ei 80 oed ar y pryd ac wedi ymadael o'r tyddyn ar ochr yr Alltcoedmawr a dod i fyw i Lys Gwyrfaei yng ngwaelod Gallt y Bont. "Dafydd 'ma! Mae o mor ddifeddwl!" (Dafydd Jôs fyddai'n dod i nôl torth i'r siop). "Mae o'n rwbath iddo fo 'neud nenw'r Tad" Y tro cyntaf i mi weld Dafydd Jôs oedd yn yr Ysgol Sul a hynny yn 1932, y flwyddyn y priodais.

Roedd yr Ysgol Sul yn llewyrchus yng nghapel y Waun bryd hynny ac roedd yno ddosbarth o hen wragedd, a Dafydd Jôs oedd yr athro, os athro hefyd! Y fo a safai o flaen y setiad o bedair neu bump ohonynt yn trafod yr ysgrythurau ymysg pethau eraill.

Roedd Llys Gwyrfaei yng ngwaelod Gallt y Bont mewn lle braidd yn beryglus gan fod tro slei ar waelod y ffordd fawr a'r syndod i lawer oedd sut na fuasai Dafydd Jôs wedi ei ladd lawer gwaith gan arferai gerdded i ganol y ffordd i edrych ar yr hyn fyddai'n mynd heibio a chymryd ei amser i droi rownd a gofyn, "Be gythral oedd hwnna dudwch?" neu, "Pwy gythral oedan nhw?" a byddai'n cael ei gynhyrfu gan fod rhywun yn seinio corn ei gerbyd o'r tu ôl iddo. "Be haru'r ffylid yn gyrru fel petha gwirion, waeth ganddyn nhw fynd ar

draws rhywun mwy na pheidio. Rargian, tydw'i yma o'u blaena nhw n'enw'r tad ac mae gin'i gystal hawl a nhwtha ar y lôn 'ma!"

Un o frodyr Grace Jôs oedd Griffith Jôs, neu 'Guto'r Rallt' i bawb. Byddai'n galw heibio'r becws bob bore a chawsom lawer o hwyl yn ei gwmi. Treuliai oriau yn y becws ac wir roedd yn werth chweil am helpu. Roedd yn hynod o dwt ac yn gwneud popeth yn daclus. Fedrai ddim goddef bod heb ddim i'w wneud ac nid oedd angen gofyn dim iddo. Fe wna'i osod y tuniau yn y droriau yn barod at roi'r toes, a phan fyddai'r bara yn barod, eu tynnu o'r pobty a chadw'r tuniau mewn trefn yn eu llefydd. Roedd hyn yn gymwynas fawr i ni ar foreau prysur. Roedd elfen hewian yn Griffith, a byddai John yn dyfeisio am rywbeth i'w dynnu oddi ar ei echel er mwyn ei glywed yn tafodi - rhywbeth y galla'i wneud yn rhigyl. Bu llawer o chwerthin wrth wrando arno yn ymosod yn ei ffordd ddigri ei hunan. Ymfrostitia fel byddai'n gwneud defnydd o ambell adnod i gael y maen i'r wal. Wrth drin a thrafod un bore gofynnodd John iddo, "Griffith Jôs? Fedwrch chi ddeud wrtha'i ymhle yn y Beibl mae'r adnod yma - "Lle crafa'r iâr fe biga'r cyw?" Griffith yn chwilio a chwalu drwy'r ysgrythurau. "Griffith Jôs? Fedwrch chi ddeud ym mhle yn y Beibl mae sôn am y brenin hwnnw yn chwilio am chwannen?" Wfftia'i Griffith ac meddai yn ddirmygus. "Twt twt, lol mi lol! Rhad arnat ti yn cymryd y Beibl yn ysgafn felna!" "Na, wir i chi Griffith Jôs, mae 'na adnod yn sôn am hynna - synnu atoch a chithau yn deud eich bod yn darllen y Beibl bob dydd!" (Griffith yn gwylltio fwy byth). "Siwr gin i mai rhyw Feibl rwy'ti dy hun wedi ei wneud i dy siwtio di sydd gen ti - brenin yn chwilio am chwannan wir! Mi fasa rhywun yn meddwl basa gynno fo ddigon o weision i gadw petha felly draw - ddaliodd o'r chwannan tybad?"

Roedd brawd hynaf Griffith Jôs wedi ymfudo i'r America rai blynyddoedd ynghynt, ac roedd Griffith yntau a'i fryd i'w ddilyn i'r wlad honno. Bu'n erfyn ar ei fam, ond mynnai hithau na chai, "Fynd yn agos i'r rhen Fericia fawr 'na, mae rhen beth honno wedi mynd ac un mab oddi arna'i a dwi'n benderfynol na chaiff hi fynd ac un arall!" "Mi boenis i ddigon ar mam nes yn diawadd bu raid iddi ildio, ond hynny ar yr amod y down'i adra yn ôl ymhen blwyddyn. Roedd mam wedi darparu pecyn o frechdana jam riwbob a bara ceirch i mi i ar gyfar y daith lawr i'r porthladd, a phan agoris i'r pecyn ar y trêr, dyma ryw giard bach ifanc o rwla a llygadu'r bara ceirch. Finna'n cynnig peth iddo fo, a fynta yn ei sgloffio fo fel tasa fo a'r lugu! Pan gyrhaeddis i Chicago, mi 'chrynis weld ffashwn le mor fawr, ond buan dois i arfar a dŵad i ddallt dipyn ar y lle. Mi gyfarfis'i a'r hogan fach dlysa welsoch chi 'rioed a disgyn dros fy mhen a nghlustia mewn cariad efo hi a hitha efo mhinna. Mi faswn wedi aros yno a'i phriodi ddigon hawdd, ond roeddwn wedi gado i mam, a dŵad adra ymhen y flwyddyn fu raid".

Mary Awstin Jones
(1909 - 1985)

Ysgol Llanrug

Rydym yn ffodus yma yn Ysgol Gynradd Llanrug i gael amrywiaeth eang o brofiadau ac mae'r mis sydd newydd fod yn amlinellu hyn.

Santes Dwynwen

Cafwyd disgo byrlymus i ddathlu Santes Dwynwen. Y bechgyn oedd yn arwain y dawnsio y tro yma ac yn awyddus i gael bod yn DJ's.



Wythnos Cyfrif Adar

Treuliodd y plant yr wythnos yn cyfri'r adar oedd yn ymweld â'n gardd ni yma yn yr ysgol, ar ôl cael cyfarfod zoom gydag Esyllt o'r RSPB. Bu iddynt hefyd wneud y gwaith adref i weld a chymharu os oedd gwahanol adar yn ymweld â nhw.



"Toot"!

Mae plant Blwyddyn 2 yn ffodus yn cael gwersi chwythbrennau yn yr ysgol o dan Gynllun Ysgolion William Mathias. Mae'n brofiad werth chweil a'r plant wrth eu boddau.

Chwaraeon

Bu plant Blwyddyn 6 yn cystadlu yn ddiweddar mewn cystadleuaeth athletau Sportshall Eryri. Cyfle i gael blas ar athletau dan do.



Dysgu Cloccio

Bu Tudur Phillips yn ymweld â Blwyddyn 3 a 4 i roi tips ar ddysgu cloccio. Cafodd y plant modd i fyw yn ceisio ei efelychu a chael syniad pa mor heriol ydy cloccio!



Crwydro

Fel rhan o thema Cartrefi'r Cyfnod Sylfaen, fe aeth y plant am daith gerdded o amgylch y pentref. Gwelwyd amrywiaeth o fathau o dai a chael cyfarfod rhai o drigolion y pentref.



Llyfrau!

Daeth ffair lyfrau atom am yr wythnos a'r plant yn cael cyfle i bori a phrynu llyfrau newydd. Braff oedd gweld y rhai ieuengaf yn mwynhau'r profiad.



Datblygiad Moderneiddio

Dyma rai lluniau o ddatblygiadau moderneiddio safle Ysgol Llanrug. Y coed wedi eu clirio i gyd a gofod newydd ar gyfer addysg awyr agored i'r Meithrin a Derbyn.

Tynnu wal ystafell athrawon, adleoli ystafell athrawon i ochr arall yr adeilad ac ymestyn y neuadd. Mwy o ofod i'n plant!




Sioe Mewn Cymeriad

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 fwynhau cynhyrchiad gwych o sioe 'Owain Glyndŵr - Ein Harwr Ni' gan @Gwionaled,@MewnCymeriad a chael cyfle i ddysgu am ein tywysog ni.



Gymnasteg

Llongyfarchiadau mawr i'r bachgen talentog yma am wneud yn arbennig dros y penwythnos mewn cystadleuaeth gymnasteg. Ymlaen â chdi i gynrychioli Ysgolion Eryri yng Nghaerdydd ym mis Mawrth.



Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn



Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn**, Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref (Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

Cost prif gwrs yn £6 neu gost prif gwrs a phwddin yn £8.50 (yn cynnwys cost cludiant)

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost mow@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)



Gwynedd a Môn
age Cymru

Gwaith Coffaol LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA



 **01286 672898**

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

DYLAN GRIFFITH

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol



Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

Ysgol Waunfawr

Prosiect Torgoch

Mae dosbarthiadau Moel Eilio a Chefn Du wedi bod yn hynod o brysyr yn gofalu am wyau'r Torgoch yn ddiweddar. Bu'r dysgwyr wrthi'n brysyr yn mesur tymheredd y dŵr yn ddyddiol er mwyn ei gadw tua 10 gradd celsius.

Aeth pawb ar fws i Barc Padarn er mwyn gallu dychwelyd y silod yn ddiogel i'r llyn, er mwyn cychwyn ar eu taith ac antur nesaf. Diolch yn fawr i Dr Robin Parry am ein cynnwys yn y rhaglen eleni ac i staff Asiantaeth yr Afonydd am fynychu'r digwyddiad hefyd gan gynnwys Tudr y Torgoch ei hun.

Fel rhan o'r cynllun, bu i'r plant wneud gwaith celf yn seiliedig ar y Torgoch ac mae'r gwaith werth ei weld. Bydd Dr Parry yn beirniadu'r gwaith a bydd gwobrau i'r buddugol maes o law.



Cynllun Cerddorol Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd

Diolch yn fawr i Edwin am ei waith yn yr ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf yn hybu creadigrwydd a sgiliau cyfansoddi, gwerthuso a pherfformio'r dysgwyr. Bu i bawb fwynhau'r sesiwn Ukelele a drymiau yn fawr iawn.

Gwaith thema'r Arctig

Gan fod y tywydd yn oer yma yn Waunfawr, bu i ddisgyblion y dosbarth Derbyn ysgrifennu sioe am anifeiliaid yr Arctig, a chyfansoddi cerddoriaeth, greu gwisgoedd a pherfformio fel rhan o'u thema.



Gymnasteg

Mae'r bachgen yma wedi llwyddo i ennill ei le yng ngharfan Cymru mewn cystadleuaeth Gymnasteg yn ddiweddar. Dymunwn y gorau iddo wrth gynrychioli'r Eryri a'r ysgol.

CHWILAIR MIS MAWRTH - ADAR YR AFONYDD A LLYNNOEDD



Gwaith thema Japan

Mae dosbarth Cefn Du wedi mwynhau astudio Japan fel rhan o'r gwaith thema'r tymor hwn. Dyma luniau ohonynt yn dysgu'r gân a chwarae'r gêm clapio 'Omochio Tsukimasho' a chael cyfle i flasau ychydig o fwydydd Japaneaidd.



G	A	C	W	T	I	A	R	G	B	E	R	G	T	P
Ch	W	R	B	R	O	N	W	E	N	Y	D	W	R	I
O	Ff	Y	I	C	D	Y	G	Dd	F	H	L	Y	S	B
G	A	N	A	I	A	R	Dd	W	R	W	Ng	Dd	I	Y
N	L	G	S	Ch	B	A	T	H	C	Y	M	C	G	Dd
E	A	L	F	R	F	L	Ll	I	R	A	O	A	L	Y
B	R	A	O	C	E	A	Y	P	E	D	S	N	E	D
N	Ch	S	Ll	T	F	R	W	Ph	Y	E	C	A	N	O
E	Y	Y	N	D	L	Ch	N	R	R	N	R	D	L	R
D	G	D	S	Rh	A	Dd	E	T	G	G	T	A	W	L
A	O	O	Y	C	N	O	D	M	L	O	Ll	E	Y	A
Y	G	R	W	A	D	F	A	C	A	P	P	C	D	N
W	L	L	O	T	B	G	Y	E	S	O	I	O	E	T
H	E	A	U	Ff	E	D	W	T	Th	G	S	D	G	N
S	Dd	N	A	C	O	R	H	W	Y	A	D	E	N	A

- ALARCH DDOF
- ALARCH Y
- GOGLEDD
- BRONWEN Y DWR
- CORHWYADEN
- CREYR GLAS
- CWTIAR
- GLAS Y DORLAN
- GWYACH FACH
- GWYACH FAWR
- GOPOG
- GWYDD CANADA
- HWYADEN
- BENGOC
- HWYADEN GOPOG
- HWYADEN WYLLT
- IAR DDWR
- PIBYDD Y DORLAN
- SIGLEN LWYD

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwila'r.

Oes ganddoch chi enwau eraill ar rhai o'r adar uchod? e.e. Gelwir y Creyr Glas yn Garan yn Ne Cymru. Ydach chi wedi gweld rhai o'r adar sydd yn Chwilair y mis hwn ar Llynnoedd ac afonydd Bro'r Eco?

ATEBION I CHWILAIR MIS CHWEFROR - LLYNNOEDD

Y	D	U	R	A	R	Dd	U	C	D	N	Ff
E	D	I	G	E	T	C	Ng	E	W	Y	S
C	T	Y	B	R	Ch	E	M	F	N	Ll	E
A	D	F	W	I	H	L	P	N	I	N	I
S	L	O	H	A	M	Y	O	I	Y	Y	G
E	W	Ll	L	E	R	N	S	L	U	L	I
G	H	A	E	C	Ll	Ch	U	Y	A	E	A
F	W	O	D	I	B	D	E	S	T	M	U
R	I	P	G	Y	J	W	L	N	Ph	L	Y
A	D	W	O	B	Ll	Y	S	A	N	I	D
I	Y	N	F	I	N	T	C	A	Th	O	U
Th	E	A	S	Ch	W	N	Y	C	N	Y	Ll

Gawsoch ch'r ateb i'r cwestiwn ofynwyd yn y rhifyn diwethaf? Sef - pa llynnoedd sy'n rhan o dirwedd bro'r Eco?

Ateb: 3 llyn sy'n gywir - sef Llyn Du'r Arddu, Llyn Glaslyn a Llyn Llydaw.

Llongyfarchiadau os oeddech wedi medru eu darganfod yn y chwila'r a'u hadnabod fel llynnoedd ym mro'r Eco.



Crwydro gerddi

Plas yn Rhiw

1

Ar y 28ain Ionawr 2023 roedd un eirllys bach bron ag agor yn yr ardd acw. Dim syndod wir ar ôl yr holl dywydd oer. O edrych yn fy nyddiadur Natur a Garddio llynedd, roedd yr un cyntaf ar agor acw ar y 30ain o Ionawr, felly mae siawns y bydd hwn wedi agor yn iawn erbyn hynny eleni hefyd. Yr eirllys neu'r lili wen fach yw un o'r blodau cyntaf i ymddangos ar ddechrau 'r flwyddyn ac i mi fel llawer un arall, mae'n arwydd fod y gwanwyn ar ei ffordd ar ôl hirlwm y gaeaf. Wrth wrando ar y radio fore Sadwrn clywais er bod Plas yn Rhiw ar gau dros y gaeaf, byddai'r gerddi a'r ystafell de ar agor dros y penwythnos, sef yr 28ain a'r 29ain, er mwyn i bawb gael cyfle i weld yr eirlysiau. Roedd y gŵr a minnau wedi dotio ar y gerddi, cyn y cloi mawr, felly doedd 'na ddim byw na marw ond ein bod yn troi tuag yno i'w gweld a'u mwynhau unwaith yn rhagor.

I gyrraedd yno mae'n rhaid mynd trwy Fynytho a dilyn arwyddion brown dail derw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac fe gyrhaeddwyd, drwy lonydd bach cefn gwlad, i'r Plas bychan a hardd sy'n dyddio o'r 17eg ganrif. Achubwyd y plas gan y chwiorydd Keating, Eileen, Lorna a Honora, oedd yn gadwraethwyr angerddol a brynodd y safle hwn yn 1938, adfer yr eiddo'n ofalus cyn ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 1952, i'w ddiogelu.

2

Wrth gwrs nid jest eirlysiau sydd i'w gweld, roeddwn wrth fy modd o weld yr holl gynffonau wyn bach wrth gyrraedd y maes parcio. Dechrau da i'n taith o gwmpas y gerddi.

3 a 4

Roedd yr eirlysiau i'w gweld ar hyd ochrau'r llwybr wrth i ni gerdded y llwybr tuag at y tŷ, a'r nant yn byrlymu wrth ochr y llwybr ac eirlysiau. Dyna un atgof arhosith efo fi, ac a wnaeth ein dro mor braf - y sŵn. Tawelwch ond am sŵn ein traed a sawl nant yn byrlymu mynd a'r adar bach yn canu. Balm i'r enaid go-iawn.

5

A dyma'r cennin pedr cyntaf i ni eu gweld wedi agor (wel digon agos i fod wedi agor) eleni. Yn ôl y genod oedd yn gweithio yn yr ystafell de, mi fyddan nhw yn llawn blodau erbyn canol mis Chwefror, dwi'n gallu dychmygu y byddant hwythau yn hardd hefyd.



1



2




3



4



5



6



7



8



9



10



11



12

6

Roedd yr eirlysiau'n rhes fendigedig wrth ochr y wal a'r eiddew tywyll yn dangos eu harddwch i'r dim. Mae'r eirlysiau yn ôl pob sôn yn ffynhonnell gynnar o neithdar gwerthfawr i'r gwenyn. Mi welais un - ond roedd o'n symud yn rhy sydyn i mi gael llun! Dydy eirlysiau ddim yn gynhenid i Gymru na gwledydd Prydain. Tarddiad Groegaidd sydd i'r enw gwyddonol arnynt sef *Galanthus*, sy'n golygu blodyn llefrith ac mae eu cynefin naturiol yn ymestyn o Ewrop i Orllewin Asia.

7

Roedd yr hen bobl yn credu os oedd y brain yn nythu'n uchel fod hyn yn arwydd o dywydd braf ar gyfer yr haf. Does gen i ddim syniad os oes rhithyn o wirionedd yn hyn, jest croesi bysedd eu bod nhw'n dallt y dalltings! Mae rhai pobl hefyd yn credu ei bod yn anlwcus i ddod ag eirlysiau i

mewn i'r tŷ. Erstalwm, yn ôl pob sôn roedd eirlysiau'n cael eu defnyddio i wella cur pen (er bod y bylbiau'n wenwynig).

8 - 12

Dyma sy'n braf o grwydro gerddi sy'n fwy na'ch gardd chi. Mi ydach chi'n gallu gweld blodau, fel yr eirlysiau, yn eu cynefin naturiol. Maent yn tyfu orau mewn pridd llaith gyda traeniad da ac mewn rhywfaint o gysgod coed. Dim syndod eu bod nhw'n gwneud cystal yma felly. Os ydyn nhw'n hoffi eu lle mi wnaiff y bylbiau bach gynyddu'n naturiol drwy gynhyrchu bylbiau llai a hefyd drwy had.

Cawsom groeso bendigedig gan ferch ifanc roddodd fynediad i'r gerddi i ni a thaflen wybodaeth am y Plas a ffeithiau difyr am eirlysiau. Rwyf wedi defnyddio rhai ohonynt yn yr erthygl hon. Oeddech chi'n gwybod bod y bylbiau yn wenwynig i bobl ac

anifeiliaid ac fe allai cyffwrdd bwlw achosi lliid ar y croen. Ar yr ochr mwy positif maent yn cynnwys y sylwedd Galantamine sy'n cael ei ddefnyddio heddiw i drin symptomau'r clefyd Alzheimer. Braff hefyd oedd clywed gymaint o Gymraeg gan y staff a'r ymwelwyr. Gorau oll roedd paned a theisen fendigedig i'w cael yn yr ystafell de ar ddiwedd ein taith o gwmpas y gerddi a gwres y stof goed yno'r un mor gynnes â'r croeso gawsom. Gobeithio y cawn ddychwelyd yn ystod yr haf.

Pan fydd blodau'r eirlysiau'n darford, mae'r dail yn dal i dyfu a dyma'r amser gorau i godi a rhannu'r clympiau o flodau i'w hail blannu. Does gen i ddim digon i wneud hynny, felly mi fyddai'n cadw llygaid allan am eirlysiau 'in the green', h.y. planhigion fydd ar gael yn y canolfannau garddio ar ôl i'r blodau farw, gan ei bod yn dipyn o gamp i gael bylbiau sych i dyfu.

Cyngor Cymuned Llanrug

COFNODION CYFARFOD MIS RHAGFYR 2022

1. I DDERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau. Mynegwyd cydymdeimlad a'r Cynghorydd Alan Pritchard yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar ac fe ddymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Beca Brown.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones am ei waith i sicrhau trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig yn yr ysgol.

2. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 15 TACHWEDD 2022

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. I DDERBYN UNRHYW SYLWADAU YN CODI O'R COFNODION

Eitem 1052 - Cyfarfod 15 o Dachwedd.

Adroddwyd fod yr ail fainc wedi ei chwblhau a'r gobaith yw ei gosod yn y flwyddyn newydd. Bydd y cyngor yn estyn gwahoddiad i'r teuluoedd i'w dadorchuddio.

Eitem 1058--Cyfarfod 15 o Dachwedd.

Adroddwyd fod problem yn parhau gyda cheir wedi parcio ger cae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo a phenderfynwyd mynd yn ôl at Gyngor Gwynedd i ddilyn hyn i fyny.

Adroddwyd nad oedd cyfle wedi bod i gael tystiolaeth am y broblem o geir yn parcio ger Pwll Moelyn.

4. I DDERBYN ADRODDIAD gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones,

aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.

5. I DDERBYN ADRODDIAD gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd.

6. I DDERBYN ADRODDIAD AR Y SEFYLLFA GRIT AC I YSTYRIED PA GAMAU DYLLAI'R CYNGOR CYMUNED YMGYMRD YN Y DYFODOL.

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd bellach yn llenwi'r bocsys melyn sydd o gwmpas yr ardal gyda graean. Adroddwyd fod y cyngor cymuned gyda bagiau o raeon ar gyfer trigolion yn ogystal ag ar gyfer achosion brys fyddai yn effeithio ar y gymuned pe nad oes graean o fewn cyrraedd yn y bocsys melyn.

Byddai yn fanteisiol i edrych ar leoliadau presennol y bocsys melyn ynghyd a'u cyflwr.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad a pharhau a'r drefn fel ein bod yn gallu cael graean yn y bocsys melyn ynghyd a darparu bagiau pan fo'r galw yn codi.

7. I DDERBYN ADRODDIAD AM GYFARFOD GYDA CHYNYRCHIOLWYR O DDŴR CYMRU PARTHED SEFYLLFA CARTHFFOSIAETH LLANRUG.

Nodyn am rwydwaith carthffosiaeth Llanrug. Y peth cyntaf yw bod y rhwydwaith, fel rhan fwyaf yn yr ardal, yn "combined". Mae hyn yn golygu fod dŵr glaw yn ogystal â'r dŵr budr yn mynd i mewn i'r rhwydwaith. Felly nid yw'r maint sydd yn cael ei arllwys o'r gwaith i'r Seiont yn gyson.

Mae'r gwaith yn trin i fyny at 17.6 litr/eiliad o garthffosiaeth. Dyma'r maint mwyaf sy'n mynd allan i'r Seiont ar ol ei drin i'r safon, neu yn well na'r safon, sydd ar ganiatad DC.

Mewn tywydd gwlyb mae'r llif sydd yn uwch na 17.6 l/e yn mynd i danc storm yn y gwaith, ac ar ôl setlo am gyfnod yn y tanc, mae'n gorlifo i'r Seiont. Ddylai hyn ddim achosi pryder amgylcheddol achos fydd fwy o ddŵr yn yr afon hefyd.

Os yw'r tywydd yn wlypach eto mae'n gorlifo drwy "Combined Sewer Overflow", CSO, fel sydd yn yr orsaf bwmpio dros y ffordd i Benbont. Yn y fan yma mae llif dros 26.5 l/e yn gorlifo i'r Seiont.

Gofynnwyd i DC be ydi cyflwr y rhwydwaith ac os byddai yn effeithio ar unrhyw ddatblygiadau newydd yn yr ardal. Yn ol DC does dim diffygion ar y funud. Mi oedd 'na rhai blynyddoedd yn ol yn Glanffynnon ac ym Mhont Rhythallt. Mi gafodd waith i ddatrys y rheini eu cwblhau yn y flwyddyn 2018-19.

Yn nalgylch y Seiont mae yna 9 gwaith trin carthffosiaeth- 2 yn Dinorwig, Gallt y Foel, Nant Peris, Penisarwaun, Deiniol/Brynrefail, Llanberis, Llanrug a Caernarfon- 26 gorsafoedd pwmpio a 26 CSO.

Yn ol gwefan DC maent wedi dechrau prosiect i ystyried sut fydd eu hasedau yn ymdopi gyda mwy o law trwm sydd yn debygol yn y dyfodol oherwydd newid hinsawdd. Un o'r pethau byddant yn ystyried yw tynnu dwr glaw allan o'r rhwydwaith dwr budr. Bydd hyn dros y cyfnod 2030-50. Fydd o ddim yn hawdd a bydd yn gostus. Maent yn bwriadu ymgynghori efo CC, Cynghorau ayyb. Oes rhywun yn ymwybodol o hwn? Ydi'r broses wedi cychwyn? Fyddai'n bwysig i'r Cyngor Cymuned gael mewnbyn i hwn.

Adroddwyd ymhellach yn dilyn y cyfarfod ar 17 o Dachwedd 2022 gyda swyddogion o Ddŵr Cymru, y cadarnhawyd fod Dŵr Cymru yn cydnabod fod yna broblemau gyda charthffosiaeth a'u bod yn gobeithio gwneud y gwaith y flwyddyn nesaf.

Adroddwyd fod y cyfarfod yn y gwaith trin carthffosiaeth yn Crawia wedi bod yn fuddiol ac wedi tawelu rhai pryderon. Bydd y cyngor yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad gyda diolch.

8. CYNNIG fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi ymgyrch 'Hanes Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru' ac yn ysgrifennu at Mr Jeremy Miles AS, yn tynnu sylw fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cymeradwyo hyn.

Penderfynwyd: Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi'r ymgyrch ac yn ysgrifennu at Mr Jeremy Miles AS yn cymeradwyo hyn.

9. I DDERBYN ADRODDIAD AM Y 3YDD CYNULLIAD CYMUNEDOL AR YR HINSAWDD.

Cafwyd sgwrs am gynllun Ynni Padarn Peris, bu trafodaeth am y syniadau gweithredu, ac adroddiad am gyfraniad gwerthfawr disgyblion ysgolion yr ardal i'r drafodaeth.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

10. Ceisiadau cynllunio.

a) Cais cynllunio llawn ar gyfer ymestyn maes carafanau ar gyfer ail-leoli 9 o Leiniau Pebyll fel 9 o Leiniau Uned Deithiol, ac am newid 21 o Leiniau Pebyll gyda 21 o Leiniau Uned Deithiol ar y Parc presennol (dim cynnydd mewn niferoedd), lleoli Cyfleuster golchi cytiau bugail a thirlunio. Maes Carafanau Tyn y Coed, Llanrug.

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.

b) Cynllun rheolaeth coed o fewn Gorchymyn Diogelu Coed rhif 54. Bryn Teg Carafan Park, Llanrug.

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad ond gyda'r amodau canlynol-

1) Dim ond coed sydd â hawl i'w torri yn uno â Chyngor Gwynedd i'w torri, a bod coed yn cael eu hail blannu.

2) Fod y cyngor yn cefnogi sylwadau Swyddog bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd.

3) Mae'n hanfodol fod yr ardal yn cael ei warchod ar gyfer bywyd gwylt e.e. tylluanod, ystlumod ac adar eraill.

4) Mae'r cyngor yn pryderu am dorri coed yn gyffredinol, ac o'r farn bod angen plannu coed i wella ac amddiffyn yr amgylchedd.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS IONAWR 2023

1 CROESO

Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor am 7yh nos Fercher yr 11eg o Ionawr 2023 yn Y Ganolfan, Llanberis. Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda ac estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd (LIHP).

2 PRESENNOL AC YMDDIHEURIADAU

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Kevin Morris Jones, Cyng. Kim Jones, Nia Jones, Louise Price, Helen Sharp

Ward Peris: Iola Owen, Llinos Haf Pritchard,

Ymddiheuriadau: Rhys ap Gwilym, Iwan Harding, Heather L Jones. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

3 DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

4 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 14eg o Ragfyr 9fed, 2022 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: KMJ / IO.

5 MATERION YN CODI O'R COFNODIONA

1. Cae Chwarae Ger y Llyn:

Adroddwyd bod nifer o arwyddion oedran newydd wedi eu gosod ar yr offer yn unol a disgwyliadau yswiriant.

2. Blaen Nant, Nantperis:

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn ateb cwestiynau pam na fyynnwyd cael cais cynllunio ar gyfer yr eiddo ym Mwlch Llanberis. Yn ôl y llythyr doedd dim angen cais felly ar gyfer 'garej' cyn belled a'i bod o fewn cwrtill yr eiddo ac o fewn 'mesurau penodol a oedd yn disgyn o dan reoliadau hawliau datblygu a ganiateir' a hynny oherwydd y cynhaliwyd trafodaethau swyddogion APCE a'r perchennog yn 2018. Roedd APCE meddir wedi rhybuddio fod yn rhaid cadw o fewn y cwrtill a'r mesuriadau, Oherwydd na chadwyd at hynny y cyflwynwyd y cais (fisoedd lawer ar ôl i'r Cyngor hwn dynnu sylw at y datblygiad) Chafwyd dim eglurhad pam na esboniwyd hynny i'r Clerc ar y pryd, ond fe gafwyd ymddiheuriad am yr hyn yr oedd y Clerc wedi ei alw yn 'lusgo traed difrifol'. Awgrymwyd fod hynny

oherwydd pwysau gwaith a swyddi heb eu llenwi.

Penderfynwyd fod y disgrifiad 'garej' yn amwys, yn enwedig gan nad oes son am hynny yn y cais cynllunio a oedd yn cyfeirio at 'adeilad allanol sy'n cynnwys gweithdy, storfa a swyddfa' ac y dylid holi am eglurhad pellach.

3. Llwybr Coed Nantucha':

Cafwyd cysylltiad ag un o swyddogion llwybrau CG sydd wedi addo dod allan i gyfarfod y Clerc i drafod cyflwr difrifol y llwybr.

4. Panel penodi Clerc:

Adroddwyd i'r Clerc rannu'r gwaith papur gyda'r Panel ond nad oedd cyfarfod wedi'i gynnal. Pwysodd y Clerc am gyfarfod buan.

5. Llainwen Ucha':

Mae dau wrthwynebiad wedi eu derbyn i'r cais gan y Cyngor am linellau melyn dwbwl er mwyn sicrhau mynediad i'r ardal yma. Addawodd KJ fel Cynghorydd gysylltu a nhw.

6. Cyrsiau Cynghorwyr:

Dyweddodd y Clerc iddo dderbyn rhestr y cyrsiau ar gyfer aelodau oddi wrth Un Llais Cymru (ULIC) ac y byddai'n eu rhannu ar ebost yn y dyddiau nesaf gan atgoffa aelodau o'u hymrwymiad i fynychu un cwrs cyn diwedd Mawrth.

6 MATERION ERAILL:

1. Ffordd Capel Coch:

Adroddwyd eto fod cyflwr wyneb y ffordd yn ddrwg eithriadol a gofynnwyd i'r Cynghorydd bwysio am ei thrwsio.

2. Pont Glanrafon:

Cafwyd adroddiad fod plant yn chwarae yn ôl a blaen ar y bont gan greu diflastod i drigolion lleol. Mewn perthynas a hynny adroddwyd eto am bryder gwirioneddol am drafndiaeth ysgol ar Lôn Tŷ Du.

3. Diogelwch Plant Ysgol:

Mae pryder difrifol yn parhau ymhlith aelodau am fod rhieni yn ymddwyn yn anghyfrifol ar Lôn Tŷ Du wrth ollwng a chodi plant o'r ysgol. Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n croesi'r bont i'r ysgol ac yn nifer y cerbydau sy'n eu hebrwng a'u casglu hefyd. Adroddwyd fod rhai cerbydau yn parcio yno'n hir a'u peiriannau'n troi, fod yno yrru a bacio'n ôl peryglus a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto a'r ysgol, yr heddlu a warden traffig i weld a ellir gwella'r sefyllfa cyn bod damwain yn digwydd yno. Adroddwyd fod Llywodraethwyr yr ysgol wedi trafod y mater, a

dywedwyd fod addewid y byddai athrawon yn cadw golwg ar y sefyllfa ynghyd a chael y plant yn ymwybodol o'r peryglon (efallai trwy greu fideo yn yr ysgol).

4. Defaid:

Yn ôl GE nid oedd gwirionedd yn yr honiad fod defaid yn dod o fynedfa ei gartref i'r pentref am ei fod yn gadael ei giat ar agor. Dywedodd na fu defaid yn pori yn y caeau gerllaw yn ddiweddar, ond roedd yn siomedig nad oedd giat wedi ei rhoi i atal defaid rhag mynd i'w ffordd, er bod un wedi ei haddo gan y tiffeddiannwr. Pan ddaw'r defaid yn ôl i bori fe fydd problem os na roddir giat newydd i'w hatal rhag mynd i'w ffordd. Addawodd y Clerc gael gair a'r ffermwr.

7 MÂN GYMORTHDALIADAU:

Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth gan nifer o gymdeithasau.

Penderfynwyd rhoi £350 yr un i'r mudiadau canlynol: Geidiaid, Brownies a Rainbows Llanberis, Côr Dyffryn Peris, Eco'r Wyddfa, Grwp Datblygu Llanberis a Chlwb Pêl-droed Llanberis.

• **Mynegi Diddordeb:** KJ - Clwb Pêl-droed; GE - Côr Dyffryn Peris; EB - Grwp Datblygu.

8 GOHEBIAETH:

1. CG - Rhybudd Cau Ffordd:

Rhybudd fod pont Penllyn i'w chau am ddiwrnod er mwyn caniatáu gwaith ffilmio.

2. CG - Llwybr Bwlch Maesgwm:

Derbyniwyd copi o lythyr oddi wrth DWW Pennaeth yr Amgylchedd CG at brif warden APCE yn tynnu ei sylw at ddifrod a fu i'r llwybr yn dilyn glaw a llifogydd yn ddiweddar. Mae'r Cyngor hwn wedi beirniadu'r Awdurdod am orddatblygu rhai llwybrau, a dyma'r canlyniad. Penderfynwyd peidio ysgrifennu at APCE ond disgwyl i weld ymateb y swyddog.

3. Llywodraeth Cymru (LIC):

Nodyn yn egluro fod LIC yn ymgynghori i greu canllawiau ar sut y dylai cyrff cyhoeddus edrych ar rai defnyddiau sydd efallai yn cofio pobl a digwyddiadau o'r gorffennol e.e. cerfluniau, placiau ac enwau strydoedd a allai fod yn destun ffrwgwd ac anniddigrwydd wrth i bobl ail ystyried hanes Cymru a choffau hanes Cymru yn gyhoeddus er sicrhau Cymru wrth-hiliol i'r dyfodol.

4. Cyrsiau Cymorth Cynllunio Cymru ac ULIC i aelodau:

Y ddau gorff yn cynnig nifer o gyrsiau hyfforddi. Rhennir y

dyddiadau i'r aelodau ac fe drefnir mynediad i'r cyrsiau yn ôl y galw gan y Clerc.

5. Stryd Fawr - unffordd:

Cafwyd cais eto gan gynrychiolydd tafarnau y pentref am i'r Cyngor hwn gyda CG ystyried gwneud y Stryd Fawr yn un un-ffordd. Cafwyd cais cyffelyb y llynedd. Gofynnwyd i KJ ofyn barn swyddogion trafndiaeth CG, cyn gwneud dim pellach. Mae amryw o aelodau'r Cyngor hwn yn dal yn amheus o'r syniad.

6. CG - Llwybr yr Wyddfa:

Ymateb i gais am arwyddion i geisio atal ceir rhag mynd i gyfeiriad gwaelod y llwybr ac yna ceisio troi yn ôl. Cafodd car un o drigolion yr ardal ei ddifrodi'n ddiweddar, ac mae son fod nifer o bobl yn troi'n ôl yn y fan yma gan greu niwsans. Mae CG yn ystyried y lle gorau i osod arwydd i geisio atal ceir rhag mynd i waelod y llwybr a sylweddoli nad oes yno le i barcio

7. CG - Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus:

Bellach mae'r Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus ar lwybrau sy'n arwain o Lanberis i blwyf Betws Garmon wedi eu cwblhau. Mae'r newidiadau yn y plwyf arall, ond llawer o'r llwybrau yn dechrau neu ddiwedd ym mhlwyf Llanberis

9 CYNLLUNIO:

CYNGOR GWYNEDD:

Roedd yr aelodau wedi derbyn rhybudd am y ceisiadau isod.

• **C22/1169/15/LL** - Llyfrgell Llanberis, Ffordd Capel Coch - *dymchwel yr Hen Lyfrgell ac adeiladu tri thŷ fforddiadwy canolradd newydd.*

Sylwadau: Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynllun i chwalu'r hen Lyfrgell a chodi tri thŷ fforddiadwy, ond yn bryderus a oes digon o le parcio ac yn sylweddoli y bydd nifer o drigolion Ffordd Capel Coch yn colli llefydd parcio yn sgîl y datblygiad. Penderfynwyd gofyn i'r adran o CG sy'n gwneud y cais i ystyried hynny, a bydd y Cyngor hwn yn nodi'r pryder mewn llythyr at yr Adran Gynllunio. Nodwyd pa mor bwysig oedd cael tai fforddiadwy i gadw pobl yn y pentref, a soniwyd fel yr oedd gan CG diroedd eraill yn Llanberis. Cynnig ac eilio: LIHP / LP

10 TRWYDDEDU:

Brooke House, Stryd Fawr, Llanberis - Cais am drwydded alcohol ar gyfer siop newydd yn Brooke House.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Ionawr 10fed 2023 Cofnodion 6ed Rhagfyr 2022 - Cafwyd y Cofnodion yn gywir

Materion o'r Cofnodion

Bin Halen - Cais am Bin Halen ym Mrynrefail - Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn datgan nad oes modd gosod un ger Tyn Twell, gan nad yw ar ffordd gyhoeddus. Fodd bynnag, mae gwasanaeth amgylcheddol wedi gwneud gwaith adfer yno yn y gorffennol, felly efallai fod gobaith i ail ystyried.

Lon Garret Dinorwig - Mae First Hydro yn mynd i ail osod y giât a'r ffens sydd wedi cael ei dymchwel yn ben yr allt.

Cynllunio- Dyma geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

C22/1139/18/DT - Hafod, Gallt y Foel -

Newidiadau i adeilad presennol

C22/1145/18/DT - 1 Craig y Ddinas - estyniad yn y cefn gan gynnwys balconi.

Llwybrau

Derbyniwyd cadarnhad gan adran llwybrau fod yna gynllun ariannu gan Grant Mynediad Llywodraeth Cymru a bod Gwaith 7yn mynd i ddechrau ar y llwybrau canlynol:

Llanddeiniolen 111A - Mewnosod pont Newydd

ynghyd a gwelliannau i'r llwybr o ran dodrefn, draeniad ac arwyddo - i'w cwblhau'r flwyddyn ariannol hon.

Llwybr carreg y Gath, Rhiwlas (74 a 139) - Gwelliannau I ddraeniad, dodrefn ac arwyddo - Gwaith i'w gwblhau blwyddyn ariannol nesaf (2023-24)

Llanddeiniolen 65A - Mewnosod cylfat - Gwaith i'w gwblhau ym flwyddyn (2023-24)

Mae'r adran hefyd yn dilyn cais gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen yn y broses o gael dyfynbrisiau ar gyfer sawl llwybr arall o fewn y plwyf.

Cysgodfan Bws ym Methel - Derbyniwyd amcan bris ar gyfer tynnu a chreu cysgodfan bws newydd yng ngwaelod Bethel ar gost o £3193. Penderfynwyd derbyn yr amcan bris a chysylltu â'r cwmni i ddechrau cyntaf posib ar y gwaith.

O Gwmpas y Bwrdd

Noson Plygain, Eisteddfod Genedlaethol - Cafwyd noson lwyddiannus ar Ragfyr 21ain yn Eglwys Crist Llandinorwig. Gwnaed elw o £400 ar y noson tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd

Dŵr yn Bron Gaer - Unwaith eto mae'r broblem yma yn codi. Ond nododd Elwyn Jones ei fod yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd I geisio datrys y broblem yma.

Cais am drwydded o 06.00 hyd 23.00 mewn siop newydd a agorir yma yn fuan. Dywedwyd fod pryder yn lleol ac roedd yr aelodau yn cydymdeimlo a hynny. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais gan ofyn am leihau'r oriau o gofio fod yna dai preswyl gerllaw a bod Dolbadarn yn cartrefu rhai preswylwyr oedd o bosib wedi bod yn gaeth i sylweddau.

Galw felly am drwyddedu o 8yb hyd 11yh fel siopau eraill.

Cynnig ac eilio: KJ / NJ

11 MATERION ARIANNOL:

1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ragfyr, 2022

Cyfrif Cyfredol: £54,755.34 (llai £5,269.50 sicciau heb glirio)

Cyfrif Cadw: £66.64

2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:

CYFANSWM

£7,631.75

3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/11/2022 a 28/12/2022:

CYFANSWM

£1,465.00

Cynnig ac eilio'r materion ariannol: EB / HS

4) Cyllideb a Praesept:

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar sefyllfa ariannol y flwyddyn a'r rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol. Bu eleni eto yn flwyddyn o wario sylweddol ar wella adnoddau i blant ac ieuencid ac mae'n dda gallu adrodd fod cyfleusterau chwarae'r pentref wedi gwella yn sylweddol yn y ddwy flynedd olaf. Wedi ystyried hynny a'r gyllideb ar

gyfer y flwyddyn i ddod gyda'r ystyriaethau gwario ar gyfer y flwyddyn nesa penderfynwyd gosod praesept o £36,000, sef £2,000 o gynnydd ar eleni. Mae hynny yn cyfateb i gynnydd o £2.51 y flwyddyn yn y dreth ar bob cartref o fewn Band D. Wrth sylweddoli fod pawb o dan wasgfa ariannol penderfynwyd fod rhaid wrth y cynnydd yma i sicrhau fod y Cyngor yn cyfarfod ei oblygiadau a chadw ychydig arian wrth gefn rhag ofn unrhyw ddatblygiad annisgwyl. Cynnig ac eilio: IO / KMJ

12 CYFARFOD NESAF:

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher 8 Chwefror, 2023 am 7.00yh yn Y Ganolfan.

Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:

Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard

Clerc: Dei Tomos

Dyddiad: 8 Chwefror, 2023

Tyrd i Helpu!

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol a Menter Iaith Gwynedd (Hunaniaith) wedi cyhoeddi cynllun gwirfoddoli newydd sbon ar gyfer pobl yng Ngwynedd, Tyrd i Helpu.

Mae llawer iawn ohonon ni'n helpu gyda gweithgareddau a digwyddiadau yn ein pentrefi a'n cymunedau neu'n fodlon rhoi help llaw pan mae rhywun yn holi, heb feddwl am y peth fel gwirfoddoli!

Mae'r Eisteddfod yn chwilio am gannoedd o wirfoddolwyr bob blwyddyn, ac mae nifer o ddigwyddiadau Cymraeg yn ardal Gwynedd hefyd yn awyddus i ddenu pobl i helpu gyda'u gweithgareddau.

Drwy ddod at ei gilydd, bwriad yr Eisteddfod a Menter Iaith Gwynedd yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl helpu gan greu un gronfa ddata canolog yn y sir sy'n benodol ar gyfer helpu mewn digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg.

Meddai Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, "Mae'r Eisteddfod yn dibynnu ar gannoedd o bobl yn dod i'n helpu ni yn ystod yr wythnos ac yn ystod

ein prosiectau cymunedol, ac rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod llwybr clir a hawdd i'n gwirfoddolwyr ni barhau i helpu a chefnogi eu cymunedau yn dilyn yr ŵyl.

"Mae hyn yn rhan o waddol yr Eisteddfod, ac rydyn ni'n falch iawn o gydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd ar y prosiect hwn, ac yn gobeithio y bydd hwn yn fodel y gellir ei ddefnyddio mewn siroedd ar hyn a lled Cymru yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod yn y dyfodol."

Ychwanegodd Iwan Hywel, Pen Swyddog Menter Iaith Gwynedd, "Mae ymweliad yr Eisteddfod yn gyfnod cyffrous i unrhyw ardal, ac rydyn ni'n awyddus i adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl er lles y Gymraeg a'n trigolion ar hyd a

lled Gwynedd. Er cymaint rydyn ni fel menter yn edrych ymlaen at fis Awst, rydyn ni eisoes yn dechrau cynllunio'r gwaddol ac mae ymgyrch Tyrd i Helpu a'r cyfle i'w gwneud hi'n haws i bobl wirfoddoli yn y Gymraeg ar draws y sir yn rhan bwysig o hyn."

Gallwch ymuno â chronfa ddata Tyrd i Helpu yma - www.eisteddfod.cymru/2023-tyrd-i-helpu, a bydd gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli a helpu yn ystod yr Eisteddfod yn Llŷn ac Eifionydd ar gael yn fuan.

Cynhelir yr Eisteddfod ym Moduan ger Pwllheli o 5 - 12 Awst. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein. Ceir rhagor o wybodaeth am Fenter Iaith Gwynedd (Hunaniaith) yma - www.hunaniaith.cymru/hwp/





Yn y rhifyn diwethaf roeddwn yn cwyno ei bod yn oer ac yn tresio bwrw! Wrth ysgrifennu hwn (ym mis Chwefror) dydy hi ddim yn bwrw ond mae hi'n parhau i fod yn oer ac mae esgyrn eira yn parhau i fod ar yr Wyddfa. Yn ôl yr hen bobl, mi ddaw mwy o eira felly cyn diwedd y gaeaf. Amser a ddengys.

Mae fy nyddiadur garddio a natur llynedd yn dangos fod pethau ychydig yn hwyrach yn dod i'r wyneb eleni. Er hynny mae'r dyddiau'n ymestyn ac os nad yw'n rhy oer a gwlyb, mae modd dechrau ar yr amrywiol dasgau sydd angen eu gwneud yn yr ardd. Amser dod o hyd i'r *propagator* yn y cwt a thynnu'r llwch oddi arno a dechrau hau amrywiol bethau. Ar ôl misoedd hir y gaeaf, bydd yn braf dechrau tacluso'r borderi a thocio ambell i lwyn sy'n edrych yn flêr erbyn hyn.

Tasgau

1. Plannu slots neu nionod bach (*shallots*) a setiau nionod arferol. Byddaf yn cychwyn rhai slots yn y tŷ gwydr mewn potiau i'w cael yn barod yn gynt ar gyfer salad. Plannu'r gweddill yn yr ardd o dan '*cloche*' os ydych chi'n posh, neu os does gynnoch chi ddim *cloche* triwch chwarel o wydr (hen ffenest) neu blastig yn yr ardd. Anaml fydd gen i unrhyw rai ar ôl i'w piclo, mi fyddan nhw i gyd wedi cael eu rhoi mewn salad neu ar fechdan gaws.

2. Does gen i ddim digon o le i dyfu nionod a dydyn nhw ddim yn arbennig o hoff o'u lle yma chwaith ond mae'n amser i'w plannu nhw fel sets erbyn hyn. Cofiwch gadw llygaid arnyn nhw, mae rhai adar i'w gweld yn mwynhau tynnu'r nionod o'r pridd... ond ar y llaw arall maen nhw'n wydn. Does dim angen llawer o wrtaith, neu mi gewch nionod meddal wneith ddim cadw dros y gaeaf nesaf.

3. Plannu tatws cynnar, os nad yw'n rhy wlyb nac yn rhy oer. Mi fyddai'n rhoi rhyw bedair taten math cynnar cyntaf (*first earlies*) mewn potyn mawr yng nghornel y tŷ gwydr i ddechrau. Mi fyddan nhw wedi cael eu bwyta neu eu symud allan os yw'n rhy boeth, fel bod digon o le i'r tomatos a chiwcymbers ymhellach ymlaen. Croesi bysedd ac ymhen rhyw 10 - 12 wythnos mewn i'r sosban a nhw! Mi fydd y gweddill, sef '*Rocket*', dewis eleni (neu gallwch drïo Maris Piper a llawer un arall) yn cael eu plannu yn yr ardd. Bydd fy nhatws hadyd fy hun, '*Pink Fir Apple*', fel math prif gnwd (*main crop*) yn cael eu plannu ym mis Ebrill, fydd yn barod i'w bwyta ymhellach ymlaen yn y flwyddyn. Mae gen i fagiad bach ohonynt ers llynedd, yn y rhewgell, i'w bwyta ymhellach ymlaen efo salad a ballu pan fydd hi'n gynhesach. Os am drïo rhywbeth gwahanol beth am '*Salad Blue*' taten prif gnwd sydd lliw piws-las o dan y croen ac yn dda ar gyfer sglodion a thatws stwnsh; *Highland Burgundy* sy'n goch llachar a chylch gwyn o dan y croen, sy'n dda i wneud sglodion neu *wedges* neu fel arall '*Golden Wonder*' sydd â chroen brown fel siocled ond ag ansawdd fflwfflyd i'w chrasu yn y popty, rhostio, sglodion neu greision (roedd yna gliw yn yr enw debyg!).



4. Dyma'r amser i blannu bylbiau fydd yn blodeuo yn yr haf e.e. gladioli. Gallwch eu cychwyn mewn potiau o gompost sylfaenwyd ar bridd (*soil based compost*) rŵan, gan eu plannu oddeutu 15cm (6 modfedd) o ddyfnder? Gofalwch eu cadw mewn lle di-rew dros nos cyn i chi fedru eu plannu y tu allan o gwmpas diwedd Mai. Gan gadw efo bylbiau, os ydych chi am sicrhau bod eich cennin pedr yn blodeuo'n dda yn ystod 2024 codwch glympiau ohonynt bob rhyw dair i bedair blynedd. Codwch y bylbiau o'r pridd a defnyddiwch dwy fforch, gefn wrth gefn, i rannu'r clwmp. Gwahanwch y bylbiau wedyn i rai unigol. Plannwch nhw'n ôl yn lle dach chi isio iddyn nhw dyfu, mewn tyllau gyda gwrtiaith megis, gwaed, pysgod ac esgyrn yng ngwaelod pob twll, sydd o'r un dyfnder ac roedd y bylbiau'n tyfu yn y lle cyntaf. Defnyddiwch sawdl eich troed i sadio'r pridd a dyfriwch yn dda.

5. Cofiwch fwydo llwyni sydd mewn potiau. Mae'n hawdd anghofio amdanynt wrth iddynt fyw ar y patio neu harddu rhyw gongl yn rhywle, ryw adeg o'r flwyddyn. Os am gadw'r planhigyn a'r dail a blodau ar eu gorau mae'n rhaid eu bwydo. Crafwch y 5cm (2fodfedd) uchaf o gompost i ffwrdd oddi ar yr wyneb, gan chwynnu wrth fynd. Ychwanegwch gompost sylfaenwyd ar bridd John Innes yn ei le nes ei fod jest o dan ymyl y potyn, gan ychwanegu dipyn o ronynnau gwrtiaith, sy'n rhyddhau maeth dros amser, neu '*bonemeal*', fydd yn bwydo'r llwyn am weddill y tymor tyfu.

6. (a) Tociwch eich coed rhosod llwyn er mwyn

eu cadw'n iach a sicrhau digon o flodau'n ystod yr haf.

(b) Gallwch hefyd docio'r coed helyg lliwgar a *cornus* (sy'n goleuo'r ardd efo'u lliwiau hyfryd yn ystod y gaeaf). Peidiwch â bod ofn, gallwch eu torri lawr hyd at ddwy fodfedd o'r llawr, i sicrhau sioe o liwiau gwych flwyddyn nesaf.

(c) Wrth i dyfiant newydd ddatblygu ar y trilliwr ar ddeg (*hydrangea*) nawr yw'r amser i'w tocio a'u tacluso. Tynnwch bennau'r pen mop (*mophead*) lawr i'r pâr o flagur cyntaf, tra mae *hydrangea paniculata* a *H. 'arborescens'* yn blodeuo'n dda os ydych chi'n eu tocio i fframwaith isel bob gwanwyn.

7. Twtiwch eich planhigion alpaidd (*alpines*) trwy dynnu'r hen dyfiant brown, marw, a thocio unrhyw goesau noeth preniog. Chwynwch a llenwch unrhyw dyllau efo graean garddwrol neu taenfa (*mulch*) carreg addurniadol, yn hytrach nag ychwanegu mwy o bridd.

8. Gallwch dorri'r lawnt os oes angen ar ddiwrnod sych - ond cofiwch osod y llafnau ar y toriad uchaf.

9. Chwynnu! Ar bob adeg lle mae'n bosib. Bydd llai o waith gweddill y flwyddyn wedyn! Mwy'n y byd godwch chi rŵan, lleia'n y byd fydd i'w codi ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.

10. Cofiwch i ddod a phlanhigion tyner i mewn yn ystod y nos, tan fis Mai o leiaf.

Rhosyn Mynydd

Ar ben arall i'r lein



Yn yr oes fodern yma mae pawb i weld yn rhyw redeg o un lle i'r llall, heb amser i ddim, na chyflawni dim llawer chwaith, ond codi rhyw straen corfforol a meddyliol ar y naill a'r llall. Mae'r arbenigwyr – ac mae digon o'r rhain o'n cwmpas – yn rhyw argymhell fod eisiau dysgu ymlacio llawer mwy a gadael i lawer o bwysau'r hen fyd yma hedfan dros eich pen. Un o'r ffyrdd gorau i wneud hyn yw gwario rhyw ychydig oriau yn pysgota; mae hyn yn llawer ysgafnach ar eich poced na gêm o golff! Yndi mae hyn yn sicr o fod yn feddyginiaeth i'r ysbryd – 'ar y glannau mae lle i enaid gael llonydd'; Mae yn gweithio, ond peidiwch da chi a cael dim i wneud â gweinyddu, rhedeg a rheoli cymdeithasau a busnesau yn ymwneud â'r byd pysgodfaol; mae rheolau a deddfau yn cymhlethu pob dydd a thrwy hyn yn ei gwneud yn anodd iawn rhedeg pethau sydd i fod mor syml. Gormod o rai yn rhedeg o gwmpas mae'n siŵr, ac eisiau dangos eu bod yn gwneud rhywbeth, ac wrth gwrs bod yn bwysig. Cawn weld yn ddigon buan be arall sydd gan y pwysigion yma i daflu ein ffordd – efallai atal pysgota yn gyfan gwbl, wedyn mi fydd yn rhaid inni oll droi at y cwrs golff, ond cofiwch mae'n amhosib rhoi peli golff yn y badell a chael prydyn blasus. Os nag oes rhywun yn gwybod yn well yn 'de?

Mae Ionawr a dechrau Chwefror wedi bod yn amser gweddol brysur, un o'r pethau sydd ar y gweill yw ceisio cael rhyw drefn ar rai o'n afonydd ac is-nentydd sydd â rhwystrau i'r brithyll brown, eog a gwyniadau gyrraedd manau bwrw grawn. Rhwystrau wrth gwrs sydd wedi dod i rym drwy ddatblygiadau, y mwyaf euog o'r datblygiadau yma yw Gorsaf Bŵer Dinorwig. Fe draddodwyd manylion y problemau yma yn y rhifyn blaenorol, ac i gario 'mlaen a'r mater fe gafwyd cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Afonydd ar 30ain Ionawr. Fe gawsom tipyn o addewidion, ond a dweud y gwir tydw i ac eraill oedd yn bresennol ddim yn rhyw ffyddiog iawn bydd rhywbeth go sylfaenol yn digwydd i esmwytháu'r problemau. Rydym yn teimlo fod y dalgylch yma, sydd wedi cael ei effeithio fwyaf yn cael y sylw priodol – mae enghreifftiau o waith ardderchog o brosiectau adfer



Huw Geraint ag eog braf o'r Llyfni

mynediad ar hyd y gogledd Cymru sydd wedi eu cyflawni gan yr Ymddiriedolaeth, ond does dim ar y Seiont, Gwryfai na'r Llyfni. Tarwch olwg ar northwalesrivertrust.org/prosiects-projects am dystiolaeth o hyn.

Diwedd Ionawr daeth newyddion calonogol dros ben o'r Afon Llyfni. Fe gawsom wybodaeth flynyddoedd yn ôl, drwy'r cyfrifydd pysgod a fu'n weithredol ger Melin y Cim, fod rhediad o eogiad yn cymryd yr afon rhwng Chwefror a diwedd Ebrill. Eleni dechrau Chwefror fe welwyd eog gloyw yn dangos ym Mhll Lan Môr ac ymhen rhyw hanner awr wedyn fe welwyd dau eog mawr yn ceisio nofio dros y rhwystr dan Bont y Cim. Dyma gadarnhad gweledol cyntaf inni ei dderbyn ers blynyddoedd lawer. Ond cofiwch pan ddechreuais gyda'r gymdeithas dros ddeugain mlynedd yn ôl mi fyddwn yn cael sgwrs yn aml gyda Dr Glyn Owen, Penygroes un o ymddiriedolwyr y clwb a hefyd W. O. Williams a Elfed Roberts i gyd o Benygroes a hefyd yn achlysurol â Huw Geraint Williams, Pontllyfni. Mi fyddent yn adrodd fod eog cynnar i'w gael yn y Llyfni, a'r lle i'w dal oedd ble mae'r afon yn rhedeg drwy ddôl Glanrafon Bach, a Llyn Dwy Garreg. Perchennog Glanrafon amser hynny oedd Will Glanrafon, ffrind da arall i'r clwb. Yn anffodus mae'r criw yma i gyd wedi ein gadael, a mae'n rhaid i minnau roi ar gof y sgysiau a'r helyntion yma o'r oes a fu, neu mi fydd y cwbl wedi mynd gyda mi.

Os am gael blas ar hyn ceisiwch gopi o *Tros Fy Ysgwydd gan Huw Geraint* - sef argraffiad o ddarlith flynyddol Llyfrgell Penygroes yn 2002. Dyma ddywedodd am y nifer o wyniaid oedd yn cael eu dal ar y Llyfni –

'Clywais bu i William Roberts Bryn Hwylfa ddal tocyn o wyniaid a mynd a hwy yn gynnar yn y bore mewn sach ar gefn ei fotobeic i gyfeiriad Beddgelert. Rhywfodd, daeth twll i'r sach, ac wedi iddo gyrraedd yno sylweddolodd



Elfed Robert yn 'sgota Llyn Dwy Garreg'

nad oedd fawr o bysgod ar ôl. Wrth iddo ddychwelyd am Dalysarn, roedd chwarelwyr ar eu ffordd i'r gwaith, a phawb â physgodyn neu ddau yn eu meddiant.'

Braf yw gweld sut mae rhai geiriau yn y Gymraeg yn parhau gyda'r un ystyr dros y canrifoedd, nodir mai gwyniadau oedd yn sach William Roberts. Mae cyfeiriad at wyniadau y gog yn 1663 yn y llyfryn 'A New Account of Snowdonia' a ysgrifennwyd ar ran Edward Llwyd, a hyn, pan yn disgrifio yn y 6ed ganrif fod Sant Peris a'i geffyl yn cael ei aflonyddu pan yn croesi'r Afon Cerniach gan eogiad yn claddu. Gwnaeth y sant orchymyn nad oedd i unrhyw eog, gwyniaid y gog na chrethil brithion gladdu yn y fangre honno o hynny 'mlaen. Rwan ta, rwyf wedi holi o'r blaen am Afon Cerniach a dim ateb gan neb – ond yn ôl y disgrifiad buaswn yn mentro dweud mai Afon y Bala yw'r lle. Tarwch olwg ar *Straeon Gwerin Ardal Eryri* gan John Owen Huws am fwy o fanylion o Sant Peris a'i orchymyn. Ond wrth gwrs tydi'r hen bysgod dros y canrifoedd wedi cymryd yr un sylw o orchymyn y sant.

I'r rhai sydd â diddordeb yn helyntion Llyn Padarn, er fod Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd ddim yn gweld dim o'i le yn yr arllwysion carthffos y cyfeiriwyd atynt yn rhifyn Ionawr. Erbyn heddiw mae rhai heblaw y Gymdeithas yn dechrau cadw llygad. Yn yr wythnosau diwethaf mae gwbyodaeth wedi dod i law fod tyfiant hollol annaturiol yn ymddangos ar wyneb y llyn, wrth ymyl maes parcio dros y ffordd a'r clwb. Wedi cael golwg ar y lle, dyma sydd i'w weld – mae'r tyfiant yn ymestyn o wely'r llyn ac yn lledaenu fel gorchudd gwyrdd ar yr wyneb. Mae'r manylion wedi eu rhoi i CNC ac rydym yn disgwyl gwbyodaeth. Gobeithio daw hyn i law erbyn mis nesaf.

Bydd daliadau wedi bod gobeithio erbyn y rhifyn nesaf, mi fydd Llyn y Dywarchen wedi ei stocio ond bydd yn rhaid dal arni tan 1af Ebrill. Rwy'n clywed fod gobeithion yn uchel am helpa go dda. Wel dyna'r rhagolygon fodd bynnag gan i'r sibrydion ddweud fod padelli Llanrug allan yn barod, ond rhaid bydd bodloni ar frithyll o'r afon am y tro!

Huw Price Hughes

Hwyl Fawr Joe Allen

Gyda llai na mis wedi mynd heibio ers cyhoeddiad Gareth Bale ei fod yn ymddeol o chwarae pêl-droed, dyma'r newyddion yn torri fod Joe Allen wedi penderfynu na fydd yn chwarae i Gymru unwaith eto. Roedd rhywun yn amau byddai'r drysau yn agor ar ôl cyhoeddiad Gareth Bale ond ddim chwaith eisiau coelio y byddai'n bosib i eraill ei ddilyn allan o dîm Cymru. Ni fydd Joe Allen yn ymddeol yn llwyr o chwarae pêl-droed ac mi fydd yn parhau i chwarae i Abertawe ond dyma ddiwedd ei daith yng nghrys Cymru.

Enillodd Joe Allen 74 cap i Gymru gyda'i gap cyntaf yn dod yn 2009 yn Llanelli yn erbyn Estonia diolch i John Toshack (rheolwr Cymru ar y pryd). Daeth yna yn rhan allweddol o garfan Cymru yn ystod cyfnodau Gary Speed a Chris Coleman ac wrth gwrs yn fwy diweddar, Rob Page. Cafodd ddwy gôl i Gymru a'r ddwy yn dod yn ystod yr un flwyddyn, 2016. Sgoriodd ei gôl gyntaf i Gymru yn erbyn Moldova ym mis Medi 2016 ac yna yn erbyn Awstria ym mis Hydref 2016. Mae llawer yn dweud mai



Joe Allen yw'r Xavi Cymraeg ond mae eraill yn dweud mai Xavi yw'r Joe Allen Sbaeneg!

Mae Cymru yn well tîm pan mae Joe Allen ar y cae, roedd ei bresenoldeb yng nghanol y cae yn ddylanwadol dros ben. Mae triawd Gareth Bale, Aaron Ramsey a Joe Allen nawr lawr i un - Aaron Ramsey. Bale a Ramsey yw'r rhai oedd yn ennill gemau i ni drwy sgorio, y 'match winners' fel petai, ond

heb Joe Allen yng nghanol y cae yn ennill y meddiant, ni fyddai Bale a Ramsey yn cael gymaint o gyfleoedd i sgorio! Mae rhywun yn teimlo bron fel bod Joe Allen yn dipyn o 'unsung hero.' Ydi, mae cefnogwyr Cymru yn ei werthfawrogi ac yn gweld pa mor arbennig yw ond mae wastad wedi bod yng nghysgod Bale a Ramsey i ryw raddau. Heb os nac oni bai, roedd Joe Allen yn un o chwaraewyr pwysicaf y garfan

ac yn sicr yn rhan allweddol yn Ewro 2016. Fe gafodd ei enwi yn Nhîm y Twrnament, cyfle euraidd i arddangos ei dalent i weddill Ewrop. Mae baner i'w weld gan gefnogwyr Cymru yn dweud "When God created Joe Allen, he was just showing off". Yn sicr roedd yn dipyn o ffeffryn gan y cefnogwyr ac mi fydd yn golled enfawr i'r garfan.

Cafodd anafiadau y gorau o Joe Allen erbyn y diwedd yn anffodus ac nid yw wedi chwarae yn rheolaidd i Gymru yn ddiweddar. Roedd yn agos iawn at fethu Cwpan y Byd Qatar ac mi fyddai wedi methu Ewro 2020 oni bai i'r gystadleuaeth gael ei oedi nes 2021. Mae'n bendant yn teimlo fel diwedd cyfnod erbyn hyn gyda Bale ag Allen yn mynd, a pwy a wŷyr, efallai bydd mwy yn eu dilyn yn fuan. Er bod hi'n drist meddwl am dîm Cymru hebddyn nhw, mae'n bwysig nawr i edrych ymlaen at y dyfodol a bod yn gyffrous am y bechgyn ifanc sydd yn llunio'r tîm erbyn hyn. Wedi'r cyfan, maent wedi cael eu dysgu gan y gorau yn Gareth Bale a Joe Allen!

Noson Gomedï Llanberis

Mae comedi byw yn rhywbeth prin yng Ngwynedd, heb sôn am wrth droed yr Wyddfa - mae o fel creadur egsotig fel yr Yeti! Ond dyma beth yw cynllun y comediwr Noel James. Bu Noel, yn wreiddiol o Gwmtawe, yn troedio'r byrddau ers dros 20 mlynedd, ac yn 2018 llwyddodd i gyrraedd rownd gynderfynol Britain's Got Talent (felly mae'n medru uniaethu efo tîm pêl-droed Lloegr).

Yng Ngwesty'r Padarn, ar stryd fawr Llanberis, ar 11eg Mawrth fe fydd 'na sioe yn cynnwys pedwar comediwr, gyda Noel fel arweinydd y noson. Sioe Saesneg fydd hi, ond mae Noel yn addo cynnwys ambell jôc yn y Gymraeg.

Yn ymddangos yn y sioe tri rhan gyda Noel bydd rhai o oreuon y gylchdaith comedi cenedlaethol:

James Sherwood, o Loegr, fydd yn dod a'i biano gydag e er mwyn canu ei ganeuon ffraeth, sych.

Katie Gil-Williams. Mae Katie, sydd wedi dysgu Cymraeg, yn wreiddiol o Lerpwl ond bellach wedi ymgartrefu yn y Felinheli.

Ac, yn olaf, mae Andrew Rutledge. Yn llechu yng nghymoedd y de mae Andrew, ac wedi datblygu enw da yno fel y

A promotional poster for a comedy night at Gwesty Padarn Hotel. The poster features a red and white logo for 'CLWB COMEDI PADARN COMEDY CLUB'. It lists the date 'Mawrth 11 March' and the location 'Gwesty Padarn Hotel LL55 4SU, 01286 871231 info@padarnhotel.co.uk'. The poster also mentions 'Yn Cyflwyno Presenting' and 'A gynhelir gan Hosted by JAMES'. It features photos of comedians Andrew Rutledge, Katie Gil-Williams, and James Sherwood. Text on the poster includes 'NOEL', 'Star of BRITAIN'S GOT TALENT', 'Eich prif act Your headline act James Sherwood', and 'Toeynnau Tickets £10'.

'Les Dawson Cymraeg'.

Mae gan Lesley, perchennog y gwesty, obeithion uchel y bydd y clwb comedi yn profi'n boblogaidd, ac yn rhedeg yn fisol o'r haf ymlaen.



www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa



Cerddlun

Dyma gerdd anfonwyd i'r Eco gan Gwenllian Roberts o Benisarwaun, mewn ymateb i'n cais am gerddlun(iau) yn y rhifyn diwethaf.

Llun o'r chwarelwyr yn 1950 yw'r llun a welwch a thad Gwenllian yw'r 3ydd o'r dde. Gan nad yw'r llun hwn yn fawr iawn, mae Gwenllian wedi anfon llun arall sydd wedi ei 'zoomio' mewn er mwyn ei wneud yn haws i'w adnabod.

Diolch i Gwenllian, edrychwn ymlaen at dderbyn rhagor o'ch Cerddluni(iau)



www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa



Chwael Dinorwig

Glasfynydd ar lethrau Elidir
Daeth hwn a bwrlwm un tro,
Mae 'o' yn cofio ein teidiau a'n tadau
A'r llewyrch a roddodd i'r fro.

Ond ble maent heddiw a'u hoelion mawr?
Y cannoedd o'r crefftwyr cain,
Oedd yn trin a thrafod pob modfedd o'r clwt
Cyn ei hollti yn llechen fain.

Cytgan:

Cannoedd yn heidio am y chwael fawr,
Sŵn soniarus yr hoelion ar doriad gwawr,
Ond tawel yw'r llwybrau a'r cledrau nawr
Ac mae gwyrddni ar wyneb y graig.

Daeth tro ar fyd a therfyn ddaeth
Diflannodd y bwrlwm bras,
Colli y frwydr fu i'r rhai oedd gaeth
Eu cofeb nawr yw'r Garreg las.

Glasfynydd ar lethrau Elidir
Creithiog dan drawiad y cŷn
Unwaith yn chwael, heddiw yn dawel,
Amser a ailbeintiodd y llun.

Gwenllian Roberts

Cymru yng Nghwpan Hoci'r Byd

Dim ond ychydig wythnosau ar ôl i lygaid y Byd fod ar Qatar a Chwpan y Byd, braf oedd gweld Cymru unwaith eto mewn Cwpan y Byd ym mis Ionawr. Cwpan y Byd

Dechrau mis Ionawr roedd tîm Hoci Cymru yn chwarae yng nghystadlu Cwpan y Byd yn India. 128 mlynedd ers chwarae eu gêm gyntaf roeddent yn cystadlu yng Nghwpan y Byd am y tro cyntaf erioed. Camp aruthrol iddynt gan gofio fod y chwaraewyr yn amatur ac yn gorfod talu eu hunain i gynrychioli eu gwlad. Gyda

nifer o'r garfan yn gorfod cymryd gwyliau o'i gwaith i allu chwarae yng Nghwpan y Byd!

Roedd Cymru yn Grŵp D ac roedd eu gêm gyntaf yn erbyn yr hen elyn Lloegr. Doedd hi ddim y cychwyn delfrydol wrth gollu o 5-0. Sbaen oedd eu hail gêm ond er ildio 5 unwaith eto daeth moment hanesyddol wrth i James Carson sgorio gôl gyntaf Cymru yng Nghwpan y Byd. Yn eu gêm olaf yn y grŵp, y tîm cartref India oedd yn eu hwynebu ac er colli o 4-2, am berfformiad gwych yn erbyn tîm enillodd y fedal efydd yn Gemau Olympaidd Tokyo 18 mis yn ôl!

Felly 4ydd yn y grŵp oedd

hanes Cymru a gemau'r safleoedd yn eu hwynebu nesaf. Cafwyd gêm gyfartal 2-2 yn erbyn Ffrainc a'r cochion yn curo ar giciau o'r smotyn. Buddugoliaeth gyntaf i Gymru yng Nghwpan y Byd. Er colli yn drwm yn erbyn Yr Ariannin o 6-0 yn eu gêm olaf fe orffennodd Cymru yn yr 11eg safle. Cafodd Yr Almaen eu coronni yn Bencampwyr y Byd.

Er eu llwyddiant o gyrraedd India mae'n siomedig na chawsant y sylw oeddent yn ei haeddu yn ystod y gystadlu. Gobeithio mawr na fydd y tîm Hoci yn disgwyl mor hir â tîm Rob Page i chwarae yng Nghwpan y Byd eto.

Elgan Rhys Jones

Gwyliau
ARVONIA

- Gwyliau ym Mhrydain ac Ewrop ▪ Teithiau grŵp
- Cyngherddau a sioeau ▪ Teithiau diwrnod
- Teithiau dros nos ▪ Cerbydau moethus

01286-675175

www.arvoniaco.uk

DIONI

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

ChwaraeonECO

Beiciwr Mynydd

Mae Osian Morris o Lanrug yn mwynhau beicio, ond yn wahanol i fechgyn eraill o'i oedran, beicio mynydd sy'n mynd a'i fryd, ac y mae'n hoff iawn o gystadlu yn y gamp honno, gan deithio'r wlad i wahanol gystadlaethau. Daeth ei lwyddiant diweddaraf mewn cyfres sy'n cael ei galw yn '100% Mini Downhill', a chynhaliwyd y ras ddiwedd Ionawr ar gwrs yn y Forest of Dean ar y ffin rhwng

Cymru a Lloegr. Roedd yn gwrs heriol, yn troelli a gostwng yn sydyn ar lethrau caregog y goedwig. Roedd pob beiciwr yn cael dau gynnig i gwblhau'r cwrs, a'r amser cyflymaf oedd yn cipio'r wob. Roedd Osian yn cystadlu yn y grwp oedran 13eg a 14eg oed. Enillodd y gystadlaethau mewn amser o 1 munud a 21 eiliad. Gobeithio y cawn adrodd mwy o hanes ei lwyddiannau yn ystod y flwyddyn i ddod.



Cyfres Rasys Mynydd Nos Fawrth

Cafodd y gyfres rasys hon ei sefydlu yn 1991, ac mae wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd. Anogaeth i ymarfer oedd y gyfres gyntaf, gyda llai na hanner cant o redwyr yn ei mynychu, ond buan y daeth yn hynod boblogaidd, ac yn y blynyddoedd diwethaf (ar wahân i gyfyngiadau Cofid) gwelwyd dros 150 o redwyr yn troi allan i ambell ras. Elfen bwysig o'r holl rasys hefyd yw'r ffaith fod ieuencid a phlant yn cael eu hannog i rasio ar gysiau byrrach.

Bydd ras gyntaf eleni yn cychwyn

o Ganolfan Y Fron i gopa Moel Tryfan ac yn ôl ar 28ain Mawrth am 7.00PM – ond bydd angen cyrraedd yn gynt i gofrestru. Bydd yr ail ras hefyd yn cychwyn o'r un safle ond yn cael ei rhedeg ar Fynydd Cilgwyn – 4ydd Ebrill, eto am 7.00PM.

£2 yw'r tâl cystadlu am bob ras, a £1 i ieuencid a phlant. Ond o dalu £20 yn unrhyw un o'r ddwy ras gyntaf, ceir cystadlu mewn 12 ras am bris 10.

Cwmni Siopau Joe Brown fydd yn noddi rasys yr oedolion a Chwmni Caernarfon Tyres yn noddi'r rasys ieuencid a phlant.

Bydd cyfran o elw pob ras yn cael ei gyflwyno i elusennau neu gymdeithasau lleol.

Am wybodaeth ynglŷn â holl rasys y gyfres neu os am gofrestru ymlaen llaw (ac osgoi sefyllian yn hir i dalu cyn pob ras unigol) yna ewch i safle: www.eryriharriers.org.uk/midweek-series/

Seren y Gêm

Roedd y bel hirgron yn ddieithr iawn i ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn y gorffennol, ond bellach mae unigolion dawnus iawn yn y gêm yn gwneud eu marc ar sawl lefel. Un arall o'r bechgyn ifanc hyn yw Corin Mabon Jones o Gwm-y-Glo. Mae bellach yn bymtheg oed ac wedi datblygu'n chwaraewr cryf a thebol yn nhim rygbi'r ysgol gyda llawer o geisiau wedi eu sgorio'n barod. Oherwydd ei gariad angerddol at y gêm, ymunodd yn ifanc â Chlwb Rygbi Caernarfon, gan drosglwyddo ar ddiwedd 2020 i Glwb Rygbi Pwllheli. Ym mis Ionawr y llynedd enillodd ei le yng ngharfan Gorllewin Rygbi Gogledd Cymru (RGC). Bellach, mae'n aelod gwerthfawr o garfan dan 16 RGC, ac yn derbyn hyfforddiant ym Mharc Eirias, Bae Colwyn bob nos Fawrth a nos Iau. Mae'n cael ei gydnabod fel chwaraewr amryddawn sy'n medru dominyddu pob gêm



mewn amrywiaeth o safleoedd – ond pe bai ganddo'r dewis, byddai'n well ganddo chwarae yn safle rhif 8. Gyda charfan dan 16 RGC mae wedi ennill Seren y Gêm ar ddau achlysur yn barod eleni. Gobaith Corin ar gyfer y dyfodol yw mynychu coleg chwaraeon i ddatblygu ei sgiliau ymhellach. Ei freuddwyd, wrth gwrs, yw cael cynrychioli Cymru gyda balchder. Pwy a wŷr na welwn enw Corin yn cael gwisgo'r crys coch enwog yn Stadiwm y Principality yn y dyfodol.

Gymnast y Flwyddyn

Cafodd Guto Williams, 8 oed o Lanrug, lwyddiant mawr efo'i gymnasteg ddiwedd Ionawr.

Mae Guto'n aelod o Glwb Gymnasteg Eryri, ac yn ymarfer pob bore Sul ym Mhlas Silyn, Penygroes. Ar y nos Sadwrn, cafodd wobwr 'Gymnast y Flwyddyn' yn noson wobrwyo Gymnasteg Gogledd Cymru ar ôl cael ei enwebu gan y clwb.

Yna, ar fore Sul cymerodd Guto ran yng nghystadlaethau Ysgolion Eryri ym Mhlas Arthur Llangefni. Roedd yn cynrychioli Ysgol Gynradd Llanrug, ac yn cystadlu yn y *tumble a'r vault* yn erbyn bechgyn blynyddoedd ysgol 3 i 6. Cafodd Guto 1af ar y *vault*, ac 2il ar y *tumble*. Bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli tîm Ysgolion Eryri yng Nghaerdydd ar y 3ydd o Fawrth ac yn cystadlu yn erbyn ardaloedd ysgolion eraill o Gymru.

Llongyfarchiadau mawr Guto, a phob lwc i ti a'r tîm yng Nghaerdydd.



ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >